Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy 2023-2024

Jenny Williams
Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Addysg
gofal.cymdeithasol@conwy.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fod yn ddiogel, yn iach ac yn annibynnol

Conwy County, the right environment to be safe, healthy and independent

Cynnwys

Cyflwyniad 3
Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad 5
Gosod y Llwyfan 6
  Arweinyddiaeth 6
  Y Gweithlu 9
  Adnoddau Ariannol 14
Asesu Perfformiad 17
  Pobl 17
  Atal 39
  Partneriaethau ac Integreiddio 67
  Lles 77
Gwybodaeth Arall 89
  Arolygon ac adolygiadau 89
  Cwynion a sylwadau 89
  Ffynonellau eraill o wybodaeth 94
Fframwaith Rheoli Perfformiad 95
Pryderon am unigolyn 97

Cyflwyniad

Ddiwedd bob blwyddyn ariannol mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi adroddiad yn amlinellu taith yr Awdurdod Lleol tuag at welliant yn narpariaeth gwasanaethau i drigolion Conwy, i bobl sy'n ceisio gwybodaeth, cyngor a chymorth ac i unigolion a gofalwyr sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae'r adroddiad yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o wahanol ffynonellau i ddangos a rhoi tystiolaeth o sut yr ydym yn hyrwyddo lles ac yn sicrhau ein bod bodloni safonau ansawdd. Mae'r adroddiad yn rhan o Fframwaith Perfformiad a Gwella Llywodraeth Cymru ac mae'n rhan annatod o'n gwaith o gynllunio gwasanaethau cymdeithasol, craffu ar yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r camau yr ydym yn eu cymryd i wella perfformiad. Mae'r adroddiad hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i goladu a deall data a thystiolaeth ar ddarpariaeth gofal a chymorth ar draws Cymru.

Byddwch yn sylwi bod adroddiad eleni'n edrych ychydig yn wahanol. Yn 2023 diweddarwyd canllawiau gwreiddiol Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd yn 2017 i adlewyrchu datblygiadau newydd ac adborth gan awdurdodau lleol a budd-ddeiliaid.

Bydd yr adroddiad blynyddol a'r broses adrodd yn rhan annatod o'n camau cynllunio, craffu a gwella perfformiad. Erbyn hyn mae mwy o bwyslais ar hunanasesu perfformiad, sy'n cynnwys yr hyn y gwnaethom ei gyflawni ac a wnaethom yn dda a pha welliannau sy'n angenrheidiol, gyda hynny'n seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, y cyhoedd a phartneriaid. Byddwn yn dweud wrthych am y camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio ac sydd eisoes wedi'u cyflawni i sicrhau gwelliannau, a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau gwella a ddynodwyd y flwyddyn cynt.

Sylfeini'r Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd yw'r wyth safon ansawdd sy'n cynrychioli lles pobl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caiff y safonau hyn eu rhannu o dan bedwar pennawd sef:

- Pobl
- Atal
- Partneriaethau ac Integreiddio
- Lles

Pobl

- Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain, ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys, sy'n cael cefnogaeth ac sy'n gweithio tuag at weledigaeth a rennir.

Atal

- Mae'r angen am ofal a chefnogaeth yn cael ei leihau a sefyllfaoedd o argyfwng yn cael eu hatal, tra'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl.
- Mae cadernid yn ein cymunedau'n cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy roi anogaeth a chymorth weithredol i'r rhai hynny sydd angen gofal a chefnogaeth, yn cynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas.

Partneriaethau ac Integreiddio

- Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu deilliannau cwbl integredig, o ansawdd uchel a chynaliadwy i bobl
- Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a'u cefnogaeth fel partneriaid cyfartal.

Lles

- Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed
- Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau eu hunain, yn seiliedig ar wybodaeth dda, er mwyn iddynt cyrraedd eu llawn botensial a byw'n annibynnol cyhyd â phosibl.

Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad

Mae'n bleser mawr gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2023/2024 yn ystod cyfnod heriol a llawn pwysau arall i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Hwn yw'r adroddiad statudol sydd yn ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac ar ôl rhywfaint o ddiwygio, mae'r ffocws eleni ychydig yn wahanol. Tra bo'r deuddeng mis diwethaf wedi dod a rhagor o bwysau ariannol, cynnydd mewn galw a mwy o ddisgwyliadau ar weithlu llai, rwy'n teimlo'n falch fy mod yn gallu rhannu a dangos datblygiadau ar draws pob maes gwasanaeth. Rwy'n siŵr bod hyn ynddo'i hun yn brawf o angerdd ac ymrwymiad cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, ac mae fy nyled hefyd yn fawr i bawb am fynd y filltir ychwanegol.

Rydym yn sylweddoli y bydd y flwyddyn i ddod yr un mor heriol, os nad yn fwy heriol. Rydym yn cydnabod bod gofyn i ni, fel y gwasanaeth mwyaf gyda'r nifer uchaf o weithwyr, gyfrannu'n arwyddocaol at yr ymdrech i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y cyngor. Rydym wedi cadw llygad agos iawn ar ein meysydd o wariant mawr ac mae cynlluniau yn eu lle i sicrhau ein bod yn deall ac yn rheoli'r costau cynyddol mewn rhai meysydd.

Eleni hefyd rhoddwyd ystyriaeth i gynhwysiant, ein hymagwedd tuag at amrywiaeth a gwahaniaeth a sicrhau ein bod yn wrth-ormesol ac yn arfer egwyddorion gwrth-wahaniaethol cyson. Mae enghreifftiau da o'n hymdriniaeth yn yr adroddiad ond mae gennym lawer i'w wneud i symud ymlaen a sicrhau ein bod yn creu amgylchedd gwaith lle mae pobl yn gallu, ac eisiau gwneud eu gorau. Mae gweithio'n effeithiol yn y byd amrywiol hwn yn dechrau gyda hunan-ymwybyddiaeth, ystyried sut i ymdrin â rhagfarn, triniaeth wael a gwrthdaro, a dangos ein bod yn gwerthfawrogi eraill. Dyma fy nisgwyliad o'r gwasanaeth a'r hyn yr wyf yn ei hyrwyddo'n barhaus.

Jenny Williams

Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gosod y Llwyfan

Arweinyddiaeth

Yma rydym yn edrych ar sut y mae arweinyddiaeth wleidyddol, llywodraethiant a threfniadau craffu a herio'r awdurdod lleol yn helpu i osod blaenoriaethau a hyrwyddo lles ar draws swyddogaethau'r awdurdod lleol.

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn rhoi fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl ag anghenion gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf yw:



Mae'r Cod Ymarfer cysylltiedig yn nodi fframwaith ar gyfer mesur y cynnydd y mae awdurdodau lleol yn ei wneud yn erbyn eu dyletswyddau o dan y Ddeddf yn ei chyfanrwydd. Mae'r broses hon hefyd yn ein galluogi i wella ein gwasanaethau'n barhaus. Fel y nodir yn y Cod Ymarfer, sefydlwyd trefniadau ar gyfer casglu ac adrodd ar ddata am fesuryddion perfformiad statudol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Caiff perfformiad ei fesur yn unol â phob un o'r safonau ansawdd sy'n canolbwyntio ar bobl, atal, partneriaethau ac integreiddio a lles.

Mae gan Gonwy drefniadau llywodraethu cryf sy'n cynnwys swyddogaeth trosolwg a chraffu a arweinir gan yr Aelodau sydd ag ethos cadarnhaol ac adeiladol o gydnabod arfer da ac argymell gwelliannau lle bo angen. Wrth graffu ceisir ymgysylltu â'r gymuned ble bynnag bosib er mwyn gwella ansawdd bywyd a lles pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â'r ardal. Caiff hyn ei gyflawni drwy graffu ar bolisïau, y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a gwaith partneriaeth gyda sefydliadau allanol.

Mae'r trefniadau llywodraethu a sefydlwyd hefyd yn cynnal rheolaeth effeithiol o Ofal Cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ac wedi penodi dau Ddeilydd Portffolio i gynrychioli Plant, Teuluoedd a Diogelu, a'r Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig. Rydym yn cyflwyno amrywiol adroddiadau

i'r Pwyllgor Craffu i'w hadolygu a'u herio ac mae gennym broses fewnol gadarn ar gyfer herio perfformiad a chael trosolwg ohono. Cynhelir cyfarfodydd gyda'n harolygiaeth drwy gydol y flwyddyn ac rydym yn mynd ati i adolygu ein harferion ein hunain yn rheolaidd fel mater o drefn er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus yn ein gwasanaethau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru yn amlinellu cyfres o ganlyniadau cenedlaethol ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd eu penderfyniadau. Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir.

Yng Nghonwy rydym wedi cynnwys yr amcanion hyn yn ein Cynllun Corfforaethol 2022-2027. Mae ein cynllun yn nodi ein dyheadau i wneud gwahaniaeth i bobl Conwy dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn bodloni ein canlyniadau hirdymor ar gyfer ein dinasyddion.

Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd

Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir gydag economi lewyrchus â diwylliant yn ganolog iddi



Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus

Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.

Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Mae pobl yng Nghonwy yn iach

Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg

Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned lle mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn

Fel gwasanaeth rydym yn ystyried ac yn rhoi sylw i sut yr ydym yn cyfrannu at y blaenoriaethau hyn drwy ein proses o gynnal Adolygiadau Perfformiad bob chwe mis.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Cod Ymarfer yn nodi fframwaith ar gyfer mesur y cynnydd y mae awdurdodau lleol yn ei wneud yn erbyn eu dyletswyddau o dan y Ddeddf yn ei chyfanrwydd. Mae'r broses hon hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i wella'u gwasanaethau'n barhaus. Fel y nodir yn y Cod Ymarfer, sefydlwyd trefniadau cadarn ar gyfer casglu ac adrodd ar ddata am fesuryddion perfformiad statudol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Caiff perfformiad ei fesur yn unol â phob un o'r safonau ansawdd sy'n canolbwyntio ar bobl, partneriaethau ac integreiddio, atal. a lles.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Un o'r Canlyniadau i Ddinasyddion a amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol 2022-2027 yw:

"Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned lle mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu."

Drwy Gynllun Conwy Gynhwysol 2024-2028 rydym am i'r dyfodol newid er gwell. Nod ein cynllun newydd yw canolbwyntio ar bobl a'u profiadau bywyd, yn hytrach na'n rhwymedigaeth i gydymffurfio â deddfwriaeth. 'Conwy Gynhwysol' yw ein nod, sy'n golygu waeth beth fo'ch cefndir, rydych yn gallu byw, gweithio ac ymweld â sir lle rydych yn cael eich croesawu ac yn teimlo eich bod yn cael eich derbyn ac yn perthyn.

Beth mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei olygu?

- Mae **Cydraddoldeb yn** ymwneud â chydnabod a gwerthfawrogi gwahaniaethau a thrin pobl yn ôl eu hanghenion. Mae'n ymwneud â chreu cymdeithas decach lle gall pawb gymryd rhan a chael cyfle i gyflawni eu gwir botensial, waeth beth fo'u hunaniaeth.
- **Amrywiaeth** yw deall bod pob unigolyn yn unigryw. Mae'n golygu croesawu gwahaniaethau pobl, gan gynnwys credoau, gallu, dewisiadau, cefndiroedd, gwerthoedd a hunaniaeth.
- Mae **Cynhwysiant** yn estyniad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n golygu bod gan bob unigolyn, heb eithriad, yr hawl i gael ei gynnwys, ei barchu a'i werthfawrogi fel aelod gwerthfawr o'r gymuned.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant felly'n ymwneud â gwerthfawrogi pawb fel unigolyn, trin pawb yn deg a darparu cyfleoedd cyfartal gan barchu gwahaniaethau pobl.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft yn nodi'r prif flaenoriaethau y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt dros y pedair blynedd nesaf, ac mae'n cynnwys camau gweithredu o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru.

Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol rydym yn dangos ein hymrwymiad i, a'n cyfraniad at Gynllun Cynhwysiant Conwy yn ogystal â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Er enghraifft rydym yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol, y trydydd sector a'r GIG i sicrhau bod anghenion pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu strategaethau a deddfwriaeth newydd ar gyfer Iechyd Meddwl, cynigion i fynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr a chynigion i leihau anghydraddoldebau iechyd

ymysg cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr Byddwn hefyd yn gweithredu Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol y cyfeirir ati yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

I nodi Diwrnod Gwaith Cymdeithasol Rhyngwladol comisiynwyd yr Athro Prospera Tedam o Goleg Prifysgol Dulyn i roi sgwrs am ymarfer gwaith cymdeithasol gwrth-ormesol a pha mor bwysig ydi hi bod gweithwyr cymdeithasol yn adnabod ac yn herio ymddygiadau, gwerthoedd a strwythurau sy'n bytholi hiliaeth. Yn 2024 byddwn yn gwahodd yr Athro i gyflwyno tri gweithdy i'n gweithwyr cymdeithasol i'n cefnogi ni i archwilio'r themâu hyn yng Nghonwy.

Rydym yn sicrhau bod ein gofalwyr maeth yn cael hyfforddiant cydraddoldeb fel rhan o'r dysgu a datblygu o dan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol. Mae hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Hunaniaeth Rywiol yn gyrsiau hyfforddi gorfodol i bob gofalwr maeth ac unigolion cysylltiedig. Darperir yr hyfforddiant i sicrhau ein bod yn deall y themâu hyn o safbwynt yr unigolyn ifanc er mwyn creu amgylcheddau lle caiff amrywiaeth ei ddathlu. Bydd gofalwyr maeth wedyn mewn sefyllfa i ddeall a chefnogi unigolion LHDTC+.

Rydym wedi bod yn llwyr ymrwymedig i annog gweithwyr i gymryd rhan yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Cysylltodd y Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn uniongyrchol â phob aelod o staff i bwysleisio pwysigrwydd yr arolwg ac i fynegi ein hymrwymiad cadarn i fod yn weithle lle rydym yn dathlu gwahaniaethau ac yn croesawu cynwysoldeb. Rydym wedi defnyddio ein cyfarfodydd cyswllt gyda'r gwasanaethau a gomisiynir i hyrwyddo'r arolwg ymwybyddiaeth ymysg darparwyr gofal cymdeithasol a'u gweithwyr.

Y Gweithlu

Heriau o ran recriwtio a dal gafael ar staff.

Mae'r tabl isod yn rhoi data allweddol am ein gweithlu Gofal Cymdeithasol fel yr oedd ar 12 Chwefror 2024

Gwasanaeth	Cyfanswm Swyddi	Gweithiwr Cymdeithasol	Cyfanswm Swyddi Gwag	Swyddi Gweithwyr Cymdeithasol Gwag	Cyfanswm Gweithwyr Asiantaeth	Gweithiwr Cymdeithasol Asiantaeth
Plant, Teuluoedd a Diogelu	199	52	17	10	8	8
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	654	60	38	3	14	4
Cyfanswm Staff Gofal Cymdeithasol	853	112	55	13	22	12

Ym mis Ebrill adroddwyd fod gennym:

- 57 swydd wag ar draws y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol
- 13 swydd Gwaith Cymdeithasol wag gydag 11 o'r rhain yn y Gwasanaethau Plant.
- 15 Gweithiwr Cymdeithasol asiantaeth gyda 9 o'r rhain yn y Gwasanaethau Plant.

Drwy'r flwyddyn ar gyfartaledd roedd 12% o'r swyddi Gwaith Cymdeithasol y wag, gan olygu ei bod yn fwy o her i weithwyr cymdeithasol ddiwallu eu dyletswyddau statudol. Fel ateb tymor byr, fel y gwelir yn y data, mae'r ddibyniaeth ar Weithwyr Cymdeithasol asiantaeth i lenwi swyddi gwag yn parhau.

Yn 2019 fe wnaethom lansio rhaglen Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant sydd ar agor i staff sy'n gweithio yn y maes gofal cymdeithasol gyda Chyngor Conwy. Yn ystod eu hastudiaethau bydd staff yn aros yn eu swyddi arferol ac ar ôl cymhwyso'n cael eu cyflogi fel Gweithiwr Cymdeithasol.

Hyd yma mae'r rhaglen wedi cefnogi 19 aelod o staff gyda 12 yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd. O'r cohort presennol, bydd dau yn cymhwyso ym mis Hydref eleni, 6 ym mis Hydref 2025 a phedwar ym mis Hydref 2026.

Yn 2024 byddwn yn cynnig pedair hyfforddeiaeth. Yn ychwanegol rydym yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu rhaglen Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant i raddedigion er mwyn denu graddedigion sy'n siarad Cymraeg i ennill chymhwyster MA Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Bangor.

Mae recriwtio Therapyddion Galwedigaethol yn her barhaus ac mae ein profiad ni ein hunain wedi'i adlewyrchu ar draws awdurdodau lleol eraill y rhanbarth ac yn y bwrdd iechyd . Mae cydweithwyr Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn gweithio drwy'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol i ddatblygu Cynllun Gweithlu Therapi Galwedigaethol rhanbarthol i ddiwallu anghenion Therapi Galwedigaethol ein gweithlu rŵan ac yn y dyfodol.

Yng Nghonwy rydym yn datblygu llwybr gyrfa Therapi Galwedigaethol i gefnogi therapyddion galwedigaethol sydd newydd gymhwyso i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad gan ddilyn y fframwaith dysgu a datblygu Therapyddion Galwedigaethol Mewn Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Hyfforddiant diogelu a safonau dysgu a datblygu Cymru

Mae swyddogion diogelu a'r gweithlu Gofal Cymdeithasol wedi cefnogi Rheolwyr Diogelu Dynodedig corfforaethol i alinio'r holl rolau ar draws yr awdurdod yn briodol â'r grwpiau perthnasol fel y maent wedi'u dynodi yn y safonau. Mae'r gwaith hwn wedi ein galluogi ni i fynd ati fel awdurdod i ystyried ac adolygu rolau a chyfrifoldebau diogelu pob swydd yn yr awdurdod. Roedd hwn yn ymarfer gwerthfawr sydd wedi dangos yr angen i gynyddu lefelau o hyfforddiant diogelu ar draws y gweithlu cyfan.

Lansiwyd y fframwaith cenedlaethol i gefnogi'r safonau ym mis Hydref 2023. Ein tasg nesaf fydd datblygu rhaglen dysgu a datblygu wedi'i halinio â'r safonau diogelu ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau wedi'u comisiynu'r awdurdod.

Mwy Na Geiriau

Rydym wedi comisiynu Iaith Cymru i ymgymryd ag adolygiad o weithrediad Mwy na Geiriau a'r Cynnig Gweithredol yng ngwasanaethau Gofal Cymdeithasol a gwasanaethau wedi'u comisiynu Conwy. Y nod fydd datblygu cynllun gweithredu i wella ein gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Cynhaliodd Iaith Cymru ddau weithdy i gasglu gwybodaeth i weld sut mae Mwy na Geiriau a'r Cynnig Gweithredol yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd, beth sy'n gweithio'n dda, beth ydi'r

heriau a sut i'w goresgyn. Roedd cymysgedd o staff o bob rhan o wasanaethau Gofal Cymdeithasol a gwasanaethau wedi'u comisiynu Conwy yn bresennol.

Casgliadau allweddol y gweithdy:

- Parodrwydd i arddel ymdriniaeth sector cyfan.
- Iaith Cymru i gynnal arolwg ar draws y gwasanaethau gofal cymdeithasol gan ddefnyddio'r holiadur 'Fi a'r Gymraeg'.
- Adolygu arferion recriwtio i dargedu a gwella'r gallu i recriwtio pobl sy'n siarad Cymraeg neu a fydd yn gallu dysgu Cymraeg ar ôl cael eu penodi.
- Drwy hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith bydd gweithwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut y mae anghenion iaith pobl yn newid ac yn amrywio dan wahanol amgylchiadau
- Cynnig ffyrdd mwy hyblyg o ddysgu Cymraeg.
- Rhoi hyfforddiant *'Pam bod y Gymraeg yn bwysig'* i Reolwyr a rhannu enghreifftiau o arfer da gan reolwyr mewn timau neu sefydliadau eraill.

Bydd prosiect ffurfiol yn cael ei sefydlu, a fydd yn cynnwys y gwasanaethau a gomisiynir, i gyflawni'r camau gweithredu sy'n deillio o'r gweithdai a'r holiadur.

Gwasanaethau Cefnogi Cyflogaeth

Ym mis Mehefin 2022 fe wnaethom greu'r Gwasanaeth Cefnogi Cyflogaeth i gefnogi unigolion i mewn i waith ar draws y sector Gofal Cymdeithasol. Cyn hynny nid oedd adnoddau staffio wedi'u clustnodi'n benodol i'r pwrpas hwn, gan olygu:

- mai cyfyngedig oedd gwybodaeth Asiantaethau Cefnogi Cyflogaeth am y cyfleoedd gwaith sydd ar gael o fewn Gofal Cymdeithasol.
- Dim adnodd enwebedig i asiantaethau gyfeirio unigolion atynt am gefnogaeth drwy'r broses gyflogi.
- Diffyg hyrwyddo Gofal Cymdeithasol fel gyrfa ddewisol, yn enwedig drwy Gyrfa Cymru, sydd â rhaglen dreigl ar draws ysgolion Conwy.
- Canfyddiad bod Gofal Cymdeithasol yn rhywbeth ar gyfer llefydd fel cartrefi pobl hŷn yn unig ac mai dim ond cyfle cyfyngedig mae'n ei gynnig i ddatblygu gyrfa.

Mae i'r swydd Mentor Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol ddwy brif swyddogaeth, sef hyrwyddo Gofal Cymdeithasol fel gyrfa ddewisol a chefnogi pobl i mewn i waith ym maes Gofal Cymdeithasol. Rhwng mis Mehefin 2022 a mis Rhagfyr 2023 cefnogodd ein mentor, Emma Thomas, 33 o bobl i gael swyddi Gofal Cymdeithasol ac mae hi wedi cael adborth cadarnhaol.

> Dwi isio diolch yn fawr iawn i chi am fy helpu i ddod o hyd i waith. Faswn i wirioneddol ddim wedi gallu gwneud hyn heb eich help chi. Faswn i ddim hyd yn oed wedi gwneud cais. Fe wnaeth eich help chi i baratoi am y cyfweliad roi hyder i mi a syniad o beth i'w ddisgwyl.

Diolch yn fawr. ‘Dw i wir yn gwerthfawrogi pa mor gyson a chadarnhaol ‘da chi wedi bod drwy hyn i gyd. Mae o *yn* gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl sydd ar y siwrnai hon. O lenwi’r ffurflen gais, y ffug gyfweliad i’r gefnogaeth barhaus, alla’i ddim diolch ddigon i Emma. Mae hi bob amser ar ben arall y ffôn i roi cefnogaeth ac arweiniad. Mae’r gwasanaeth wedi bod ym amhrisiadwy.

Mae wedi dod yn amlwg bod y broses ymgeisio’n codi ofn ar lawer o bobl a’u bod nhw’n ei chael yn anodd deall beth sydd ei angen o’r ffurflen gais am y swydd. Mae eraill yn ei chael yn anodd deall sut i ddefnyddio eu sgiliau, eu gwybodaeth a’u profiad i gefnogi eu ceisiadau. Yn aml iawn does gan bobl ddim digon o hyder i wneud cais am swyddi, ac yn gyffredinol hefyd mae dealltwriaeth pobl o’r amrediad o swyddi a gwasanaethau sydd ar gael o fewn Gofal Cymdeithasol yn gyfyngedig.

Ein cynllun gweithredu

- Byddwn yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth i gynyddu dealltwriaeth o:
    - yr amrywiaeth o rolau sydd ar gael yng Ngofal Cymdeithasol
    - y broses ymgeisio
    - sut y gellir defnyddio gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy i gefnogi cais
- Byddwn yn sefydlu cysylltiadau agosach â cholegau Addysg Bellach i gefnogi myfyrwyr i mewn i waith ym maes Gofal Cymdeithasol

Cyflwyno dysgu digidol i’r gweithlu gofal

Eleni canfuom fod manteisio ar hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi dod yn fwy o broblem i ddarparwyr gofal mewnol ac allanol fel ei gilydd, gyda rheolwyr yn ei chael yn anodd rhyddhau gweithwyr oherwydd prinder staff ac oherwydd bod costau teithio i’r canolfannau hyfforddi yn uchel. Daeth y dysgu ar-lein oedd ar gael yn rhy heriol oherwydd diffyg technoleg a diffyg hyder a chymhelliant ar ran staff i gwblhau’r hyfforddiant yn y ffordd yma.

O ganlyniad i hyn daeth ein cynllun llechen ddigidol i fodolaeth gyda chyrsiau ar gael ar ffurf modiwlau ar-lein drwy Care Tutor BVS yn rhoi sylw i bynciau y mae ar y gweithlu Gofal Cymdeithasol angen gwybod amdanynt. Cawsom drafodaethau gyda rheolwyr tîm i weld beth yw’r anghenion hyfforddi, y dewis o fodiwlau, a dyddiadau a lleoliadau ar gyfer eu darparu. Ym mhob sesiwn mae 12 llechen ar gael i staff eu defnyddio i ddilyn y modiwlau. Mae staff Dysgu a Datblygu’r Gweithlu ar gael i helpu gydag unrhyw broblemau e.e. mewngofnodi, pryderon am defnyddio technoleg, ofn methu, gorbryder, disgwyliadau isel pobl ohonyn nhw eu hunain, problemau agor a chau’r modiwlau ac i helpu pobl i ddod yn fwy hyddysg yn y defnydd o’r llechen yn gyffredinol.

Gwelwyd manteision niferus i’r ymdriniaeth hon gydag unigolion yn:

- Magu hyder wrth ddefnyddio technoleg.
- Ennill hyder oherwydd eu llwyddiannau unigol.
- Ennill tystysgrif ar ddiwedd y modiwl

- Goresgyn yr ofn y byddant yn methu fel unigolyn
- Ennill ymdeimlad o fuddsoddiad personol a gwerthfawrogiad o gyfle
- Gallu cwblhau'r dysgu sy'n addas ar gyfer eu hanghenion
- Ennill digon o hyder i gwblhau modiwlau ychwanegol yn ôl eu pwysau eu hunain gyda llai o gefnogaeth



O ganlyniad i hyn bu modd i reolwyr ac arweinwyr timau:

- Sicrhau dysgu mewn pynciau allweddol fel rhan o ymdrech ar y cyd
- Cadw llygad ar gyraeddiadau staff
- Cael gwybod am unrhyw heriau unigol y llwyddwyd i'w goresgyn
- Manteisio ar gwblhad sawl pwnc i safon ansoddol, yn cynnwys ardystiad.
- Rhoi'r hyfforddiant ar y safle lle mae gofal yn cael ei ddarparu (darpariaeth fewnol ac allanol)

Yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu

Rydym wedi gweld bod rhai aelodau o staff yn dioddef lefelau uchel o orbryder ar y dechrau ac mae hyn yn cymryd amser i'w oroesi. Ochr yn ochr â rhwystrau eraill a allai eu hatal rhag cwblhau modiwlau, rydym wedi gorfod ymateb yn briodol ac mewn modd amserol. Rydym wedi gosod uchafswm o ran nifer y modiwlau i'w cwblhau mewn un sesiwn ddysgu e.e. tri neu bedwar modiwl fesul unigolyn, sydd yn gyfwerth a phum awr o amser sgrîn, yn cynnwys amser egwyl.

Rydym hefyd wedi gorfod gweithio i rymuso rheolwyr i gynnig cyfleoedd dysgu ar-lein gyda chefnogaeth yn ystod oriau gwaith gyda'r teclynnau llechen sydd ganddynt yn eu meddiant ar hyn o bryd.

Ein cynllun gweithredu

Mae'r gwaith wedi amlygu'r angen i gynyddu sgiliau digidol y gweithlu ac, yn bwysig iawn, cynyddu hyder pobl i ddefnyddio platfformau digidol. Bydd hyn yn cael sylw yng nghynllun dysgu 2024-25.

Profiad y Bws Dementia

Mae'r Bws Dementia yn efelychydd symudol sy'n trochi'r dysgwr ym myd rhywun sy'n byw â dementia. Bydd synhwyrau'r cyfranogwr wedi'u hamharu arnynt yn yr un ffordd ag y maent i rywun gyda'r afiechyd.

Rydym wedi darparu 24 o sesiynau dysgu gyda'r bws ac mae dysgwyr wedi dweud bod yr hyfforddiant wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o effaith dementia ar unigolion. Dywedodd un o'r cyfranogwyr:

> Fe wnaeth y profiad i mi sylweddoli bod dementia yn ymwneud â mwy na dim ond y cof - dwi'n gweld rŵan sut y mae'n effeithio ar synhwyrau pobl a'r ffordd maen nhw'n gweld y byd.

Rydym eisiau cynyddu mynediad at yr hyfforddiant ar gyfer gofalwyr a theuluoedd felly rydym ar hyn o bryd yn edrych ar sut y gallwn weithio gydag asiantaethau eraill i gynnal digwyddiadau Bws Dementia penodol ar eu cyfer nhw.

Adnoddau Ariannol

Ar 2 Mawrth 2023/24 cymeradwyodd y Cyngor gyllideb refeniw o £82.75 miliwn ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn 2023/24. Yn ystod y flwyddyn cynyddodd y gyllideb i £84.4m yn bennaf i gydnabod costau ychwanegol yn deillio o'r dyfarniadau cyflog a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer staff.

Y gwir wariant yn 2023/24 oedd £87.34m, sef £2.94m dros y gyllideb a hynny oherwydd pwysau costau. Yn benodol:

- Aeth costau cysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal £3 miliwn dros y gyllideb oherwydd cynnydd yn nifer y lleoliadau, nifer y lleoliadau safon uchel a chost cyfartalog y lleoliadau.
- Fe wnaeth y Cyngor addasu ei ffioedd ar gyfer darparwyr gofal preswyl a nyrsio ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn mewn cydnabyddiaeth o'r pwysau ar y sector, ac arweiniodd hynny at gostau ychwanegol o tu £1 miliwn.
- Bu addasiad cyfrifyddu unwaith yn unig o £1.2 miliwn cysylltiedig â chost gofal preswyl a nyrsio nad oedd wedi'i gyllidebu.
- Fe wnaeth arbedion mewn meysydd eraill wrthbwyso'r pwysau hwn

Wrth i'r pwysau ar y gyllideb ddod yn amlwg yn ystod y flwyddyn cymerodd y Gwasanaeth ymagwedd gyfannol wrth fynd i'r afael â hyn. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth gyfarwyddyd clir i ddeiliaid cyllideb na ddylid gwario ar unrhyw beth nad oedd yn hanfodol a gwnaed pob ymdrech i sicrhau y derbyniwyd incwm mewn modd amserol, bod taliadau a ailgodir wedi'u cytuno'n llawn gydag asiantaethau partner, yn enwedig iechyd, a bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o grantiau yn unol â gwariant cymwys.

Fe wnaeth yr ymagwedd gyfannol a gymerwyd o fewn y gwasanaeth i leihau gwariant ac uchafu incwm lle bynnag bosib helpu i leddfu'r pwysau cyllidebol nad oedd modd ei osgoi a brofodd y gwasanaeth. Pan ddaeth y pwysau ar y gyllideb yn hysbys fe'i adroddwyd drwy'r adroddiadau ariannol chwarterol corfforaethol er mwyn i'r Awdurdod cyfan allu rhoi sylw i, a chynllunio ar gyfer y risg.

2024-25

Yn ystod 2023-24 rydym wedi dadansoddi ein sefyllfa ariannol ac wedi bod yn llwyddiannus gyda'r achosion busnes canlynol i fynd i'r afael â'r pwysau ar gyllideb 2024-25.

Gwasanaeth	Swm £m
Plant sy'n Derbyn Gofal	2.00
Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)	0.18
Ffioedd Gofal Preswyl	4.88
Ffioedd Gofal yn y Cartref/Byw â Chymorth	2.24
Cyfanswm	**9.30**

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i sicrhau arbedion o wahanol wasanaethau gwerth cyfanswm o £3.1 miliwn ac wedi cyfrannu £0.38 miliwn yn ychwanegol ar gyfer pwysau corfforaethol.

Cymhariaeth rhwng y sefyllfa derfynol yn 2022/23 a 2023/24

Gwasanaethau	Sefyllfa derfynol 2022/23 £'000	Sefyllfa derfynol 2023/24 £'000	Amrywiant 2023/24 £'000
Gwasanaethau Oedolion			
Cymorth Busnes	4,469	4,383	-86
Y Gymuned a Lles	682	679	-3
Anabledd	24,988	25,577	588
Pobl Hŷn	23,630	29,133	5,503
Safonau Ansawdd a Chomisiynu	1,087	993	-94
Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion	**54,857**	**60,765**	**5,908**
Gwasanaethau Plant			
Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth	2,587	2,728	141
Plant sy'n Derbyn Gofal	14,742	16,134	1,392
Diogelu	237	261	24
Pobl Ddiamddiffyn	6,481	7,273	792
Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid	186	181	-5
Cyfanswm Gwasanaethau Plant	**24,232**	**26,577**	**2,344**

Cyfanswm	**79,089**	**87,342**	**8,253**

Noder fod yr amrywiant yn gymhariaeth o'r gwir wariant yn 2022/23 a 2023/24 yn hytrach na chymhariaeth o wariant yn erbyn y gyllideb yn ystod y ddwy flynedd. Diweddarwyd y gyllideb ar gyfer 2023/24 i adlewyrchu'r pwysau costau hysbys o ganlyniad i chwyddiant tâl a chwyddiant cyffredinol yn ogystal â'r galw ar wasanaethau. Mae'r amrywiadau'n adlewyrchu'r pwysau hwnnw.

Asesu Perfformiad

Mae'r adran hon yn adrodd yn erbyn y pedwar prif faes yn y Fframwaith Gwella Perfformiad: Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio a Lles. Bydd pob adran yn cynnwys sylwebaeth sydd â'r nod o ateb pedwar cwestiwn hunanasesu.

Mae'r hunanasesiad yn asesiad drwy werthuso, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth fel data perfformiad, ymchwil ac arolygon.

Pobl

Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal gyda llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys, sy'n cael cefnogaeth ac sy'n gweithio tuag at weledigaeth a rennir.

Cynyddu ein cynnig i bobl awtistig a niwrowahanol

Yn ein hadroddiad y llynedd fe ddywedom wrthych ein bod yn recriwtio Swyddog Arweiniol Awtistiaeth ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych. Mae Jeni Andrews bellach yn y swydd ac mae hi wedi bod yn canolbwyntio ar:

- Datblygu a chydlynu cynlluniau gweithredu Cod Ymarfer Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth (ASC) sydd wedi'u gwerthuso'n annibynnol; gwelwyd fod Conwy'n gwneud cynnydd da.
- Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am awtistiaeth drwy greu gwe-dudalen bwrpasol mewn cydweithrediad â phobl awtistig yn unol â'r dyletswyddau o dan y Cod Ymarfer. Yn ychwanegol, mae cyfeiriadur lleol o weithgareddau a phrosiectau cysylltiedig ag awtistiaeth.
- Ail-sefydlu cyfarfodydd rheolaidd o'r grŵp budd-ddeiliaid ASC amlasiantaeth sy'n cael ei gadeirio gan riant ofalwr.
- Datblygu gwasanaethau i gefnogi pobl niwrowahanol drwy gais lwyddiannus am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil penodol i niwrowahaniaeth ac ar gyfer swyddi a hyfforddiant.
- Datblygu prosiectau a gweithgareddau yn ymwneud yn benodol ag awtistiaeth yn yr ardal leol, yn cynnwys ailsefydlu proses ar gyfer cyllido.

Fe ddywedom wrthych hefyd bod y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi lansio dau fodiwl hyfforddi: Deall Awtistiaeth a Deall Cyfathrebu Effeithiol ac Awtistiaeth. Mae'r modiwlau ar gael ar blatfform e-ddysgu'r Awdurdod Lleol ac er nad ydynt yn orfodol maent wedi cael eu hyrwyddo drwy amrywiol sianelau i annog staff mewnol a darparwyr allanol i fewngofnodi a chynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Hyd yma mae 94 aelod o staff Conwy wedi dilyn y modiwlau a byddwn yn parhau i'w hyrwyddo a'u hymwreiddio yn ein timau.

Mae grŵp tasg a gorffen datblygu'r gweithlu sy'n ymwneud yn benodol ag awtistiaeth wedi'i ddatblygu ar draws Conwy a Sir Ddinbych i helpu i wneud cynnydd gyda'r dyletswyddau o dan y Cod Ymarfer awtistiaeth. Mae wedi dynodi'r amrywiaeth o hyfforddiant awtistiaeth sydd wedi'u cynnig hyd yma a nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi; bydd y grŵp yn canolbwyntio ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddiant awtistiaeth.

Rydym wedi comisiynu hyfforddiant prosesu synhwyraidd, yn cynnwys y Profiad Realiti Awtistiaeth, a hyfforddiant integreiddio synhwyraidd sydd wedi'i anelu at Therapyddion Galwedigaethol. Mae dros 150 o bobl wedi manteisio ar y Profiad Realiti Awtistiaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn, yn cynnwys staff timau CBSC a MIND Conwy, a rhieni sydd â chysylltiadau â'r pum Canolfan Teuluoedd. Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru'n cael ei ddefnyddio i gaffael amrywiaeth o hyfforddiant Niwrowahaniaeth uwch i staff a theuluoedd; mae hyn yn cael ei gydlynu mewn partneriaeth â sefydliadau trydydd sector lleol.

Sut y gallwn wella.

Byddwn yn parhau i yrru gwelliannau a datblygiadau yn eu blaen i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth a niwrowahaniaeth yng Nghonwy. Byddwn yn ystyried gwneud y modiwlau hyfforddiant yn orfodol, fel y maent mewn Awdurdodau Lleol eraill, ac yn mynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau a gwybodaeth o ganlyniad i gymhlethdodau cynyddol cysylltiedig ag unigolion niwrowahanol.

Gwyddom fod oedi mewn asesiadau diagnostig yn achosi rhwystredigaeth i bobl awtistig a'u teuluoedd, yn aml nid ydynt yn sicr o le na sut i gael cymorth cyn-diagnosis. Rydym yn gobeithio y bydd ein cyfres o weithgareddau wedi'u cynllunio'n dechrau chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl awtistig a niwrowahanol rhag cael y gefnogaeth briodol, yn cynnwys:

- Hyrwyddo e-ddysgu ymhellach i staff mewnol ac allanol.
- Dadansoddiad o anghenion hyfforddiant awtistiaeth i hysbysu blaenoriaethau
- Sesiynau ymwybyddiaeth o awtistiaeth mewn digwyddiadau cyflogaeth i ddod, ynghyd â digwyddiad cyflogaeth niwrowahanol penodol posibl.
- Gwell gwybodaeth, cyngor a chymorth gyda diagnosis a chysylltiadau gwell â gwasanaethau diagnostig.
- Prosiectau penodol i awtistiaeth sy'n cefnogi pobl cyn diagnosis.

Ailstrwythuro ein Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Y llynedd fe ddywedom wrthych y byddem yn adolygu'r strwythur staffio yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy er mwyn darparu gwell gwasanaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau statudol ac egwyddorion arfer gorau. Rydym wedi dechrau adolygu ac ailstrwythuro rolau a chyfrifoldebau staffio a fydd yn arwain at adnoddau digonol i sicrhau trosolwg, cyngor, cymorth ac arweiniad proffesiynol.

Sut y gallwn wella.

Mae trefniadau staffio dros dro wedi bod yn eu lle ers bron i ddwy flynedd ac nid ydynt yn gynaliadwy bellach. Yn dilyn adborth o broses arolygu ar y cyd ddiweddar rhwng Gwasanaeth Cyfiawnder yr Ifanc ac Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, gan ystyried hefyd les cydweithwyr a recriwtio a dal gafael ar staff, roedd angen brys am strwythur rheoli parhaol i gynyddu capasiti. Yn ogystal â chefnogi gwell gwasanaeth, bydd y strwythur newydd yn cynyddu ein gallu i

gyflawni blaenoriaethau sefydliadol a phartneriaeth allweddol, yn erbyn y gwelliannau sydd wedi'u hamlygu yn yr arolwg.

Mae arnom angen strwythur rheoli cadarn sy'n edrych tua'r dyfodol i'n cefnogi drwy greu rolau ymarferwyr arbenigol arweiniol i ddarparu ein cynllun gweithredu ac i gyflawni'r gwaith sy'n angenrheidiol i wella dull o weithredu drwy bartneriaeth yn ein gwasanaeth.

Un o amcanion ein tîm rheoli ar gyfer y dyfodol yw gallu darparu cymorth rheoli a throsolwg rhagorol i staff y gwasanaeth a'r bartneriaeth ehangach, yn ogystal a darparu data cyfredol a dadansoddiad o berfformiad ac angen. Byddwn yn ceisio creu systemau sy'n cynhyrchu data ar yr adeg iawn i'r bobl iawn ac yn edrych ar sut y gall yr agenda digidol ddylanwadu ar rannu gwybodaeth, gan helpu i gefnogi'r gwasanaeth, y bwrdd rheoli a'r bartneriaeth ehangach.

Ein cynllun gweithredu

Drwy sefydlu strwythur rheoli newydd, gwell a chyflwyno rôl Rheoli Gwybodaeth i'r gwasanaeth, byddwn yn creu mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gan gefnogi'r bwrdd rheoli a staff i ddatblygu prosesau mwy effeithiol a syml. Fel rhan o'n rhaglen ailstrwythuro dau gam byddwn yn:

1. Cefnogi trosolwg rheolwyr drwy alluogi datblygiad rolau Rheolwr Gweithredol pwrpasol, i arwain ar atal, ymyrraeth statudol drwy orchymyn llys, a gwaith partneriaeth ehangach. yn ogystal â manteision y rôl Rheoli Gwybodaeth, i gefnogi ein blaenoriaethau sefydliadol.
2. Byddwn yn alinio ymarfer â chread rolau ymarfer arbenigol, i arwain ar themâu fel rhianta, ymddygiad rhywiol niweidiol a chamfanteisio rhywiol a throseddol, gyda chysylltiad agos â meysydd ymarfer perthnasol i ymyrraeth gynnar, atal, ymyrraeth y tu allan i'r llys a statudol.

Mae cam un yr ailstrwythuro wedi dechrau. Cytunodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid â'r cynigion i ailstrwythuro'r trefniadau rheoli yn ei gyfarfod ar Ebrill 2024, ac mae hyn yn mynd drwy ein prosesau adnoddau dynol. Unwaith y bydd cam un wedi'i gwblhau a'r rheolwyr yn eu lle, bydd cam dau yn cynnwys alinio ac adolygu'r rolau staff presennol i hwyluso cread y rolau arweiniol i fynd i'r afael ag amrywiaeth o themâu.

Cofnodi 'Llais y Plentyn'

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych yn casglu adborth gan blant mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, gan gynnwys:

- holiaduron hunanasesu sy'n cael eu cwblhau gan y plentyn ac ar wahân gan eu rhiant, gofalwr neu warcheidwad ar ddechrau, wrth adolygu ac ar ddiwedd gorchmynion, sy'n cael eu defnyddio i gasglu data i helpu i hysbysu asesiad ac i ddatblygu cynllun ymyrryd sy'n cael ei greu gyda'r plentyn.
- arolygon Mind of My Own i gasglu adborth cyffredinol gan y plentyn ar ansawdd y gwasanaethau maen nhw'n eu cael gennym ni, yn cynnwys amseroldeb, lleoliad y ddarpariaeth ac a wnaeth y gwasanaethau wahaniaethi ddyn nhw.
- cynnwys plant mewn cynhyrchu gwybodaeth a thaflenni dwyieithog ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth gan ddefnyddio iaith sy'n addas ar gyfer plant.

- gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llwyr â deddfwriaeth ac egwyddorion arfer gorau; byddwn yn dynodi hyrwyddwr hawliau plant o fewn y gwasanaeth i fentora staff ac arwain ar ddatblygu a gwella cyfranogiad.
- cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o recriwtio a dethol staff a gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Sut y gallwn wella

Rydym yn cydnabod bod arnom angen gwella cysondeb adborth gan blant a'r defnydd ohono i wella darpariaeth gwasanaeth ac i roi gwybodaeth reolaidd i staff a'r Bwrdd Rheoli Strategol. Er mwyn symud pethau yn eu blaen, rydym yn awyddus i ddatblygu a sefydlu prosesau adborth gwell am mwy ymatebol er mwyn hwyluso a deall, o safbwynt pobl ifanc, beth y gellid ei wneud i wella eu profiad. Rydym yn awyddus i adolygu'r prosesau canmol a chwyno ar gyfer plant a phobl ifanc i sicrhau bod un o Reolwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ymateb i'r holl faterion a godir, er mwyn hwyluso a datblygu dysgu a hyrwyddo datblygiad parhaus. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cydgasglu adborth ac yn adrodd i Fwrdd Rheoli Lleol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn flynyddol.

Ein cynllun gweithredu

Yr ydym wedi sefydlu gweithgor bach i wella strwythurau a phrosesau rhoi adborth am y gwasanaeth, ac yn gwneud cynnydd cyson. Cytunwyd ar Strategaeth Gyfranogi ac Ymgysylltu newydd a'i chyflwyno i'r Bwrdd Rheoli, ac rydym ar hyn o bryd yn ymwreiddio egwyddorion y Strategaeth ym mhob agwedd o ymgysylltiad y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gyda phlant a phobl ifanc. Mae ein nod o ddynodi Cefnogwr Hawliau Plant wedi'i oedi o ganlyniad i drefniadau rheoli dros dro a'r diffyg capasiti staffio o fewn y gwasanaeth yn sgil hynny.

Er gwaethaf hyn rydym wedi ceisio ymgysylltu â phlant a phobl ifanc eleni wrth ddatblygu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid. Yn dilyn trafodaeth gyda'r rhai hynny sy'n agored i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, cytunwyd ar restr o feysydd i ganolbwyntio arnynt, a chynhaliwyd arolwg ymysg plant a phobl ifanc er mwyn cael eu safbwyntiau am y prif flaenoriaethau. Defnyddiwyd eu safbwyntiau i siapio'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid a blaenoriaethau ar gyfer y tîm am y flwyddyn i ddod.

Mae gennym hefyd enghreifftiau pellach o adborth yn cael ei ddarparu i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gyda hynny wedi arwain at newid neu ddatblygiad. Drwy amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu dywedodd pobl ifanc eu bod eisiau cymorth ychwanegol gyda gweithgareddau cadarnhaol oherwydd yn aml iawn nid ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn mynd i ddarpariaeth mynediad agored. Mewn ymateb sefydlodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid raglen o weithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol a thros yr haf i ymgysylltu â, a chefnogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, roedd hyn hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth yn ystod yr wythnos. Nodwyd angen clir am y gefnogaeth hon, ac rydym ar hyn o bryd wrthi'n trafod gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid yr angen am Weithiwr Ieuenctid penodol yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i arwain a chefnogi pobl ifanc i gael mynediad at weithgareddau cadarnhaol.



Defnyddio'r ap Mind of My Own

Mae Mind of My Own yn system ar y we/ap sy'n cynnig ffordd ychwanegol i blant a phobl ifanc ymgysylltu â'r gweithwyr yn eu bywydau a rhannu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Yn strategol rydym wedi bod yn defnyddio Mind of My Own (MOMO) i wella'r broses adolygu ar gyfer plant sy'n byw gyda gofalwr maeth, er ei fod hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd cadarnhaol eraill ar draws y gwasanaethau plant.

Yr hyn sy'n hanfodol bwysig wrth sicrhau ymgysylltiad effeithiol gyda'r amrediad ehangaf bosib o bobl ifanc yw hyblygrwydd, a gwneud hynny yn y ffordd sydd orau ganddyn nhw. Rydym hefyd eisiau cynnig y dulliau diweddaraf o gyfathrebu, ac mae MOMO yn un ohonyn nhw.

Roedd adborth gan bobl ifanc a fynychodd grŵp ymgynghori yn 2023 yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf eisiau adolygiadau wyneb yn wyneb felly mae platfform fel MOMO yn ffordd ddelfrydol iddyn nhw rannu eu safbwyntiau.

Defnyddir yr ap yn fwyaf aml ar gyfer paratoi ar gyfer cyfarfod/adolygiad, yna adolygiadau gan ofalwyr maeth, datrys problemau cyffredinol (lle gall unigolyn ifanc rannu unrhyw beth sy'n peri pryder gyda'u gweithiwr a gofyn am help), yn ogystal â datganiadau 'dyma fi' a 'fy lles' sy'n rhoi ciplun a mewnwelediad defnyddiol i fywyd yr unigolyn ifanc. Mae'r rhain yn ddefnyddiol ar gyfer hysbysu prosesau asesu ac adolygu parhaus.

Mae'r ap wedi bod yn ennill ei blwyf yn ara' deg gyda 95 o bobl ifanc a 163 o'n gweithwyr wedi creu cyfrif iddyn nhw eu hunain.

Mae cyfleoedd i gefnogi plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr wedi digwydd yn y sesiynau Lleisiau Uchel rheolaidd, sydd wedi cynnwys gwahoddiad estynedig i deuluoedd plant ag

anableddau. Caiff gofalwyr maeth hefyd eu cefnogi i ddod yn fwy cyfarwydd â'r ap drwy foreau coffi gofalwyr maeth rheolaidd.

Mae tudalen Mind of My Own ar y fewnrwyd ac erthygl ar y wefan 'Camau Bach, Dyfodol Disglair' sy'n hyrwyddo'r ap. Cynhelir cyfarfodydd gweithredol misol gyda chynrychiolwyr o dimau allweddol (yn cynnwys cynrychiolydd gofalwyr maeth) i rannu datblygiadau, adborth i/gan dimau, a mentrau i hyrwyddo'r ap ar draws y gwasanaeth. Cynhyrchir ffeithlun misol a'i rannu drwy gyfarfodydd tîm i amlygu defnydd a'r gweithwyr hynny sydd wedi gwneud y defnydd mwyaf ohono. Mae Mind of My Owen yn eitem sefydlog ar raglen cyfarfodydd pob tîm.

Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r llynedd

- Mae sesiynau hyfforddi wedi'u cynnal ar gyfer staff.
- Bydd y Tîm Maethu'n datblygu eu blychau croeso ar gyfer plant sy'n dod i ofal pan fydd y Swyddog Recriwtio newydd wedi'i benodi.
- Mae cysylltiadau wedi'u gwneud gyda'r grŵp gofalwyr maeth.
- Mae'r canolfannau teuluoedd wedi datblygu strategaeth ymgynghori sydd yn awr yn cynnwys Mind of My Own fel teclyn i helpu i gael mewnwelediad i bersbectifau'r plant.

Sut y gallwn wella.

Er gwaethaf y defnydd cadarnhaol o Mind of My Owen, mae teimlad y gallai mwy o staff wneud defnydd ohono gyda'r plant a'r bobl ifanc maen nhw'n gweithio â nhw. Mae'n rhaid cydnabod fodd bynnag mai dim ond un teclyn yn y pecyn cymorth ehangach yw Mind of My Own a bod ymarferwyr yn ymgysylltu â phobl ifanc ar eu telerau eu hunain ac yn unol â'u hoffterau nhw.

Ein cynllun gweithredu

Bydd arolwg i geisio adborth staff am Mind of My Own yn rhoi mewnwelediad pellach i helpu i wneud y mwyaf o fanteision posibl yr ap. Mae'r Tîm Teuluoedd Integredig Lleol yn gweithio ar draws Conwy a Sir Ddinbych ac yn helpu teuluoedd i reoli ymddygiad heriol plant a phobl ifanc hyd at 18 oed yn y cartref. Byddant yn dechau manteisio o ddefnyddio Mind of My Own yn fuan.

Sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn cael llais

Mae Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar anghenion pobl ag anableddau dysgu yn yr ardal a chafodd ei ddatblygu ar y cyd â'r chwe chyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn seiliedig ar yr hyn a ddywedodd pobl sy'n bwysig iddyn nhw, cafodd gweledigaeth ei hamlinellu:

> Bydd gan bobl ag anableddau dysgu well ansawdd bywyd; byddant yn byw'n lleol lle maent yn teimlo'n "ddiogel ac yn iach", lle maent yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn eu cymunedau ac yn gallu cael gafael ar gymorth personol effeithiol sy'n hyrwyddo annibyniaeth, dewis a rheolaeth.

Mae llais a rheolaeth unigolion dros gyflawni canlyniadau sy'n eu helpu nhw i sicrhau eu lles eu hunain yn hanfodol bwysig ac yn ganolog i'w gofal. Yng Nghonwy rydym eisiau i'r holl wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu helpu i wneud i hyn ddigwydd, ac fel rhan o'r nod hon, ochr yn ochr â'n partneriaid, rydym wedi comisiynu cymorth gan North Wales Flyers

(grŵp cyfranogiad Gogledd Cymru) o Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu, Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru a Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.

Mae'r Ymgynghorydd Hunan-eiriolaeth Rhanbarthol yn hyrwyddo dealltwriaeth o hunan-eiriolaeth ar draws y rhanbarth gan annog unigolion ag anableddau dysgu i fod yn rhan o rwydwaith hunan-eiriolaeth Gogledd Cymru. Maen nhw'n cefnogi'r contract gyda'r sefydliadau a restrir uchod i ddarparu The Flyers sydd wedi'u comisiynu i sicrhau cyfranogiad ystyrlon ar gyfer pobl ag anableddau dysgu mewn materion sy'n effeithio arnyn nhw. Mae'r rôl hefyd yn darparu cymorth gwirioneddol angenrheidiol ar gyfer unigolion sydd â diddordeb mewn dechrau, cymryd rhan yn a datblygu grwpiau hunan-eiriolaeth yng Nghonwy. Mae'r contract The Flyers yn amlinellu'r hyn maen nhw am i'r contract ei wireddu a'r hyn y bydd yn galluogi'r grŵp i'w wneud.

- Rhoi mwy o lais i bobl ag anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru a sicrhau bod rhywun yn gwrando arnynt a bod rhywbeth yn cael ei wneud ynghylch yr hyn maen nhw'n ei ddweud.
- Rhoi lle i drafod materion lleol pwysig a chefnogi'r naill a'r llall.
- Gwneud yn siŵr fod pobl ag anableddau dysgu yn gwybod beth yw eu hawliau ac yn cael eu trin gyda pharch ac yn gyfartal.
- Dweud wrth y cynghorau, y Bwrdd Iechyd a sefydliadau eraill beth yr ydym ei eisiau ac ysgogi newid.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau a phobl eraill ar draws Gogledd Cymru.
- Siarad am faterion fel cludiant, rhianta, byw'n annibynnol, newidiadau i fudd-daliadau a theimlo'n ddiogel ac ymgyrchu i wella pethau drwy gysylltu â'r bobl gywir.
- Datblygu'r grŵp fel ei fod yn ariannol ddiogel ac yn cael ei redeg yn dda.

Mae'r rôl wedi helpu i fynd i'r afael â than-gynrychioliad pobl ag anableddau dysgu yn rhanbarthol drwy helpu dinasyddion, a'r bobl sy'n eu cefnogi, i ddeall pwysigrwydd hunan-eiriolaeth, eu grymuso i gael eu lleisiau wedi'u clywed, eu helpu nhw i leisio a mynegi eu pryderon, a darparu llwybr clir drwodd at y rhai hynny a fydd yn gallu eu cefnogi i fynd i'r afael â'r pryderon hynny. Yn ôl y Cadeirydd:

- Mae mwy o bobl yn dod i'r grŵp erbyn hyn ac mae'r rhai sy'n mynychu yn teimlo'n fwy parod i siarad.
- Mae manteision i gynnal y grŵp ar Zoom a wyneb yn wyneb.
- Caiff The Flyers eu cefnogi ymhellach drwy gynrychioliad yn yr ardaloedd sirol.
- Mae bod ag un cydlynydd cyffredinol yn helpu i gynnal cysondeb a pharhad.
- Yn ystod cyfarfodydd does dim rhaid i bobl siarad, nhw biau'r dewis.
- Mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu'n dda ac mae cynrychiolwyr wedi gallu siarad yn uniongyrchol gyda rheolwyr yr Awdurdod Lleol am y pynciau sy'n bwysig iddyn nhw.
- Mae'r grŵp The Flyers bellach yn fwy strwythuredig o ran ei bwrpas ac mae hynny'n rhaeadru i lawr i'r grwpiau hunan-eiriolaeth yn y yr ardaloedd lleol.
- Mae The Flyers wedi gallu rhoi mewnbwn i sut y caiff cyllid Gogledd Cymru Gyda'i Gilydd ei glustnodi.

Sut y gallwn wella.

Wynebwyd heriau yn ystod cyfnod y contract hwn, yn cynnwys ceisio sicrhau bod holl siroedd Gogledd Cymru wedi ymrwymo i'r un graddau, paratoi aelodau'r grŵp ar gyfer y cyfarfod, trefnu cludiant i'r cyfarfodydd, rheoli'r gyllideb a marchnata'r grŵp, fel y gall timau staff a dinasyddion fel ei gilydd gael gwybod beth sydd ar gael, a beth y gallai eu helpu i'w wireddu. Byddai The Flyers wrth eu bodd yn helpu i ddatblygu gwefan ond bydd angen mwy o arian a chefnogaeth i wneud i hynny ddigwydd.

Ein cynllun gweithredu

I liniaru rhai o'r heriau hyn rydym yn gobeithio sicrhau:

- Cyllid parhaus i sicrhau parhad y prosiect a dechrau rhoi cyhoeddusrwydd ehangach iddo.
- Unigolyn cyswllt ym mhob sir i sicrhau llwybrau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth; byddai'n rhaid i'r unigolyn hwn fod yn rhywun brwdfrydig sy'n deall pwrpas hunan-eiriolaeth a rôl The Flyers.
- Cynllun datblygu i amlinellu cyfeiriad The Flyers.
- Parhad a datblygiad y swydd Ymgynghorydd Hunan-eiriolaeth Rhanbarthol fel partner cwbl gyfartal yng nghydlyniad y gwasanaethau.

Bodloni anghenion llety pobl ddiamddiffyn

Mae'r Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn wedi amlinellu ei strategaeth llety i fodloni anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.

> Ein huchelgais a'n gweledigaeth ar gyfer pawb yw bod ganddynt gartref 'am byth' sydd yn fan sefydlog a diogel lle gellir rhoi sylw i faterion eraill. Bydd hyn yn cael ei alluogi drwy ddarparu cymorth amlapio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i arwain gan anghenion gydag ymdriniaeth aml-broffesiynol/asiantaeth wedi'i gydlynu'n effeithiol sy'n darparu cynllun cydlynol o gefnogaeth wedi'i gynhyrchu ar y cyd â'r unigolyn.

Er mwyn gwireddu hyn mae'n rhaid i ni ail-bwrpasu tai'r prosiect sydd eisoes ar gael, sydd yn eiddo a rennir nad ydynt bellach yn addas ar gyfer anghenion y gwasanaeth.

Rydym felly wedi gweithio gyda Chymdeithas Tai Gogledd Cymru a'n Hadran Tai i roi un eiddo gwag yn ôl fel y gellir ei ddefnyddio'n fwy priodol ar gyfer teulu ag anghenion tai cyffredinol. Mae gwaith wedi'i wneud gyda phreswylwyr i ganolbwyntio ar eu helpu i symud ymlaen, mae un mewn gofal preswyl oherwydd eu hanghenion iechyd corfforol ac mae un yn eu fflat eu hunain gyda chymorth ar y safle.

Sut y gallwn wella.

Rhaid cynyddu cydweithredu gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSL), ac o bosibl gyda darparwyr cartrefi gofal, i ddatblygu model newydd o lety 'symud ymlaen'. Byddai angen

iddo ddarparu'r amgylcheddau diogel a fforddiadwy y bydd ar defnyddwyr gwasanaeth eu hangen i adeiladu bywydau annibynnol.

Ein cynllun gweithredu

- Cwblhau trosglwyddiad un prosiect tai arall a symud y ddau breswylydd i lety mwy priodol.
- Parhau â'r broses o adolygu Grant Cymorth Tai.
- Datblygu a rhannu ein bwriad o ran comisiynu gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a dod o hyd i atebion cydweithredol ac arloesol.

Datblygu llwybr lles meddyliol gyda'r Bwrdd Iechyd

Ffurfiwyd y Tîm Lles Meddyliol yn ystod y pandemig Covid-19 yn 2020. Ers hynny rydym wedi bod yn gweithio i sefydlu tîm cryf gyda phrosesau cadarn i fodloni anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth ac i reoli'r galw sy'n tyfu o hyd a chymhlethdod cynyddol cyflyrau iechyd meddwl. Mae'n amlwg iawn bod cynnydd mewn achosion o gelcio a hunanesgeulustod, sydd, mae'n ymddangos, wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig.

Mae'r tîm yn cefnogi 225 o bobl yn uniongyrchol ynghyd â 310 sy'n cael adolygiad statudol a/neu gefnogaeth o ganlyniad i'r cynnydd yn y niferoedd sydd wedi'u dal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae hyn yn golygu bod ganddynt hawl i ôl-ofal o dan Adran 117, sydd yn gofyn eu bod yn cael eu cadw dan adolygiad parhaus ac yn cael cefnogaeth ariannol.

I feithrin dull cryf o weithio mewn partneriaeth mae'r tîm yn cydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill fel y Gwasanaeth Pobl Hŷn, Tai ac asiantaethau allanol e.e. gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, Prawf, timau iechyd meddwl cymunedol a'r trydydd sector.

Sut y gallwn wella.

Rydym eisiau datblygu llwybrau cyfathrebu cryf rhwng Gofal Cymdeithasol a chydweithwyr yn Nhîm Iechyd Meddwl Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i sicrhau y gellir cael at y gwasanaeth cywir ar yr adeg iawn i'r unigolyn e.e. ymateb meddygol neu ofal cymdeithasol. Mae angen ymdriniaeth ar y cyd o ran adolygu achosion 117 fel mater o arfer gorau, yn ogystal â datblygu proses ar gyfer rhyddhau pobl o statws Adran 117 fel sy'n briodol.

Rydym eisiau datblygu gweledigaeth glir, o dan y teitl 'Y Nod Driphlyg' ar gyfer y Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn, sy'n cwmpasu'r Tîm Lles Meddyliol. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at sefydlu proses fesur effeithiol a synhwyrol i ddangos ein gwelliannau a'n harfer da.

Rydym eisiau datblygu mwy o gysylltiadau gyda'r gymuned a'r trydydd sector fel y gellir rhyddhau neu arallgyfeirio defnyddwyr o'r gwasanaethau statudol.

Rydym hefyd eisiau gweld gwelliant parhaus mewn prosesau gweithredol, megis y system ddyletswydd, a rheolaeth achosion Adran 117 a Gofal Iechyd Parhaus a ariennir ar y cyd.

Ein cynllun gweithredu

- Rydym yn sefydlu gweithgor gyda chydweithwyr BIPBC i sicrhau y datblygir llwybrau lleol er mwyn sicrhau parhad gofal, i gydnabod arbenigeddau proffesiynol a hwyluso trosglwyddiad esmwyth rhwng sefydliadau.
- Byddwn yn datblygu perthnasoedd gwaith agosach drwy gyfarfodydd ymgynghori wythnosol gyda'r gwasanaethau plant, eto i sicrhau trosglwyddiad didrafferth o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion.
- Rydym yn parhau i ddarparu ac esblygu sesiynau galw heibio i helpu staff Mind Conwy i fod yn rhagweithiol yn y broses atgyfeirio ac i gamu unigolion i lawr i ddarpariaeth trydydd sector.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu a chywreinio cynllun gweithredu i ddiwallu'r Nod Driphlyg, er enghraifft drwy gynnal yr arolwg boddhad defnyddwyr gwasanaeth eto, rhannu holiadur boddhad staff, casglu a defnyddio mwy o astudiaethau achos, a sicrhau bod data perfformiad yn dylanwadu ar berfformiad.

Yn ôl at y Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid

Ym mis Ebrill 2023 cyhoeddwyd yn genedlaethol y byddai'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn cael eu gohirio am gyfnod amhenodol (tu hwnt i oes y senedd hon). Er bod y mesurau'n dal wedi'u hysgrifennu yn Neddf Galluedd Meddyliol (diwygiad) 2019, nid oes dyddiad ar gyfer eu rhoi ar waith. Fel awdurdodau lleol eraill mae Conwy wedi bod yn gweithio tuag at weithredu'r model newydd hwn felly rydym wedi gorfod ail-ymgynnull, adolygu ac ail-addasu gwaith o dan fodel presennol y Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid.

Mae egwyddorion yr LPS a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ehangach yn parhau i fod yn berthnasol. I baratoi ar gyfer gweithrediad arfaethedig yr LPS roedd yn rhaid darparu hyfforddiant ac ymwreiddio athroniaeth ac egwyddorion y Ddeddf o fewn y tîm DoLS/LPS *ac* ar draws Gofal Cymdeithasol .Nid oedd yr amser a dreuliwyd ar yr LPS yn amser wedi'i wastraffu.

Byddai cyflwyniad yr LPS wedi dod â phawb sydd angen awdurdodiad DoL o dan un broses gyffredin i'w hawdurdodi'n fewnol. Yn hytrach, rydym wedi gorfod mynd yn ôl at y broses ddeuol flaenorol. Ar un llaw mae gennym y broses awdurdodi DoLS fewnol ar gyfer y rhai hynny sydd mewn cartrefi gofal. Ar y llaw arall mae gennym y broses o wneud cais i'r llys ar gyfer pobl sydd mewn unrhyw leoliad arall (y broses DoL gymunedol). Mae rhestrau aros ar gyfer y ddau.

Sut y gallwn wella.

Lleihau Rhestrau Aros

Bydd y tîm DoLS yn parhau i flaenoriaethu'r rhestr aros. Bob mis caiff cyfuniad o'r atgyfeiriadau mwyaf brys a'r rhai sydd wedi bod yn aros hiraf eu clustnodi. Mae'r rhestr aros yn un dreigl gan na all atgyfeiriadau barhau am fwy na 12 mis ac wedi hynny rhaid eu hail-wneud yn gyfan gwbl. Dylid nodi hefyd bod gan y tîm DoLS bob amser fwy o atgyfeiriadau'n dod i mewn bob mis nag y gall eu cau. Ym mis Rhagfyr 2022 roedd 245 ar y rhestr aros. Ym mis Rhagfyr 2023 roedd 185 ar y rhestr aros.

Er bod rhestr aros mae yna fodel gwasanaeth a phroses wedi'i diffinio'n glir ar gyfer yr achosion hyn. Nid yw'r broses ar gyfer achosion DoL cymunedol wedi'i diffinio mor glir, a'r disgwyliad oedd y byddai'r LPS yn datrys hyn ac yn dod yn fodel ar gyfer awdurdodi. Gan nad yw'r LPS yn cael ei gyflwyno rŵan, mae angen gwneud penderfyniad ynglŷn â sut orau i fynd i'r afael ag achosion DoL Cymunedol.

Mae darn o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar draws pob gwasanaeth i weld beth yw'r sefyllfa o ran niferoedd achosion DoL Cymunedol a dod o hyd i atebion ymarferol. Un o'r atebion posibl y gellid ei ystyried yw cyflwyno model tebyg i'r LPS, gyda staff rheng flaen yn cwblhau'r prif asesiadau ac Asesydd Lles Gorau Annibynnol yn darparu haen o graffu diduedd ar y gwaith cyn iddo gael ei anfon at y Llys Diogelu. Felly er nad yw LPS yn cael eu cyflwyno rydym yn dal i ddefnyddio'r wybodaeth a gawsom i sicrhau ein bod yn dilyn arfer gorau.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r ôl groniad o achosion DoLS ac i helpu i edrych ar yr achosion DoL cymunedol, cyflwynwyd achos busnes ar gyfer pedwar Aseswr Lles Gorau ychwanegol a chyllid i ddarparu'r asesiadau meddyg ychwanegol. Gobeithir y bydd canlyniad hyn yn hysbys yn gynnar yn 2024.

Hyfforddiant a Datblygu

Ganol 2023 sefydlwyd amserlen hyfforddi ar gyfer cartrefi gofal. Mae'r tîm DoLs yn awr yn rhoi hyfforddiant mewn parau i ddau gartref gofal y mis. Hyd yma mae sesiynau hyfforddi wedi'u cyflwyno i ddeg cartref gofal a chafwyd adborth cadarnhaol. Y nod yw ennill gwybodaeth, rhoi gofal o safon, diogelu hawliau pobl a datblygu perthnasoedd cadarnhaol.

Mae'r sesiynau amser cinio hyn wedi'u cyflwyno i reolwyr ac uwch ymarferwyr ar draws Gofal Cymdeithasol Oedolion. Mae sgwrs hefyd wedi'i rhoi i Therapyddion Galwedigaethol (ThG) ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a materion ataliaeth perthnasol i DoL sy'n ymwneud â nhw.

Rhoddir cefnogaeth reolaidd i staff gan dimau eraill sydd yn ymgymryd ag asesiadau galluedd cymhleth. Er enghraifft rhoddwyd cymorth mewn tri achos cymhleth yn yr wythnos ddiwethaf.

Mae'r tîm DoLs yn parhau i ddatblygu ei sylfaen sgiliau a gwybodaeth ei hun. Mae hyfforddiant gloywi gwybodaeth o'r gyfraith blynyddol yn ofyniad cyfreithiol i gynnal cymhwyster Aseswr Lles Gorau. Ers mis Ebrill 2023 mae pob aelod o staff wedi mynychu o leiaf ddau sesiwn diwrnod llawn yn ogystal a nifer o weminarau a sesiynau byrrach am ddim. Er mwyn ceisio cwrdd â her achosion DoL cymunedol, mynychodd y tîm hyfforddiant penodol ar hyn ym mis Ionawr 2024.

Mae taflenni gwybodaeth wedi'u eu datblygu i gefnogi gwaith y timau DoLS ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau. Maen nhw'n berthnasol i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid,

Amddifadu o Ryddid Cymunedol a hefyd yr hawl i Gynrychiolydd Unigolyn Perthnasol (eiriolwr). Mae'r rhain wedi'u cynhyrchu'n ddwyieithog a hefyd fel fersiwn hawdd ei ddarllen.

Mae'r tîm DoLS wedi comisiynu gwaith gan Safonau Ansawdd (Tîm Monitro) i ymgymryd ag ymweliadau â chartrefi gofal i archwilio achosion DoLS, cydymffurfiaeth cartrefi gofal a hefyd i ddynodi unrhyw faterion hyfforddiant neu weithredol perthnasol i DoLS.

Mae'r holl Aseswyr Lles Gorau ar y tîm DoLs wedi ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd i sicrhau bod ymarfer a gwybodaeth yn gyfredol. Mae rhagor o hyfforddiant wedi'i gynllunio ar gyfer 2024.

Staffio

Ar ôl cyfnod o newid pan ymddeolodd/adawodd nifer o aelodau hirsefydlog y tîm, mae'r tîm yn awr wedi'i staffio'n llawn. Mae tri asesydd llawn amser (un ohonynt ar secondiad drwy gyllid grant) ac un sy'n gweithio bedwar diwrnod yr wythnos. Mae'r tîm hwn wedi'i reoli gan gydlynydd llawn amser.

Ar hyn o bryd mae gennym un asesydd sy'n rhugl yn y Gymraeg. Rydym yn parhau i weithio'n agos â meddygon sydd wedi cyfrannu at bob asesiad. Mae gennym un meddyg sy'n siarad Cymraeg y gallwn gyfeirio atynt yn gyson. Mae gennym berthynas gadarnhaol dros ben gyda'n prif ddarparwr eiriolaeth (Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Conwy a Sir Ddinbych) ac mae ganddynt siaradwyr Cymraeg ymysg eu niferoedd. Mae hyn yn golygu y gallwn gyflawni ein hymrwymiad i'r Cynnig Gweithredol.

Sut i gael gwybod mwy

Os hoffech wybod mwy am y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ledled Cymru, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi cyd-gyhoeddi adroddiad monitro ar y defnydd o DoLS yng Nghymru yn ystod 2022-23. Gallwch ddarllen yr adroddiad yma

Lledaenu Hyfforddiant Ymddygiad Cadarnhaol

Yn adroddiad y llynedd fe ddywedom wrthych am y cyllid sydd ar gael i rai o'r staff Adnoddau Anabledd mewnol i ymgymryd â chymhwyster BTEC achrededig Bae Abertawe mewn Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol (CYC). Cytunwyd ar beilot gyda staff allweddol o bob adran o'r gwasanaeth yn naill ai ymgymryd â Thystysgrif Uwch (Lefel 3), Diploma Uwch (Lefel 4) neu Ddiploma Proffesiynol Uwch (Lefel 5) ac yna roi'r dysgu ar waith yn eu maes gwasanaeth.

Barnwyd fod y peilot yn llwyddiannus ar draws y meysydd gwasanaeth, er enghraifft roedd ymddygiadau heriol wedi lleihau ac roedd unigolion wedi ennill sgiliau newydd i'w galluogi i ddweud beth yw eu hanghenion. Fe wnaeth unigolion nad oeddent wedi cymryd rhan mewn fawr ddim gweithgareddau cyn hynny ddechrau coginio, defnyddio offer/peiriannau yn y cartref yn ogystal a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol rheolaidd. Fe wnaeth adborth a gafwyd gan aelodau teuluoedd ategu effaith gadarnhaol yr ymdriniaeth hon.

Mae'r staff yn wych! Rydym yn hapus iawn â'r gwasanaeth. Roedd y cyfathrebu, y cynllunio a'r addasiadau a wnaed yn rhagorol.

Mae'r dysgu o'r peilot wedi ein galluogi i ddechrau lledaenu egwyddorion Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol (CYC) i'r gwasanaeth ehangach. Ym Mron y Nant bu modd i staff allweddol roi mewnbwn i ddyluniad yr adeilad a fyddai'n caniatáu i unigolion ag anghenion cymorth ymddygiad cymhleth gael mynediad at wasanaethau mewn amgylchedd sy'n bodloni eu hanghenion, yn enwedig o ran prosesu synhwyraidd. Mae unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau bellach wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i'r gwasanaeth dydd cynhwysol ar y safle.

O ran recriwtio, rydym wedi symud at hysbysebion swyddi seiliedig ar werthoedd i ddenu ymgeiswyr gyda'r gwerthoedd a'r sgiliau trosglwyddadwy cywir i weithio gydag ymddygiadau sy'n herio, yn hytrach na'r rhai hynny sydd â phrofiad uniongyrchol. Gwelwyd cynnydd mewn ceisiadau a chafwyd llwyddiant yn recriwtio, sydd yn ei dro wedi galluogi'r gwasanaeth i gynnig mwy o wasanaethau i bobl ag anghenion cymhleth.

Datblygiadau eraill:

- Mae un aelod o staff wedi cwblhau eu cymhwyster Lefel 5 ac o ganlyniad i hynny fe wnaethant ymgymryd ag asesiad swyddogaethol llawn a chynllun CYC ar gyfer un person ag anghenion ymddygiad cymhleth, gan ei gyflwyno mewn sesiwn hyfforddi i'r tîm o staff sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw. Mae hyn wedi lleddfu'r pwysau ar y gwasanaethau iechyd.
- Oherwydd bod ganddynt fwy o wybodaeth mae staff yn teimlo'n fwy hyderus wrth gefnogi pobl ag ymddygiadau cymhleth gan gynnig mwy o weithgareddau a chyfleoedd yn y gymuned iddyn nhw.
- Gwahoddir yr holl ddarparwyr gofal yn y cartref allanol i fynychu'r Fforwm Darparwyr Gofal yn y Cartref Byw â Chymorth misol, ac mae'r swyddog arweiniol CYC wedi mynychu'r fforwm hwn fel siaradwr gwadd.
- Yn dilyn cyflwyniad Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol Llywodraeth Cymru, mae hyfforddiant mewnol wedi'i ddarparu i'r holl staff Adnoddau Anabledd, ac o ganlyniad i'w lwyddiant mae wedi'i ledaenu i wasanaethau ehangach.
- Mae gofynion hyfforddi CYC yn cael eu mapio ar draws y Gwasanaethau Anabledd i gynyddu dealltwriaeth, lleihau sefyllfaoedd argyfyngus posibl a leddfu'r pwysau ar y gwasanaethau Iechyd.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda Thîm Trawsnewid Anabledd Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd i drafod ffynonellau o gyllid i alluogi staff i ennill cymwysterau a'r posibilrwydd y gallai Conwy sefydlu Cymuned Ymarfer.
- Rydym yn edrych ar sut y gall CYC ffurfio rhan o'r broses dendro wrth gomisiynu darparwyr gofal newydd lle bo hynny'n briodol, gan ein galluogi i ddewis y darparwr cywir ar gyfer ein prosiectau byw â chymorth 24 awr.
- Mae staff cymwys wedi cofrestru â Bwrdd Iechyd Bae Abertawe fel mentoriaid ar gyfer cydweithwyr yng Nghonwy sy'n gweithio i ennill y cymhwyster CYC.
- Mae'r swyddog CYC arweiniol yn mynychu Gwasanaeth Hyfforddiant Aroloesedd a ddarperir gan Gofal Cymdeithasol Cymru gyda'r nod o ddatblygu syniadau i ymwreiddio a newid safbwyntiau diwylliannol o CYC ar draws y gwasanaethau anabledd mewnol ac allanol.

Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r llynedd

O ran cyflawni'r blaenoriaethau a ddynodwyd y llynedd, rydym wedi ymestyn y cymhwyster CYC i staff ac wedi codi ymwybyddiaeth o'r cynllun ymysg aelodau teuluoedd. Byddwn yn parhau i leihau'r angen am leoliadau tu allan i'r sir ac yn dod â phobl yn ôl i Gonwy drwy ddatblygu llety sy'n addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Fe welwch ragor o wybodaeth am ein strategaeth llety yn yr adroddiad hwn.

Sut y gallwn wella

O safbwynt gwelliannau mae angen i ni ddarparu pecynnau hyfforddi CYC wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer teuluoedd yn hytrach na defnyddio dull 'mae un maint yn ffitio pawb'. Mae'n rhaid i ni hefyd weithio gyda darparwyr allanol i'w hannog i ddefnyddio CYC a lleihau arferion cyfyngol; er gwaethaf ein gweithgaredd ymgysylltu mae'r ymateb a gafwyd wedi bod yn gyfyngedig. Mae'r amser sydd gennym i fentora cydweithwyr sy'n gweithio tuag at eu cymhwyster CYC hefyd yn gyfyngedig oherwydd pwysau amser.

Ein cynllun gweithredu

Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yn cynnwys:

- Cyfarfod gwasanaethau iechyd i ddeall sut y gall CYC fod yn fenter ar y cyd.
- Sefydlu Cymuned Ymarfer Conwy gyda budd-ddeiliaid allweddol o dimau mewnol a darparwyr a sefydliadau allanol.
- Cynyddu nifer y staff â chymwysterau CYC er mwyn iddynt allu mynd ymlaen i fentora eraill a lleihau'r pwysau ar y rhai sydd eisoes yn fentoriaid.
- Staff allweddol yn cael eu hyfforddi i fod yn Hyfforddwyr er mwyn ymwreiddio newid mewn diwylliant.
- Datblygu arbenigedd mewnol o ran gweithio gydag ymddygiadau sy'n herio drwy Gynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a Chymorth Gweithredol.
- Cyd-gynhyrchu pecynnau hyfforddi gyda theuluoedd.

Hyfforddiant Prosesu Synhwyraidd

Rydym wedi gweld nifer cynyddol o geisiadau am ymyrraeth ar gyfer plant a phobl ifanc â heriau prosesu synhwyraidd. Yn y gorffennol Therapydd Galwedigaethol yn uned pediatreg y Bwrdd Iechyd Lleol fyddai wedi ymdrin â hyn gan roi cyngor cadarn ar gynllunio gofal a dylunio'r amgylchedd ac offer. Pan ddaeth y swydd hon yn wag ni chafodd ei llenwi ac mae hynny wedi gadael bwlch mewn gwybodaeth a gwasanaeth.

Sut y gallwn wella

Oherwydd y galw ychwanegol a'r effaith mae hyn wedi'i gael ar ein tîm Therapi Galwedigaethol Anabledd ein hunain, roeddem yn bryderus nad oedd gan ein tîm yr arbenigedd, y profiad na'r hyfforddiant i bontio'r bwlch ers i'r swydd iechyd fynd yn wag. Cytunwyd felly y byddai hyfforddiant Prosesu Synhwyraidd yn cael ei gomisiynu ac y byddai pump o'r Therapyddion Galwedigaethol yn mynd i sesiwn un diwrnod lle byddai'r canlynol yn cael sylw:

- Deall y systemau synhwyraidd a'r hyn maen nhw'n ei wneud.
- Deall beth sy'n digwydd pan nad yw prosesu synhwyraidd yn gweithio fel y dylai a sut mae hyn yn dangos ei hun.

- Archwilio sut y gallwn gefnogi plant a phobl ifanc ag anawsterau prosesu synhwyraidd (APS).
- Archwilio'r cysylltiadau rhwng ASP, trawma ac ADHD.

Roedd adborth gan y rhai a fynychodd yn awgrymu bod yr hyfforddiant yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r pynciau perthnasol ond ar lefel sylfaenol iawn. Er ei fod yn fuddiol, nid oedd yn mynd yn agos at ddatblygu'r mathau o sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen i gwblhau asesiadau ac ymyriadau arbenigol ar gyfer pobl ag anawsterau cymhleth oherwydd problemau prosesu synhwyraidd a fyddent yn flaenorol wedi cael eu darparu gan gan ddeiliad y rôl arbenigol yn BIPBC.

Ein cynllun gweithredu

Mae Rheolwr Adain y tîm yn ymwybodol o hyd o'r bwlch yn y gwasanaeth ac wedi gofyn am fynegiannau o ddiddordeb gan ymarferwyr sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau yn y maes hwn. Bydd angen trafodaethau ar pa fath o hyfforddiant a datblygiad fyddai'n angenrheidiol a sut y byddai hyn yn cael ei hwyluso a'i gomisiynu ar y camau cynharaf. Efallai y byddwn yn ei gweld yn fuddiol gweithio gyda chydweithwyr ThG yn y Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn sydd hefyd yn debygol o dderbyn atgyfeiriadau ar gyfer pobl ag awtistiaeth ac anawsterau prosesu synhwyraidd.

Cyd-gynhyrchu gyda phobl sy'n gadael gofal

Un o'r egwyddorion allweddol ein Tîm o Ymgynghorwyr Personol yw y dylid cyd-gynhyrchu lle bynnag bosibl gyda'r bobl ifanc yr ydym yn gweithio â nhw er mwyn iddyn nhw allu dylanwadu ar y gwasanaeth maen nhw'n ei gael. Yn ddiweddar fe wnaethom greu gwefan wedi'i dylunio'n benodol, o'r enw Camau Bach, Dyfodol Disglair i roi gwybodaeth berthnasol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghonwy. Er mwyn cael adborth ar y wefan fe wnaethom ddosbarthu arolwg.

Roedd y canlyniadau'n dangos bod 62% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r wefan yn llai aml nag unwaith y mis, ac mae'r mwyafrif yn ei defnyddio i gyflwyno ceisiadau am grant Dydd Gŵyl Dewi sy'n darparu cyllid ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Fe wnaethom hefyd ofyn am sylwadau ar gynnwys a fformat y wefan a syniadau ar sut i wella. O'r ymatebion a gafwyd, roedd yr adborth yn bennaf gadarnhaol

Mae'r categoriau hyn yn ddefnyddiol iawn i mi, mae'r safle'n wych fel mae o.

Dwi'n eu gweld nhw'n ddefnyddiol iawn i fy helpu i ddod o hyd i'r hyn dwi angen ac maen nhw wedi'u trefnu'n berffaith felly mae pawb yn gallu dod o hyd i beth maen nhw ei angen.

Mewn ymateb i beth arall fydden nhw'n hoffi ei weld ar y wefan fe wnaethant awgrymu:

Cyngor ar gyfer byw

Gallai'r safle fod o help i bobl ifanc eraill pe bai gwybodaeth am sut i fyw yn eu cartref eu hunain e.e. defnyddio boeler, prisiau dŵr ac ynni a sut i dalu, sut i arbed arian ar filiau ynni.

Fforwm ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal i ofyn am help er mwyn i bobl ifanc eraill yn yr un sefyllfa allu helpu? Fel cyfaill ar-lein sy'n gwybod beth maen nhw'n mynd drwyddo.

Rhifau cyswllt pwysig: Shelter Cymru, Tai Gogledd Cymru, elusen dyledion Step-Change, llinell genedlaethol atal hunanladdiad ac ati.

Mae'r tîm hefyd yn defnyddio'r arolwg i gael gwybod beth fyddai'r bobl ifanc yn ei hoffi ar gyfer Wythnos Pobl sy'n Gadael Gofal. Roedd consensws am dripiau allan a gweithgareddau nad ydynt yn aml yn gallu eu profi na'u fforddio a'r cyfle i ddod at ei gilydd yn anffurfiol. Mewn ymateb, rydym wedi neilltuo cyllid grant i gynnig y cyfleoedd hynny ac rydym yn mynd i fynd â nhw ar dripiau i'r sinema, Sw Bae Colwyn a Zip World, yn ogystal â mynd allan i Hickory's am fwyd a

chael prydau bwyd drwy Just Eat. Mae'r tîm hefyd wedi sefydlu cyfarfodydd anffurfiol mewn lleoliadau diogel lle gall y bobl ifanc sgwrsio a dal i fyny dros bizza.

Sut y gallwn wella

Mae cynnwys y wefan yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n gyson ac rydym wedi cynnwys yr awgrymiadau a gafwyd yn yr ymatebion i'r arolwg, yn enwedig ers yr argyfwng costau byw, i roi cyngor a gwybodaeth ar lle i fynd am gyngor ynglŷn â chostau rhedeg cartref. Roedd y wybodaeth gyswllt bwysig eisoes wedi'i darparu; mae dros hanner cant o ddolenni at amrywiaeth o asiantaethau cymorth, sy'n awgrymu bod angen gwella gosodiad y wefan i wneud pethau'n fwy amlwg ac yn haws i ddod o hyd iddynt.

Byddai cynyddu nifer y defnyddwyr ac amlder yr ymweliadau â Camau Bach, Dyfodol Disglair hefyd yn un o'r nodau ar gyfer gwelliant, fel y byddai rhoi mwy o reolaeth i'r bobl ifanc dros ddatblygu'r wefan eu hunain, er enghraifft drwy ysgrifennu blogiau, dod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol a chadw'r gosodiad yn ffres ac yn ddiddorol.

Ein cynllun gweithredu

- Creu fforwm a arweinir gan gymheiriaid fel bod cynnwys y wefan yn cael ei gyd-gynhyrchu gan y bobl ifanc.
- Cyd-gynhyrchu'r digwyddiad Wythnos Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal fel ei fod yn ystyrlon ac yn ymatebol i'r unigolion hynny.

Ymgysylltu â phobl sy'n gadael gofal

Y llynedd fe wnaethom siarad am gyflwyno model ymarfer newydd ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac enwebu unigolion i gymryd rhan yn yr ymchwil. Ers i'r ymchwil ddechrau rydym wedi cynnwys 20 o bobl ifanc o bob rhan o Ogledd Cymru ac mae wyth ohonynt o Gonwy. Rydym wedi cynnal grwpiau ffocws a grwpiau llywio ar gyfer pobl ifanc a'r bobl broffesiynol sy'n gweithio efo nhw. Yng Nghonwy hyd yma rydym wedi recordio dau bodlediad sydd ar gael ar Spotify; mae'r cyntaf yn cynnwys trafodaeth rhwng pobl sy'n gadael gofal am eu profiadau ymgysylltu, ac unrhyw rwystrau y maent wedi'u hwynebu, ac mae'r ail yn canolbwyntio ar adborth ar yr ymchwil hyd yma.

Sut y gallwn wella

Mae'r holl bobl ifanc sy'n rhan o'r prosiect ymchwil wedi cael cyfleoedd i drafod yr hyn maen nhw'n feddwl sydd ei angen arnynt ar eu siwrnai drwy'r gwasanaethau a'r pethau sydd neu sydd ddim wedi gweithio iddyn nhw. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i helpu Awdurdodau Lleol i ddatblygu gwasanaethau sydd yn ystyrlon ar gyfer y bobl ifanc yr ydym yn gweithio gyda nhw ac yn darparu sylfaen o ran ymagwedd ac adnoddau i wella'r ffordd y mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn ymgysylltu yn y gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn.

Ein cynllun gweithredu

Mae hwn yn brosiect dwy flynedd felly mae'n rhy fuan i ddweud os bydd angen unrhyw welliannau, fodd bynnag gallwn fod yn sicr bod pobl ifanc yn cael llais ac yn cael eu clywed.

Dyma rai ffigyrau am bobl sydd wedi gadael gofal.

Mae'r dangosyddion perfformiad hyn yn anelu at fesur pa mor dda yr ydym yn cefnogi'r plant yr ydym yn darparu gofal ar eu cyfer wrth iddyn nhw symud tuag at adael y gwasanaethau gofal.

98.51% - canran y plant sydd â Chynlluniau Llwybr yn ôl yr angen

97.04% - canran y plant sydd wedi cael Ymgynghorydd Personol

Y Tîm Gofalwyr

Dyma rai ffigyrau am ofalwyr:

Mae'r metrigau Llywodraeth Cymru hyn wedi'u dylunio i gofnodi data am ofalwyr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â chysylltiadau ac asesiadau. Mae'r wybodaeth yn fodd pwysig o fonitro maint, llif a' galw ar y gwasanaeth

738 - nifer y cysylltiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol statudol gan ofalwyr oedolion neu weithwyr proffesiynol ar eu rhan yn ystod y flwyddyn

295 - cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr newydd ar gyfer oedolion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Yng Nghonwy rydym yn ffodus i fod â Thîm Gofalwyr sy'n cynnwys tri Swyddog Gofalwyr llawn amser. Maen nhw'n cefnogi unigolion o 18 oed sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae ein system dyletswydd yn sicrhau bod gofalwyr yn cael siarad â swyddog, yn absenoldeb eu gweithiwr enwebedig, am gyngor ac arweiniad uniongyrchol Mae partneriaid a budd-ddeiliaid eraill wedi rhannu adborth cadarnhaol am y gwasanaeth a ddarperir i'r tîm a'r rhan annatod y mae'n ei chware o ran lles a rhoi cefnogaeth i'n dinasyddion.

Rydym yn hyrwyddo ac yn rhannu gwybodaeth ar gyfer gofalwyr gyda'n hasiantaethau partner i hyrwyddo'r hawl i ofalwyr wneud cais am asesiad annibynnol ar gyfer y cymorth priodol. Enghraifft o hyn oedd yn ystod yr Wythnos Gofalwyr a'r Diwrnod Hawliau Gofalwyr pan oedd ein Swyddogion Gofalwyr a'n Swyddogion Taliadau Uniongyrchol ar gael i gynnig cyngor a gwybodaeth fel rhan o'r ymgyrch ehangach i gydnabod rôl hollbwysig gofalwyr yng Nghonwy.

Sut y gallwn wella

Ni chwblhawyd unrhyw arolygon ffurfiol ers y pandemig Covid-19 Fodd bynnag mae adborth ymarferwyr o'u gwaith uniongyrchol gyda Gofalwyr yn ein helpu ni i werthuso darpariaeth gwasanaeth ac yn amlygu meysydd lle mae angen gwella, ac yn dangos yr angen i ehangu'r gwasanaeth i adlewyrchu rôl arwyddocaol y gofalwr di-dâl a'u hangen am gydnabyddiaeth a chefnogaeth.

Ein cynllun gweithredu

Bydd arolwg cynhwysfawr yn cael ei gynnal yn 2024 a fydd yn adnabod gwelliannau a chyfleoedd datblygu pellach.

Pobl: Adborth ar ein perfformiad

Adborth gan staff

Ddwywaith y flwyddyn rydym yn gofyn i staff o'n gwasanaethau gofal yn y cartref a phreswyl ar gyfer pobl hŷn a phobl ag anableddau ynglŷn â'u profiadau yn y gweithle a'r gefnogaeth y maent yn ei chael i gyflawni eu rolau, a beth yw eu barn am eu heffeithlonrwydd eu hunain wrth ddarparu gofal a chymorth i bobl hŷn a phobl ag anableddau yng Nghonwy. Mae peth o'r adborth a gawsom ym mis Awst a mis Medi 2023 i'w weld isod.

Staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd a hyfforddiant parhaus i gyflawni eu rolau'n hyderus. Mae'r holl staff ar draws y timau yn teimlo eu bod nhw, fel tîm, yn gwrando ar yr unigolion maen nhw'n eu cefnogi ac yn sicrhau eu bod nhw'n gallu gwneud dewisiadau am eu bywydau. Fel unigolion, mae staff gofal yn y cartref yn amlwg yn deall pwysigrwydd rhoi'r unigolyn wrth galon cynllunio eu gofal, cefnogi eu hiechyd a'u lles a pharchu eu safbwyntiau a'u dymuniadau.

…….canolbwyntio ar yr unigolyn, gwrando ar yr hyn maen nhw eisiau a gwneud ein gorau i gyflawni eu dymuniadau.

Rydw i'n gwrando ar unrhyw bryderon sydd gan gleientiaid ac yn eu codi gyda rheolwyr neu deuluoedd os oes angen, ac yn eu hannog i ddweud sut yr hoffent i'w gofal gael ei ddarparu.

……gwrando ar a gweithredu ar yr hyn mae unigolion yn ei ddweud wrthym. Rydym yn eu cefnogi gydag apwyntiadau Iechyd, yn annog ffyrdd iach o fyw ac yn hyrwyddo annibyniaeth fel bod ganddynt reolaeth dros eu bywydau.

Yn yr un modd, o safbwynt diogelu, roedd 100% o'r staff a ymatebodd yn cytuno eu bod yn cefnogi unigolion i aros yn ddiogel a'u bod yn eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae sylwadau ychwanegol yn awgrymu bod staff mewn cytgord â'r unigolion maen nhw'n eu cefnogi, a'u bod yn sylwi'n gyflym os oes unrhyw newid yn eu hymarweddiad neu eu hymddygiad ac yn gallu meithrin digon o ffydd fel bod yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn teimlo'n barod i siarad am unrhyw broblemau y gallant fod yn eu profi. Mae hyfforddiant diogelu cadarn yn cyfrannu at hyn, fel y mae polisïau a gweithdrefnau clir i staff eu dilyn.

……chwilio am arwyddion o unrhyw gamdriniaeth a bod yn ymwybodol o unrhyw newid mewn ymddygiad. Gwneud iddynt deimlo y gallant ymddiried ynom ni, ein bod yn hawdd dod atom ac y gallwn helpu.

Rydym yn dilyn yr asesiadau risg sydd wedi'u sefydlu ac yn rhoi gwybod i'n rheolwyr am unrhyw bryderon iechyd a diogelwch neu bryderon eraill. Rydym yn mynychu ac yn cadw i fyny â hyfforddiant diogelu ac yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn y modd priodol. Rydym yn dod i adnabod yr unigolion yr ydym yn eu cefnogi, yn sylwi ar unrhyw newidiadau ac yn gwrando arnyn nhw.

Yn ogystal â gofyn iddyn nhw ddweud beth mae eu gwasanaeth yn ei wneud yn dda, gofynnir i staff hefyd adnabod unrhyw welliannau y gellid eu gwneud. Rhywbeth sy'n codi dro ar ôl tro yw'r angen i recriwtio mwy o staff parhaol a chynyddu capasiti. Fel y trafodwyd mewn rhan arall o'r adroddiad, mae recriwtio i lawer o rolau yng Ngofal Cymdeithasol, yn cynnwys gofal a chymorth rheng flaen, yn her barhaus. Rydym yn aml yn dibynnu ar staff asiantaeth i lenwi swyddi ac yn cael trafferth denu ymgeiswyr.

Er gwaethaf teimlo'n brin o staff ar adegau, mae staff rheng flaen yn mwynhau eu swyddi a'r boddhad maen nhw'n ei gael o ddarparu gwasanaeth effeithiol. Pan ofynnwyd i bobl beth yw'r rhan o'r rôl maen nhw'n eu hoffi fwyaf, dywedwyd:

Gwybod fy mod yn gwneud gwahaniaeth a gweld y plant yn rhyngweithio efo fi ydi'r teimlad gorau.

Bob dim, dwi'n deffro bob bore efo gwên ar fy wyneb ac yn edrych ymlaen at ddod i'r gwaith.

Bod yn falch o fod yn rhan o dîm llwyddiannus a chefnogi unigolion diamddiffyn gydag anghenion cymhleth gan wybod fy mod wedi gwneud gwahaniaeth.

Adborth budd-ddeiliaid

Rydym hefyd yn gofyn ddwywaith y flwyddyn i fudd-ddeiliaid am eu barn nhw ar ein gwasanaethau gofal cartref mewnol a'n cartref preswyl, Llys Elian. Cydweithwyr yw'r rhain sy'n asesu ac yn cyfeirio unigolion at ein gwasanaethau rheng-flaen ac sy'n gweithio mewn timau

gwaith cymdeithasol, cymdeithasau tai, y sector gwirfoddol a lleoliadau iechyd. Rydym yn holi ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau, ein prydlondeb mewn delio ag ymholiadau ac am enghreifftiau o waith partneriaeth effeithiol.

O ran gwasanaethau rheng-flaen, roedd 100% yn teimlo ein bod yn gwrando ar yr unigolion yr ydym yn eu cefnogi, ac yn eu galluogi i wneud dewisiadau am y gofal a'r gefnogaeth y maen nhw'n ei gael a'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw. Mae sylwadau ychwanegol yn cydnabod y cyfyngiadau ar adnoddau'r tîm, ond hefyd yn cydnabod yr hyblygrwydd a'r atebolrwydd a ddangosir i gyflawni dyheadau'r bobl maen nhw'n eu cefnogi.

Tîm cefnogol iawn ac rydym bob amser yn cael adborth cadarnhaol gan gleifion.

Mae'r tîm bob amser yn agored i sgwrs am anghenion unigolion ac yn ceisio addasu'r gwasanaeth er mwyn gallu ymateb iddynt.

Eto, nodir prinder staffio yn aml iawn fel rhwystr rhag darparu mwy o wasanaethau neu rhag gallu rhoi pecynnau gofal at ei gilydd yn gyflym. Fodd bynnag mae tystiolaeth glir o waith traws sefydliadol effeithiol boed hynny drwy gyfarfodydd clwstwr, dros y ffôn neu dros e-bost.

Adborth defnyddwyr gwasanaeth

Dyma rai ffigyrau am y gwasanaeth:

Nod y mesurau hyn yw cofnodi a monitro'r gwasanaethau a ddarperir i oedolion fel y nodir yn eu cynllun gofal a chymorth. Mae'r mesurau hyn, yn ogystal â mecanweithiau adrodd eraill yn ein helpu ni i fonitro'r galw a maint y gwasanaethau a ddarperir.

Cyfanswm y gwasanaethau i oedolion a ddechreuwyd yn ystod y flwyddyn:

Cartref Gofal Oedolion: 351

Gofal yn y cartref: 683

Gofal Seibiant: 196

Fel cartref preswyl ar gyfer pobl â dementia, mae'r lleoliad, lefelau o gysur a'r croeso ar y safle i gyd yn elfennau pwysig o brofiad Llys Elian i breswylwyr ac ymwelwyr. Mae'r mwyafrif helaeth o fudd-ddeiliaid yn dweud bod y safonau hyn yn rhagorol, gyda 100% yn cytuno bod unigolion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon, yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag esgeulustod a chamdriniaeth, bod eu preifatrwydd, eu hurddas a'u cyfrinachedd yn cael eu cynnal a'u bod yn byw mewn amgylchedd cyfforddus sy'n cael ei wneud yn bersonol iddyn nhw. Mae'r holl ymatebwyr yn dweud eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu croesawu yn ystod eu hymweliad ac y gall staff roi gwybodaeth gywir ac amserol am y bobl maen nhw'n eu cefnogi.

Mae pawb mor dda a mor barod i *helpu, tîm gwych, yn gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus, sydd yn ffactor mawr i bob* efo dementia.

Mae'n gartref gofal hyfryd a dylai cartrefi gofal eraill ddefnyddio Llys Elian fel enghraifft o sut i greu amgylchedd gwaith gofalgar, caredig ac effeithiol mewn lle sy'n cael ei barchu fel cartref y bobl maen nhw'n gofalu amdanynt, gan ddangos caredigrwydd go iawn i'r preswylwyr, safonau uchel o ofal ac ansawdd

Rydwi i wedi ymweld (â Llys Elian) nifer o weithiau ac mae'n amlwg bod pwyslais mawr ar ddarparu profiad cadarnhaol i hyrwyddo deilliannau cadarnhaol i bawb. Mae wedi bod yn fraint fawr cael cymryd rhan yn y dyddiau gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan Llys Elian ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth, rydym yn gwerthfawrogi'r ymdriniaeth gydweithredol hon.

Atal

- Mae'r angen am ofal a chefnogaeth yn cael ei leihau a sefyllfaoedd o argyfwng yn cael eu hatal, tra'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl.
- Mae cadernid yn ein cymunedau'n cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy roi anogaeth a chymorth weithredol i'r rhai hynny sydd angen gofal a chefnogaeth, yn cynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas.

Datblygu ein Tîm Unigolion Cysylltiedig

Perthynas, ffrind neu unigolyn arall sy'n gysylltiedig â phlentyn yw Unigolyn Cysylltiedig, y gellir eu hasesu a'u cymeradwyo fel gofalwr maeth os nad yw'r plentyn yn gallu byw gyda'u rhieni. Aros gyda theulu neu ffrindiau yw'r opsiwn gorau ar gyfer lles y plentyn fel arfer, yn hytrach na derbyn gofal mewn cartref preswyl neu gan ofalwyr maeth nad ydynt yn eu hadnabod. Yng Nghonwy, rydym yn datblygu ein Tîm Unigolion Cysylltiedig i sicrhau ein bod yn gwella'r cyfleoedd i gadw teuluoedd gyda'i gilydd lle bynnag y bo modd. Rydym wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer yr asesiadau o Unigolion Cysylltiedig, a rhwng y tri asesydd yn y swydd hon, roedd gennym 16 ar waith ym mis Ionawr 2024.

Yn 2023, ail-lansiwyd y broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, sy'n golygu bod disgwyl i dimau gysylltu gydag Unigolion Cysylltiedig a'u hasesu'n gynt. Rydym wedi gweld amserlenni byrrach gan y llysoedd o ran timau gofal plant sy'n ceisio Gorchmynion Gofal Dros Dro, ac mae wedi

bod yn anodd cwblhau asesiadau manwl a sicrhau fod gwiriadau statudol yn cael eu dychwelyd yn brydlon yn sgil hyn. Mae bellach angen diweddaru'r rhaglen hyfforddiant a luniwyd y llynedd i adlewyrchu'r newidiadau i'r prosesau, a'r cynlluniau ar gyfer 2024 yw datblygu a chyflwyno hyn ymhellach.

Rydym wedi gweithio gyda Y Bont, sy'n cynnal Cynadleddau Grŵp Teulu, mewn modd rhagweithiol i annog presenoldeb ein tîm yn y cyfarfodydd i gael trafodaethau cynnar am Unigolion Cysylltiedig, gofal maeth ac opsiynau Gwarcheidwaeth Arbennig. Mae hyn yn sicrhau fod teuluoedd yn elwa o'n harbenigedd mewnol, fod gennym ddealltwriaeth o rôl yr Unigolion Cysylltiedig o gyfnod cynnar, a'n bod yn gallu trafod y broses asesu a beth mae bod yn Ofalwr amgen neu gynnig cefnogaeth i deuluoedd yn ei olygu.

Mae Cydlynydd Unigolion Cysylltiedig ychwanegol wedi rhoi rhagor o gyfle i ni archwilio trosglwyddiadau Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig, sef trosglwyddo plant o drefniadau Gorchymyn Gofal i ofal llawn eu Hunigolyn Cysylltiedig. Rydym wedi derbyn dau drosglwyddiad eleni, sy'n golygu bod dau blentyn nad ydynt yn cael eu hystyried fel 'plant sy'n derbyn gofal' mwyach. Mae pum asesiad Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig ar waith ar gyfer chwe Phlentyn sy'n Derbyn Gofal y gobeithir eu 'rhyddhau' cyn y gwanwyn 2024. Mae'r swydd ychwanegol wedi ein galluogi i fod yn fwy creadigol wrth feddwl am gynlluniau cymorth y Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig o ran cymorth ymarferol ar gyfer rheoli cyfathrebu ynghylch amser teuluol. Mae'r swydd hefyd wedi ein helpu i reoli gwiriadau statudol a'r amserlenni byrrach disgwyliedig gan y llysoedd ar gyfer asesiadau. Mae wedi eu galluogi i arwain ar sicrhau fod dogfennau'n cael eu hanfon allan yn brydlon ac osgoi oedi diangen wrth gyflwyno ceisiadau i'r llysoedd.

Mae'r tîm wedi cydweithio i ddatblygu grwpiau cymorth ar gyfer gofalwyr maeth ac mae digwyddiadau llwyddiannus wedi cael eu cynnal eleni, gan gynnwys hyfforddiant camddefnyddio sylweddau, digwyddiad pitsa a chrochenwaith i annog trafodaethau cefnogol ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau, a bore coffi i gasglu arian ar gyfer y grŵp Lleisiau Uchel er cof am ofalwr a oedd yn berthynas a fu farw eleni. Mae grwpiau cymorth yn hyrwyddo gwytnwch yn y maes gofal maeth, yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, a fydd yn ei dro yn cefnogi sefydlogrwydd y cartref ar gyfer y plant ac ymestyn y cyfle i symud ymlaen i Orchymyn Preifat.

Sut y gallwn wella

Yn sgil y newidiadau i Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, salwch o fewn y tîm, a'r angen gan aseswyr newydd am ragor o gefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau, nid ydym wedi cyflwyno'r hyfforddiant Unigolion Cysylltiedig i dimau a gweithwyr proffesiynol. Bydd hyn ar y rhaglen ar gyfer 2024 i sicrhau fod prosesau Unigolion Cysylltiedig yn cael eu blaenoriaethu, a bod aelodau teulu'n cael eu nodi'n gynnar i hyrwyddo lleoliadau teulu a pharhad i blant. Yn y pen draw, bydd gwneud hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o sefydlu Gorchymyn Preifat ar ddiwedd achos gofal, neu aelodau teulu'n derbyn cefnogaeth i gael mynediad at Orchymyn Preifat, a fydd yn lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Yn sgil absenoldeb Swyddog Recriwtio yn y tîm cyffredinol, mae ein Gweithiwr Cysylltiedig presennol yn helpu â'r dyletswyddau hyn nes bydd y swyddi wedi cael eu llenwi; mae hyn yn golygu bod ganddi hi lai o gapasiti, ond fe ddylai'r broblem hon fod wedi'i sortio unwaith y bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus wedi dechrau yn eu swyddi yn 2024. Mae hyn wedi ein hatal rhag rhannu'r llwyth gwaith GGA rhwng dau aelod o'r tîm erbyn diwedd 2023.

Ein cynllun gweithredu

- Bydd hyfforddiant Unigolion Cysylltiedig yn dechrau, gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiadau o ail-lansiad yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus, gyda'r nod o hyrwyddo aelodaeth teulu i blant, cynyddu sefydlogrwydd i blant mewn amgylcheddau gofalu cyfarwydd lleol, a lleihau'r boblogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal.
- Rydym yn awyddus i elwa o gapasiti llawn ail Weithiwr Unigolion Cysylltiedig, rhannu'r llwyth gwaith, a chael rhagor o gyfle i greu gweithgarwch ar gyfer cynlluniau GGA, rhoi mwy o ddewis i deuluoedd am eu ffyrdd o fyw, y gallu i fyw'n rhydd o wiriadau statudol, a chynyddu nifer y trosglwyddiadau i'w hasesu.
- Hoffem i Weithwyr Unigolion Cysylltiedig barhau i gysylltu gyda Chanolfannau Teulu, gan godi ymwybyddiaeth o Unigolion Cysylltiedig ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn ymyrraeth a chefnogaeth gynnar. Rydym wedi gweld y buddion eleni gyda GGA traddodiadol, sydd fwy na thebyg yn ei dro wedi atal plant rhag gorfod derbyn gofal neu ddod i gysylltiad â'r arena amddiffyn plant, gan fod aelodau teulu wedi gallu rheoli eu sefyllfaoedd eu hunain gyda chefnogaeth briodol i geisio Gorchmynion Preifat lle bo angen.
- Mae arnom ni eisiau i blant gael mynediad gwell at wasanaethau cefnogaeth i ffwrdd o'r llwybrau Plant Mewn Angen neu Amddiffyn Plant, ac yn hytrach, cael eu cefnogi gan asesiadau, Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig a gwasanaethau cyffredinol.

Agor ein canolfan seibiant newydd ar gyfer pobl anabl

Agorodd Bron y Nant i ddefnyddwyr gwasanaeth ar 4 Medi 2023 gan gynnig seibiant i bobl ag anableddau a'u teuluoedd. Gwyliwch ein fideo You Tube i ddysgu mwy. Mae ein tîm o staff bellach wedi setlo yn eu swyddi newydd ac wedi ymgyfarwyddo â'r safle. Yn y cyfamser, mae'n ymddangos bod y defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi cael mynediad at y gwasanaeth wedi bod yn hapus ac yn gartrefol drwy gydol eu cyfnod yno, gyda nifer ohonynt yn dewis cymryd rhan mewn sesiynau paratoi prydau mewn grŵp a chymdeithasu yn yr ardal gymunedol.

Sut y gallwn wella

Yn ystod y misoedd cyntaf hyn, rydym yn nodi meysydd i'w gwella yn y cyfleuster:

- Nid oeddem yn disgwyl i'r gegin gyffredinol fod mor boblogaidd, o ystyried mai'r gegin honno yw'r lleiaf ar y safle, byddwn yn ystyried hyn ar gyfer prosiectau'r dyfodol.
- Mae defnyddwyr gwasanaeth wedi rhoi gwybod i ni y byddai cludiant i weithgareddau'n ddefnyddiol, felly mae gennym bellach fynediad at gar a bws mini i'w llogi.
- Mae ymwelwyr wedi nodi problemau â'r intercom wrth geisio cael mynediad i'r adeilad, felly rydym wedi gosod cloch nes bydd y broblem hon wedi'i datrys.
- Mae rhai problemau parhaus a signal ffôn ym Mron y Nant, a gafodd eu nodi gan staff ac ymwelwyr; rydym yn gweithio gyda'n hadran TG i ystyried opsiynau amgen.
- Gan fod ar rai defnyddwyr gwasanaeth angen rhagor o gefnogaeth, er enghraifft, yn ystod y nos, rydym yn defnyddio staff asiantaeth ar hyn o bryd.

Ein cynllun gweithredu

Mae'r tîm wedi gweithio gyda'r defnyddwyr gwasanaeth i greu canllaw Bron y Nant, sy'n cynnwys pynciau megis ein gwerthoedd, lleoliad Bron y Nant, y math o lety sydd ar gael (gweler

y lluniau isod), cyflwyniad i'r tîm, a sut rydym yn darparu gwasanaethau. Rhoir gwybod i breswylwyr hefyd am weithgareddau a llefydd o ddiddordeb yn yr ardal, gyda'r nod o gefnogi unigolion i ymweld â hwy yn ystod eu cyfnod yno.

Arwain plant oddi wrth troseddu

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi llwyddo i gyflwyno a gweithredu Prosiect Turnaround y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd wedi'i anelu at ymyrraeth ataliol i arwain plant a phobl ifanc oddi wrth troseddu. Mae Rheolwr Achos a Swyddog Gweinyddu a Gwybodaeth dynodedig wedi cael eu penodi i arwain ar ddarpariaeth gwasanaethau ac adrodd i'r Bwrdd Rheoli a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Ar draws Conwy a Sir Ddinbych, roedd 119 o atgyfeiriadau ar gyfer troseddau megis trais yn erbyn unigolyn arall, dwyn cerbydau, ymdrin â nwyddau wedi'u dwyn a throseddau rhywiol. Cytunodd 31 o bobl ifanc i ymgysylltu â'r Rhaglen Turnaround i ddechrau, ac mae 25 o'r rheiny wedi bwrw ymlaen â hynny.

Ein cynllun gweithredu

Dros y deuddeg mis nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar wreiddio a datblygu'r ddarpariaeth ymyrraeth gynnar ymhellach i sicrhau ein bod yn parhau i gynnig cefnogaeth wirfoddol, sydd wedi ei llywio gan anghenion ac sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan, i blant a phobl ifanc er mwyn tawelu eu hymddygiad a sicrhau ein bod yn eu rhoi'n ôl ar y trywydd iawn.

Ein Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, rydym wedi parhau i wynebu heriau o fewn y gwasanaeth, yn arbennig o ran recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwys. Mae o leiaf un swydd wag wedi bod o fewn dau o'n timau dros y flwyddyn gyfan ddiwethaf, ac mae hyn wedi arwain at ddefnydd digynsail o staff asiantaeth. Mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth fodd bynnag yn golygu ein bod wedi gallu rheoli cyfraddau tâl asiantaeth ar draws y rhanbarth. Serch hynny, rydym wedi gallu dyrannu achosion, ac mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n galed iawn ac yn ymdrin â gwaith anodd a chymhleth iawn. Rydym yn gweld mwy a mwy o'r achosion hynny'n cael eu rheoli yn yr arena Amddiffyn Plant, Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus neu Blant sy'n Derbyn Gofal. Dylid nodi nad oedd nifer o'r teuluoedd yr ydym yn gweithio â hwy'n hysbys i ni'n flaenorol, ac mae rhai o'r achosion wedi cael eu huwchgyfeirio, ac yn ymofyn ymyraethau Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal yn gymharol gyflym yn y broses.

Roedd y gwasanaeth yn destun arolwg Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar ddechrau'r cyfnod adrodd, ac fe nododd Arolygiaeth Gofal Cymru sawl elfen gadarnhaol. O ran y meysydd a oedd yn ymofyn gwelliant, rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith ac mae'r mwyafrif o'r camau gweithredu hynny bellach wedi cael eu cyflawni. Nodwyd ymarfer da o fewn y maes gwaith hwn yn yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus, gan gynnwys fod y "cofnodion yn nodi pryderon yn glir, a bod diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn cael eu blaenoriaethu". Hefyd yn ystod y cyfnod hwn, ail-lansiwyd yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gan y farnwriaeth, gan ganolbwyntio ar waith i'w flaenoriaethu, a rheoli a monitro proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn well. Er bod rhai meysydd i'w gwella, mae pob aelod o staff wedi gweithio'n galed i gyflawni canlyniadau gwell drwy ddefnyddio'r broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

Mae'r gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd, CWLWM a chyfarfodydd â'r adran Iechyd ac Addysg i'w hannog i gymryd mwy o ran yn ein Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol. Mae Rheolwyr o fewn y Tîm Asesu a Chefnogi hefyd yn cynnal fforymau Camfanteisio ar Blant Cyd-destunol misol, a gaiff eu mynychu gan asiantaethau partner i drafod achosion a themâu. Mae'r rhain wedi bod yn

boblogaidd ac mae'r adborth gan ein partneriaid yn gadarnhaol iawn. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn, ac mae'r Cynllun Gweithredu Cam-drin Plant yn Rhywiol bellach wedi cael ei gwblhau, a disgwylir i'r Pennaeth Gwasanaeth ei adolygu cyn ei gau.

Rydym bellach wedi sefydlu'r llwybr llety ar gyfer plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal a'r rheiny sydd mewn perygl o amhariad. Caiff achosion eu goruchwylio gan y panel llety ac maent yn elwa o gefnogaeth ymyrraeth ac atal 'ffiniau gofal'. Mae hyn yn gweithio'n dda, ac mae bob aelod o staff yn ymwybodol o'r broses hon. Fodd bynnag, rydym yn aros am adolygiad o'r broses yn fuan i ystyried p'un a oes modd ei symleiddio, a ph'un a yw bob cam yn angenrheidiol wrth symud ymlaen.

Mae ein Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth bellach wedi'i sefydlu ac yn gweithredu dan amodau busnes fel arfer. Mae'r ganolfan wedi cryfhau gwaith amlasiantaeth, yn arbennig gyda Heddlu Gogledd Cymru o ran diogelu plant ac oedolion diamddiffyn yng Nghonwy. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr Iechyd ac Addysg i gael eu cyfraniad nhw i'r broses a thrafodaethau dyddiol.

Mae un o'r rheolwyr Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth yn rhoi sgyrsiau i'r Rheolwyr Diogelu Dynodedig ar ddiogelu, camfanteisio, Cam-drin Plant yn Rhywiol ac Ymddygiadau Rhywiol Niweidiol yn rheolaidd. Maent hefyd yn cadeirio pwyllgor rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion ac yn eistedd ar y panel Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae pawb yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr o'r gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg ac Iechyd i sicrhau ymdriniaeth brydlon ag unrhyw bryderon. Mae Addysg a'r Heddlu'n mynychu'r fforwm Camfanteisio ar Blant. Rydym yn cynnig ymgynghoriadau Fforwm Amlasiantaethol Cam-drin Plant yn Rhywiol, yn bennaf i ysgolion, ond hefyd i dimau a gweithwyr cymdeithasol eraill yn ôl yr angen neu'r gofyn.

Mae rheolwr arall wedi dechrau cadeirio'r cyfarfod monitro cyn geni a sefydlwyd yn ddiweddar gyda chydweithwyr Iechyd lle cyflwynir achosion i'w trafod i sicrhau fod unrhyw bryderon am iechyd mam neu fabi yn ystod beichiogrwydd, neu unrhyw bryder am y teulu ar ôl geni, yn cael eu rhannu a'u trafod, hyd nes y caiff camau neu asesiadau pellach eu cwblhau.

Rydym wedi gweld cynnydd yn y defnydd o'r Gwasanaeth Cynadledda Grŵp drwy Y Bont. Golyga hyn fod teuluoedd yn cael cynnig cyfle i ddod at ei gilydd ac ystyried sut y gallant gyfrannu at a chefnogi plant i aros o fewn yr uned deuluol. Cynhelir holiadur yn fuan i geisio

adborth gan weithwyr cymdeithasol sy'n atgyfeirio i sicrhau fod y gwasanaeth yn parhau i fodloni anghenion.

Mae Conwy, ynghyd ag Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth yn treialu'r defnydd o eiriolaeth rhieni. Dim ond newydd ddechrau mae hyn a bydd angen ei adolygu'n hwyrach eleni, fodd bynnag, mae arwyddion cynnar o'i ddefnyddioldeb i deuluoedd o fewn y broses Amddiffyn Plant, sydd wedi nodi eu bod yn deall y broses a'r hyn sy'n ofynnol ganddynt a'r Awdurdod Lleol yn well.

Sut y gallwn wella

Roedd angen adolygiad o'r llwybr llety a chynllun gweithredu'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Lle bo angen, byddwn yn eu diweddaru er mwyn i ni fedru gweithredu hyd eithaf ein gallu. Mae angen gwaith pellach ar draws y timau gwaith cymdeithasol o fewn y gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth i sicrhau proses bontio esmwyth ar gyfer gwaith achos, a'n bod yn blaenoriaethu achosion fel sy'n ofynnol gan ail-lansiad yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Mae'n bosibl y bydd angen i ni ystyried cyfansoddiad a rolau'r timau o fewn y gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth o ganlyniad.

Mae'n rhaid i ni ystyried p'un a ddylwn ni barhau i recriwtio staff nad ydynt yn gymwys i gefnogi'r timau gwaith cymdeithasol a ph'un a allwn sicrhau ein bod yn bodloni pob gofyniad statudol drwy wneud hyn. Mae recriwtio gweithwyr cymdeithasol wedi bod yn anodd iawn, ond mae cyfrifoldebau statudol yr adran wedi cynyddu yn sgil y cymhlethdod o fewn gwaith achos, ac anghenion teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae angen gwella ein partneriaeth gyda'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol o ran cyfraniad cydweithwyr Iechyd ac Addysg er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ar y camau cynnar o weithio gyda theuluoedd, ac nad yw cyfranogiad yn cael ei uwchgyfeirio mewn modd amhriodol.

Mae angen strategaeth i reoli'r broses o uwchgyfeirio achosion difrifol er mwyn sicrhau fod yr achosion sydd â'r risg fwyaf yn cael eu goruchwylio o fewn yr adran gan reolwyr ar bob lefel. Mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn adolygu achosion lle mae cysylltiad sylweddol wedi bod rhwng teuluoedd a'r adran, a lle nad yw'r newidiadau sydd fel arfer yn ein galluogi i ddod â'r cysylltiad i ben yn ddigonol.

Ein cynllun gweithredu

- Adolygu'r llwybr llety
- Adolygu'r cynllun gweithredu Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus
- Ail-lansio'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, adolygu achosion a dadansoddi gweithgarwch cyn ac ar ôl yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus
- Ystyried rôl y timau o fewn y gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth, eu cyfansoddiad a'r ffordd orau i fodloni ein rhwymedigaethau statudol
- Creu arolwg i gasglu adborth ar Gynadledda Grŵp Teulu gan staff a defnyddwyr y gwasanaeth
- Cynnal adolygiad o eiriolaeth rhieni gyda'r darparwr, Tros Gynnal Plant

Cynhwysiant digidol i bobl ag anableddau

Yn adroddiad y llynedd, soniwyd am gyfres o gyrsiau hyfforddiant ar gyfer pobl ag anableddau a'u teuluoedd, gyda'r nod o wella eu mynediad at, a'u hyder gyda, thechnoleg. Ym mis Tachwedd 2023, dechreuodd Cyswllt Conwy gynnal Sesiynau Galw Heibio Digidol am un dydd Iau bob mis yn eu swyddfa yng Nghanolfan Marl, ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt am sut y gallwn ddarparu'r rhain mewn safleoedd gwahanol ar draws Conwy. Bydd y sesiynau'n cyflwyno cyfarpar ac yn cefnogi pobl gyda thechnoleg, cynhwysiant digidol, defnyddio'r rhyngrwyd, ac esblygu i'r dyfodol.

Ein cynllun gweithredu

Mae Cartrefi Conwy, yn arbennig eu helfen Creu Menter, wedi dechrau grŵp Conwy Digidol. Maent yn cynnal cyfarfodydd misol a sesiwn alw heibio wythnosol yn Llandudno gyda mewnbwn gan dîm Cymunedau Digidol Cymru.

Mae Cyswllt Conwy'n gobeithio comisiynu hyfforddiant ar Beryglon Ar-lein, sy'n anelu at gefnogi rhwydweithiau o bobl ag anableddau dysgu i gadw'n ddiogel ar-lein ac wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Y nod yw darparu sesiynau yng Nghonwy yn 2024 drwy gysylltu gyda'n tîm hyfforddiant mewnol.

Ail-lansio'r Gwasanaeth Cynnydd

Nodwyd yn adroddiad y llynedd y byddwn yn ail-lansio'r Gwasanaeth Cynnydd i bobl ag anableddau. Lansiwyd y gwasanaeth yn wreiddiol yn 2017, gyda chyllid gan y Gronfa Gofal Integredig, fodd bynnag, daethpwyd â'r gwasanaeth i ben yn ystod y pandemig Covid-19. Roedd angen y lleoliad a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer asesiadau at ddibenion eraill, ac roedd heriau hefyd ynghlwm â'r gwasanaeth blaenorol yr oeddem yn awyddus i fynd i'r afael â hwy.

Mae'r gwasanaeth wedi'i anelu at unigolion sydd ag anabledd sy'n cael effaith sylweddol ar eu gallu i fyw'n annibynnol ac ymgymryd â thasgau bob dydd, ac sy'n awyddus i ymgysylltu ag asesiad a chynllun gofal sy'n datblygu eu hannibyniaeth i gwblhau tasgau penodol. Mae'r gwasanaeth yn symud ymaith o ddibyniaeth ar gefnogaeth hirdymor, ac yn hytrach yn canolbwyntio ar ymyraethau tymor byr, cadw at gynllun manwl i gefnogi unigolion i wneud y mwyaf o'u cryfderau a datblygu sgiliau newydd i gyflawni eu canlyniadau cytunedig. Mae swydd Therapydd Galwedigaethol wedi cael ei chyflwyno i helpu gydag asesiadau a hwyluso'r gwaith o fonitro cynnydd ar ôl asesiad.

Mae lleoliad wedi'i nodi lle gellir cwblhau asesiadau gweithredol o weithgareddau sy'n gysylltiedig â bywyd bob dydd mewn amgylchedd priodol, a lle mae offer a chyfarpar arbenigol ar gael i'w defnyddio fel rhan o'r broses asesu a chynllunio gofal. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r gegin hygyrch i bobl ag anableddau, ac mae socedi trydan ychwanegol wedi cael eu gosod i gyflawni'r nod o ddarparu 'tŷ technoleg' yn y lleoliad hefyd. Cwblhawyd y gwaith ym mis Tachwedd 2023 gyda chymorth cyllid Tai gyda Gofal, ac rydym ar hyn o bryd yn cynllunio'r gwaith o osod technoleg gynorthwyol at ddibenion arddangos ac asesu.

Gyda chymaint o bobl yn y gymdeithas fodern yn defnyddio technoleg gynorthwyol megis Alexa a Siri, rydym yn awyddus i greu gofod sy'n galluogi unigolion anabl i weld sut gallai technoleg sydd ar gael ar y farchnad gyffredinol wneud eu bywydau'n haws ac yn fwy diogel, heb fod angen i'r Awdurdod Lleol wario ar offer a thanysgrifiadau arbenigol. Mae nodweddion megis

negeseuon atgoffa'r calendr, clychau drws fideo a llenni awtomatig i gyd ar gael ar ddyfais Amazon, ac fe allant fod yn ddefnyddiol iawn. Byddai cyfarpar unigryw'n cael eu hystyried fesul achos, yn unol â'r angen asesedig.

Bydd arddangos y defnydd o offer a thechnoleg fodern yn helpu i hysbysu dinasyddion a gweithwyr proffesiynol am ffyrdd arloesol o fodloni canlyniadau, goresgyn rhwystrau a rheoli risgiau, mewn ffordd sy'n manteisio i'r eithaf ar gryfderau unigolion, sy'n gostwng y ddibyniaeth ar gefnogaeth anffurfiol a chefnogaeth â thâl. Lle bo angen cefnogaeth hirdymor, bydd yr asesiadau'n helpu i hyrwyddo'r gefnogaeth ar y lefel gywir.

Er nad yw'r ganolfan asesu ar gael i ni, mae'r gwasanaeth wedi parhau, gyda'r Therapydd Galwedigaethol Cynorthwyol yn asesu a chefnogi pobl yn y gymuned, i gyflawni canlyniadau cadarnhaol iawn. Ers ail-lansio ym mis Ebrill 2023, mae deng dinesydd wedi derbyn neu yn y broses o dderbyn asesiad a chefnogaeth gan y Gwasanaeth Cynnydd ar hyn o bryd. Cefnogwyd un ddynes yn ei chwedegau hwyr i ddefnyddio ffôn clyfar am y tro cyntaf, sydd wedi ei galluogi i gael mynediad at y gymuned mewn modd mwy annibynnol yn sgil y rheolaeth risg y mae'r ddyfais yn ei darparu, gan gynnwys galwad brys un botwm. Mae hi bellach yn gallu gwneud galwadau fideo i'w ffrindiau a'i theulu'n annibynnol, a threfnu ei gweithgareddau dyddiol. Mae hyn wedi gwella ei lles a'i hyder, heb gynyddu ei phecyn gofal. Rhagwelir y bydd y sgiliau y mae hi wedi'u datblygu yn ei galluogi i aros yn fwy annibynnol yn hirach, ac yn lleihau'r straen ar ei Gofalwr.

Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r llynedd

Rydym wedi llwyddo i integreiddio swydd Therapydd Galwedigaethol i'r prosiect, drwy gyllid y Gronfa Integreiddio Ranbarthol. Tua diwedd y flwyddyn ariannol, fe wnaethom hefyd ddefnyddio rhywfaint o'r oriau nas defnyddiwyd i gyflogi un o'n Cydlynwyr o fewn y Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol i gynyddu nifer y bobl y gallwn eu cefnogi dan y Gwasanaeth Cynnydd ymhellach.

Sut y gallwn wella

Mae'r gwaith hyd yma'n dangos, er ein bod yn annog unigolion i gymryd risgiau cadarnhaol a datblygu eu sgiliau, nid ydynt bob amser yn gallu cyflawni eu nodau gwreiddiol, sy'n eu llethu. Yn yr achosion hyn, rydym wedi ymdrin â'r achosion ac wedi dadansoddi'r hyn a ddigwyddodd i lywio ein hargymhellion terfynol. Er gwaethaf y rhwystrau, mae'r unigolion fel arfer yn fwy annibynnol ac yn cyflawni canlyniadau lles gwell ers dechrau derbyn y gefnogaeth. Weithiau, yn yr un modd â'r enghraifft uchod, mae pobl yn datblygu sgiliau a gwybodaeth nad oeddent wedi bwriadu eu cyflawni ar y dechrau, ac yn elwa o'r sgiliau newydd a'r cyflawniadau nad oedd ganddynt gynt. O ganlyniad, er ein bod yn ceisio cael canlyniadau i anelu atynt, rydym yn deall y pwysigrwydd o hyblygrwydd a meddwl agored, yn ddibynnol ar sylwadau a sgyrsiau yn ystod y sesiynau.

Er mai ein prif ffocws yw cefnogi unigolion i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol, rydym yn cydnabod y byddai ymarferwyr ac uwch reolwyr eraill yn elwa o wasanaeth sy'n gallu cwblhau asesiadau Therapi Galwedigaethol ar unigolion; bydd y rhain yn ystyried yr amgylchedd a'r gefnogaeth a oedd ar waith yn flaenorol, i gefnogi gweithwyr cymdeithasol ac eraill i nodi potensial unigolion ac argymell y lefel gywir o ofal a chefnogaeth. Rydym wedi defnyddio rhywfaint o'r capasiti o fewn y tîm Therapi Galwedigaethol i helpu gyda hyn dan gylch gwaith y Gwasanaeth Cynnydd lle bo angen.

Ein cynllun gweithredu

Y prif ddatblygiad ar gyfer y prosiect eleni fydd gosod technoleg gynorthwyol yn y ganolfan asesu a'r tŷ technoleg er mwyn eu defnyddio i asesu ac arddangos buddion i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol. Gobeithir y byddant yn croesawu technoleg hygyrch a fforddiadwy fel rhan o'u hasesiadau, er mwyn gwella lles a rheoli risgiau yn y cartref ac yn y gymuned. Yn ogystal â hyrwyddo annibyniaeth, mae technoleg gynorthwyol yn lleihau dibyniaeth ar gefnogaeth â thâl ar adeg lle mae pwysau ar argaeledd ac adnoddau'n ein hannog ni i leihau dibyniaeth ar wasanaethau a gomisiynir lle bo hynny'n ddiogel ac yn bosibl.

Coleg Adfer Iechyd Meddwl

Fe wnaeth symptomau pobl a oedd yn dioddef â phroblemau iechyd meddwl lefel isel megis gorbryder ac iselder yn y gymuned cyn y pandemig Covid-19 waethygu o ganlyniad i'r cyfnod clo a'r ynysu canlyniadol. Mae hyn wedi cynyddu'r galw am wasanaethau cymorth, megis y Tîm Lles Meddyliol, i helpu pobl â chelcio, hunan-esgeulustod, straen rhieni/gofalwyr, yn arbennig y rheiny sy'n byw â phlant sy'n oedolion â chymhlethdodau niwro-amrywiol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon, mae'r tîm wedi canolbwyntio ar fesurau atal, megis cyflwyno Coleg Adfer, y soniom amdanynt mewn adroddiadau blaenorol. Pwrpas y Coleg Adfer yw cefnogi rheolaeth pobl o'u problemau iechyd meddwl drwy ddysgu ac addysgu, yn ogystal â chynyddu rhwydweithiau cymdeithasol pobl, eu cysylltiad â'r gymuned, a chynnig cyfleoedd i ddatblygu gwytnwch a byw bywyd ystyrlon. Ein gweledigaeth yw:

> Coleg adfer wedi'i greu ar y cyd ar gyfer sir Conwy, sy'n galluogi pobl i adfer gobaith, meithrin gwytnwch, cysylltu a chreu cymuned, a chynnal eu hunain i gael bywyd bodlon a bwriadol.

Fe wnaeth cwblhau prosiect Cronfa Adfywio Cymunedol y DU ym mis Rhagfyr 2022 i ystyried cyd-gynhyrchu roi glasbrint i ni ddatblygu'r cwrs a'r gweithgareddau yr oedd defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo fyddai'n cefnogi eu hiechyd meddwl fwyaf.

Rydym yn canolbwyntio ar dri maes datblygu:

- **Lleoliad:** drwy gydweithio â'r Gwasanaeth Diwylliant a Gwybodaeth, rydym wedi gallu datblygu'r llawr gyntaf yn llyfrgell Bae Colwyn i ddarparu lleoliad cychwynnol ar gyfer y Coleg Adfer. Mae'r lleoliad hwn yn cynnig amgylchedd diogel, therapiwtig a heb stigma lle gallwn ddarparu gweithgareddau a chyrsiau sy'n hanfodol i'r dull Coleg Adfer.
- **Gweithgareddau:** mae gweithgareddau celf a chrefft yn hynod boblogaidd, ac mae pobl wedi nodi eu bod yn gefnogol ac yn therapiwtig. Rydym felly wedi comisiynu sesiynau Dyddlyfru Creadigol sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer ymlacio, ymwybyddiaeth ofalgar, hunanfynegiant, prosesu a hunan-ddarganfod. Rydym yn anelu at gynyddu nifer y gweithgareddau tebyg y gallwn gyfeirio pobl atynt drwy ddatblygu perthnasoedd â grwpiau cymunedol a sefydliadau trydydd sector ymhellach. Rydym hefyd wedi cynnig grwpiau cerdded a rhaglen benodol ar gyfer rheoli gorbryder.

- **Cyrsiau:** rydym wedi gweithio'n agos gyda Mind Conwy drwy gydol y prosiect UKCRF ac maent bellach mewn sefyllfa i gynnig rhaglen dreigl o gyrsiau pum wythnos i gefnogi pobl gyda'u hiechyd meddwl.

Sut y gallwn wella

Yn seiliedig ar yr adborth yr ydym wedi'i dderbyn am y Coleg Adfer, mae arnom ni angen sicrhau fod ein cynnig parhaus yn ddarpariaeth gyflawn, ddi-dor a bywiog, yn hytrach na'r trefniadau tameidiog sydd gennym ar waith ar hyn o bryd. Bydd hyn yn golygu datblygu perthnasoedd effeithiol gydag ystod o bartneriaid, yn arbennig y maes Iechyd, y trydydd sector a grwpiau cymunedol, er mwyn cynnig cyfle cyfartal ar draws y sir, prosesau cadarn a bwriad comisiynu clir.

Ein cynllun gweithredu

- Sefydlu'r rhaglen gychwynnol o gyrsiau gyda Mind Conwy.
- Sefydlu fforwm gynllunio i nodi cyfleoedd ar gyfer twf a dyfeisio cynllun gweithredu i'w cyflawni nhw, gan gynnwys cyllid cynaliadwy i'r dyfodol.
- Parhau i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Diwylliant a Gwybodaeth ar brosiectau penodol, megis Taith ac O Dan y Tonnau

Tîm Derbyn Therapi Galwedigaethol a Theleofal

Mewn adroddiadau blaenorol, rydym wedi nodi ein bwriad i integreiddio ein timau Derbyn Therapi Galwedigaethol a Theleofal. Mae'r pandemig Covid-19, newidiadau i arferion, newidiadau i staff o ganlyniad i hynny, ac oedi o ran recriwtio wedi oedi'r broses o integreiddio'r timau.

Dechreuwyd proses anffurfiol i integreiddio swyddi Therapyddion Galwedigaethol Cynorthwyol ar draws y timau Derbyn Therapi Galwedigaethol a Theleofal yn 2020, cyn symud ymlaen mewn modd mwy ffurfiol yn 2023. Y nod yw i'r tri aelod o staff fedru darparu asesiadau amgylcheddol, darparu cyngor, cyfeirio a gwneud argymhellion o ran cyfarpar cymunedol a dyfeisiau Teleofal. Bydd hyn yn ymestyn sylfaen wybodaeth y Therapyddion Galwedigaethol Cynorthwyol, gan wella cadernid y tîm; sy'n hanfodol ar gyfer cyfnodau o absenoldebau wedi a heb eu cynllunio.

Er ein bod wedi wynebu problemau staffio am y mwyafrif o'r flwyddyn, rydym wedi llwyddo i recriwtio pobl â sgiliau allweddol ar gyfer y rôl sy'n golygu bod y broses gynefino a hyfforddi staff newydd wedi bod yn gynt na'r disgwyl.

Mae'r tîm wedi parhau i berfformio i lefel uchel, er enghraifft, dros y chwe mis diwethaf, maent wedi derbyn 68% o'r atgyfeiriadau Therapi Galwedigaethol a sgriniwyd gan y tîm, gydag ond 16% yn cael eu trosglwyddo i dimau mwy hirdymor o fewn yr Awdurdod.

Dyma ddywedodd rhai o'n defnyddwyr gwasanaeth:

> Rydych wedi rhoi'r gobaith i ni gynnal ein annibyniaeth gartref ac aros yn ddiogel

> Diolch i chi gyd am eich cymorth caredig, roeddech yn wych

> Roedd X yn gyfeillgar, cwrtais a phroffesiynol iawn

Sut y gallwn wella

Mae'r gwelliannau gofynnol, yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd, yn cynnwys:

- Gwella gwybodaeth staff am gyfarpar cymunedol, mân addasiadau a chyfarpar Teleofal.
- Gwella gwybodaeth staff a'u gallu i ddarparu canllawiau am ddyfeisiau digidol yn y cartref.
- Cyfathrebu'n glir â chwsmeriaid Teleofal nad ydynt yn barod am y newid digidol yn 2025.
- Diffyg proses electronig ar gyfer y tîm gweinyddol Teleofal i gasglu adborth er mwyn sicrhau fod dinasyddion, darparwyr a budd-ddeiliaid eraill yn gallu llywio gwelliant parhaus.

Ein cynllun gweithredu

Datblygiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant llawn o ran cyfarpar cymunedol a mân addasiadau.
- Bydd pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant pellach ar gyfarpar Teleofal arbenigol ac yn darparu cyngor a chanllawiau mewn perthynas â dyfeisiau digidol yn y cartref.
- Adolygu'r offer Teleofal arbenigol sydd ar gael, er enghraifft, dyfeisiau epilepsi (gan gynnwys mewnbwn gan weithwyr proffesiynol Iechyd).
- Canolbwyntio ar asesu cyfarpar Teleofal arbenigol a darparu cyngor a chanllawiau mewn perthynas â dyfeisiau digidol yn y cartref (gan gynnwys gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaeth Anableddau yn y fflat asesu).

- Parhau i gyflwyno dyfeisiau digidol gan sicrhau fod bob cwsmer yn barod ar gyfer 2025.
- Datblygu prosesau adborth rheolaidd i sicrhau fod dinasyddion, darparwyr a budd-ddeiliaid eraill yn gallu llywio gwelliant parhaus; gan ddefnyddio arolwg awtomatig yn ddelfrydol, yn hytrach na dibynnu ar alwadau ffôn a'r post.

Un Pwynt Mynediad a Hawliau Lles Conwy

Mae'r rheolwr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi rheoli'r ddau dîm am y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cael cyfle y tro hwn i arsylwi gwaith y ddau dîm ac ystyried y ffordd orau i'w cefnogi i'r dyfodol.

Mae ail-strwythuriad bach i wella gwytnwch ac ymestyn y ddarpariaeth gwasanaeth yn y ddau dîm yn mynd drwy broses gymeradwyo ar hyn o bryd. Cynigir cael arweinydd tîm ym mhob tîm, gydag un rheolwr trosfwaol. Bydd hyn yn sicrhau'r buddion canlynol:

- Rheolwr cyffredinol dynodedig ar gyfer gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth a rheoli pobl.
- Swyddogaethau goruchwylio dynodedig ar gyfer bob tîm i gefnogi gweithrediad dyddiol y timau.
- System gymorth gryfach ar gyfer y ddau dîm.
- Gwella gwydnwch yn ystod cyfnodau o absenoldeb wedi a heb eu cynllunio.

Dyma rywfaint o ffigurau Un Pwynt Mynediad:

Mae'r metrigau'n dangos y nifer a'r galw am wybodaeth, cyngor a chymorth. Mae hyn yn galluogi mecanwaith syml i awdurdodau lleol i fonitro nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

4,986 - Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ymwneud ag oedolion yn ystod y flwyddyn

Derbyniwyd y mwyafrif o gysylltiadau ar gyfer oedolion gan: Iechyd, yr unigolion eu hunain a pherthnasau.

Sut y gallwn wella

Mae'r gwelliannau gofynnol, yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd, yn cynnwys:

- Strwythur reoli aneglur gyda staff rheng flaen yn uwchgyfeirio i staff uwch heb rôl ganolraddol; mae Rheolwr yr Adain wedi bod yn rheoli'r ddau dîm ers dros 12 mis sydd wedi oedi tasgau eraill.
- Staff yn elwa o adolygu prosesau, casglu data a dulliau casglu i sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl.
- Diffyg proses ar gyfer casglu adborth er mwyn sicrhau fod dinasyddion, darparwyr a budd-ddeiliaid eraill yn gallu llywio gwelliant parhaus.

Ein cynllun gweithredu

Bydd y datblygiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf fel a ganlyn:

- Strwythur reoli well gyda chefnogaeth reoli arbennig ar gyfer y timau hyn.
- Adolygu prosesau, casglu data a dulliau casglu i sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl.
- Datblygu prosesau adborth rheolaidd i sicrhau fod dinasyddion, darparwyr a budd-ddeiliaid eraill yn gallu llywio gwelliant parhaus; gan ddefnyddio arolwg awtomatig ar ddiwedd galwad yn ddelfrydol, yn hytrach na dibynnu ar alwadau ffôn a'r post.

Datblygu a darparu llety o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc drwy drawsnewid lleoliadau preswyl a mewnol lleol.

Mae'r Rhaglen ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl Plant bellach ar waith ac yn ymateb i strategaeth leoliadau Conwy 2022-2027 a'r pwysau sylweddol ar gyllideb Lleoliadau Annibynnol, a rhaglen Dileu Elw Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddileu elw o wasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal erbyn 2027.



Dyma rai ffigurau Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae'r mesurau Plant sy'n Derbyn Gofal hyn yn ein galluogi i olrhain nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ffurfiol gan yr awdurdod lleol. Rydym hefyd yn gallu monitro'r niferoedd sydd wedi'u lleoli o fewn a thu allan i'r sir.

208 - Cyfanswm y Plant a oedd yn Derbyn Gofal ar 31 Mawrth

43 - Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi cael eu lleoli yng Nghymru, ond tu allan i'r Sir ar 31 Mawrth

40 - Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cael eu lleoli tu allan i Gymru ar 31 Mawrth

Nodom y llynedd bod y rhaglen hon wedi cael ei chymeradwyo gan ein Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a'r Cabinet.

Mae cartrefi gofal a lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni pan nad ydynt yn gallu byw gyda'u teulu eu hunain. Maent yn lle i blant a phobl ifanc dderbyn cefnogaeth i ddatblygu a thyfu. Ein nod yw cynyddu nifer y lleoliadau lleol, i alluogi plant a phobl ifanc sydd tu allan i'r sir ar hyn o bryd i ddychwelyd i'r ardal, neu'n nes at adref, a'u galluogi i gadw eu gwreiddiau'n lleol, eu hysgolion, eu diwylliant, eu ffrindiau a'u rhwydweithiau cefnogi.

Mae Arweinydd Rhaglen Drawsnewid dynodedig wedi cael ei recriwtio eleni sydd wedi arwain y grŵp darparu trawsnewid i ddatblygu cynllun amlinellol deng mlynedd i sicrhau 18 uned/gwely ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roedd y cynllun yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd drwy ymgynghori â phartneriaid mewnol ac allanol megis Gofal Cymdeithasol ac Addysg, y pum Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, y 4C, Awdurdodau Lleol eraill a phlant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o dderbyn gofal.

Mae'r grŵp darparu wedi blaenoriaethu cartref i un unigolyn ifanc sy'n byw ar ei ben ei hun gyda chymorth ac wedi creu manyleb ar gyfer y cartref sy'n bodloni meini prawf Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer cartrefi plant. Mae landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'i nodi i weithio mewn partneriaeth â ni a bydd trafodaethau'n dechrau ym mis Ionawr 2024 i gynllunio a chyfrifo costau'r prosiect.

Mae tri chartref arall yn cael eu datblygu hefyd: Bwythyn y Ddôl, Glan yr Afon a Sylva Gardens.

Canolfan Asesu Plant Bwthyn y Ddôl

Mae Bwthyn y Ddôl yn gydweithrediad rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd y ganolfan asesu'n darparu llety dros dro i bedwar o bobl ifanc gyda'r nod o'u hail-uno gyda'u teuluoedd. Os nad yw hynny'n bosibl, yr opsiynau amgen yw symud i leoliad mwy hirdymor mewn cartref gofal maeth neu ofal preswyl. Bydd y ganolfan yn darparu dwy uned ar gyfer lleoliadau brys.

Dyrannwyd y gwaith adeiladu i Wynne Construction a dechreuodd y gwaith ym mis Mai 2023, gyda chyfnod adeiladu disgwyliedig o 70 wythnos. Mae'r tri adeilad sy'n ffurfio cynllun Cam 2 BYD bellach wedi cael eu hadeiladu ac mae'r gwaith mewnol yn dechrau. Mae gwaith yn datblygu'n gyflym ac mae'r contractwyr yn hyderus y byddant yn gallu trosglwyddo'r safle i'r rhaglen.

Mae pob aelod o staff preswyl a gweinyddol bellach wedi dechrau yn eu swyddi ac yn hollol weithredol. Mae'r Tîm Amlddisgyblaeth hefyd wedi dechrau yn eu swyddi. Mae pob aelod o staff yn gweithio o Ingleside (Cam 1 BYD) ar hyn o bryd, adeilad a gaiff ei brydlesu nes bydd Cam 2 BYD yn barod. Mae'r dull gofal a ddarperir yn ddull systemig teuluol yn seiliedig ar y Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Integredig, sy'n cynnwys gweithio mewn modd dwys gyda phob aelod o'r teulu ac mewn rhai amgylchiadau, teulu estynedig. Mae'r dull yn sicrhau fod y tîm yn cydweithio â'r teulu a gweithwyr proffesiynol eraill yn eu bywydau i sicrhau newid hirdymor.

Ailddatblygu Cartref Preswyl Plant Glan yr Afon

Bydd Cartref Plant Glan yr Afon yn darparu llety hirdymor i hyd at bedwar plentyn sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Mae cyllid wedi'i sicrhau ac mae disgwyl i'r contractwyr, MPH Construction, ddechrau ar y safle ym mis Ionawr 2024. Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu'n para oddeutu 52 wythnos. Bydd gwaith yn dechrau i gwblhau'r strwythur staffio a chynllunio gweithgareddau recriwtio er mwyn cofrestru'r cartref gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn llwyddiannus. Byddwn yn barod i dderbyn pobl ifanc i'r cartref ddechrau 2025.

Datblygiad Sylva Gardens

Datblygiad preswyl a fydd yn darparu tri rhandy dwy ystafell wely i dri phlentyn ag anableddau dysgu fydd Sylva Gardens. Mae'r bobl ifanc hefyd yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol ac yn preswylio mewn lleoliadau annibynnol y tu allan i'r sir ar hyn o bryd, ymhell o'u teuluoedd a'u cymunedau.

Mae ein partner a'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, First Choice Housing Association, wedi sicrhau cyllid ar gyfer yr eiddo yn seiliedig ar amcangyfrifon cyn tendro a gasglwyd yn 2022. O ganlyniad i'r cynnydd yng nghostau deunyddiau, gwasanaethau a newidiadau i fanylebau, bydd FCHA yn cyflwyno amrywiad i'r cais cychwynnol i Gronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru ddechrau 2024. Dechreuodd y contractwr weithio ar y safle ym mis Hydref 2023 a disgwylir y bydd y datblygiad wedi'i gwblhau erbyn yr haf 2024. Mae'r tîm prosiect yn dechrau gweithgareddau recriwtio er mwyn i'r cartref gael cofrestriad AGC a bod wedi'i staffio'n llawn cyn i'r bobl ifanc symud i mewn o fis Medi 2024.

Ein cynllun gweithredu

Camau nesaf y rhaglen yw:

- Ymgynghori â darparwyr annibynnol i drafod eu dulliau busnes a'u cefnogi gydag unrhyw gynlluniau i drawsnewid i ddarpariaeth nid-er-elw.
- Gweithio'n agos â FCHA i nodi, caffael a datblygu llety ar gyfer un unigolyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod ac yn byw tu allan i'r sir ar hyn o bryd. Byddwn yn cynnwys yr unigolyn yn y broses o greu eu cartref newydd ac yn eu cefnogi i ymgartrefu cyn diwedd

y flwyddyn. Byddwn yn darparu gofal a chefnogaeth i'r unigolyn ifanc a'u helpu i gyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol.
- Datblygu cynllun recriwtio, cynefino a hyfforddi i sicrhau fod Rheolwyr Cofrestredig a gweithwyr cymorth yn cael eu recriwtio'n gyflym ac yn effeithiol ar gyfer bob datblygiad.

Strategaeth llety ar gyfer oedolion anabl

Eleni, mae ein Gwasanaeth Anableddau wedi recriwtio Swyddog Datblygu Gwasanaeth a fydd yn creu strategaeth llety gyfredol. Ar hyn o bryd, mae mynediad at lety'n cael ei reoli'n dda ac yn sicrhau fod pob unigolyn yn derbyn rhywle priodol i fyw, yn unol â'u hanghenion. Mae ein dull yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn onest am yr opsiynau sydd ar gael.

Ein cynllun gweithredu

Bydd y strategaeth llety'n amlinellu ac yn cefnogi ffocws cryf ar ddarparu llety priodol yn unol ag anghenion unigolion, ac yn sicrhau fod lles yn cael ei ystyried drwy gydol y broses.

Rydym yn bwriadu gweithredu strategaeth gadarn ac ymarferol, sy'n cynnwys yr holl fathau o lety sydd ar gael a'r rhesymau dros yr angen. Byddwn yn ymgynghori â grwpiau a effeithir, staff Conwy, gofalwyr, sefydliadau trydydd sector, ac yn gofyn am adborth y cyhoedd ar y ddogfen a fydd yn cynnwys y cyfnod rhwng 2024 a 2029.

Sicrhau fod pobl hŷn yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty'n ddiogel ac yn amserol

Datblygwyd y dull Rhyddhau i Adfer Yna Asesu (D2RA) gan Lywodraeth Cymru a GIG Cymru i fodloni anghenion y dirwedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n cynnig amrywiaeth o lwybrau i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl sy'n derbyn ein gwasanaethau pan maent yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty, ynghyd â gwrando ac ymateb i'r pethau sy'n bwysig iddynt.

Mae D2RA yn ddull sy'n canolbwyntio ar adfer gydag ethos 'Cartref yn Gyntaf' yn ogystal â defnyddio adnoddau prin yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon:

- Mae'n canolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig' i'r unigolyn, cefnogi eu hadferiad ac annog annibyniaeth.
- Mae'n lleihau risgiau o heintiau mewn ysbytai ac yn osgoi dirywiadau
- Mae'n darparu trosglwyddiad di-dor i gefnogaeth fwy hirdymor yn y gymuned lle bo angen, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau a lleihau gordanysgrifiadau gwasanaethau statudol.

Gan dderbyn yr angen am broses i gefnogi cleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, rydym wedi datblygu a gweithredu cynllun ar y cyd i hwyluso'r broses o drosglwyddo pobl o'r ysbyty i gam nesaf eu gofal yn ddiogel ac yn amserol gyda chyn lleied o oedi â phosibl. Mae'n bosibl y bydd y cam nesaf o ofal:

- Yn eu cartref eu hunan
- Mewn ysbyty arall ar gyfer adsefydlu pellach
- Yn broses ail-alluogi
- Mewn lleoliad cartref gofal newydd neu bresennol

Yn unol â'r egwyddor 'Cartref yn Gyntaf', ein prif nod wrth gynllunio i ryddhau unigolyn o'r ysbyty yw eu galluogi i ddychwelyd i'w cartref lle bynnag y bo hynny'n ddiogel (gall eu cartref eu hunan gyfeirio at gartref gofal os mai yn fanno y maen nhw'n byw).

Mae llwybrau adref o'r ysbyty wedi cael eu cyflwyno, ynghyd â chyfrifoldebau ar gyfer y gwahanol bartneriaid sydd ynghlwm â'r broses ryddhau o'r ysbyty. Mae'r camau ar gyfer Conwy fel partner Awdurdod Lleol yn cynnwys:

- Cytuno ar un pwynt cyswllt ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd wrth gydlynu trefniadau rhyddhau cleifion sy'n ymofyn cefnogaeth Gofal Cymdeithasol.
- Lleoli staff Gofal Cymdeithasol o ddisgyblaethau amrywiol ar draws ysbytai a lleoliadau cymunedol mewn modd hyblyg i gefnogi cleifion ar eu llwybrau D2RA.
- Gweithio fel aelod gweithredol o'r tîm amlasiantaeth, darparu cefnogaeth gwaith cymdeithasol briodol, trefnu gwasanaethau, mynychu a chynorthwyo cyfarfodydd a gaiff eu harwain gan y tîm nyrsio, a chwblhau camau a nodwyd yn y cyfarfodydd.

Mae pob Bwrdd Iechyd yn adrodd i Lywodraeth Cymru'n fisol gan arwain at oedi o ran trosglwyddo data gofal. Mae ffigurau a gasglwyd gyda phartneriaid Awdurdod Lleol yn ein galluogi i fonitro unrhyw oedi, eu hyd a'r rhesymau drostynt a chefnogi sefydliadau a phartneriaid y GIG i flaenoriaethu camau i leihau oedi mewn trosglwyddiadau gofal.

Mae'r ffigurau sydd wedi'u nodi isod ar gyfer mis Medi 2023, mis Rhagfyr 2023 a mis Mawrth 2024 yn ymwneud â phobl sy'n byw yng Nghonwy a oedd yn cael eu 'hoptimeiddio'n glinigol', sef y cam lle gellir parhau i ddarparu gofal ac asesiadau yn ddiogel mewn lleoliad nad yw'n acíwt. Maent yn cynnwys dau ysbyty acíwt, pum ysbyty cymunedol, a dwy uned iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol.

	Cyfanswm yr oediadau	Aros am asesiad Iechyd	Aros am asesiad neu gyfarpar therapi	Aros am asesiad cartref gofal neu breswyl
Medi 2023	70	13	10	12
Rhagfyr 2023	42	11	1	4
Mawrth 2024	46	1	7	1

Yn draddodiadol, mae Gofal Cymdeithasol wedi'i chrybwyll fel yr adran sy'n gyfrifol am yr oedi o ran trosglwyddo pobl o'r ysbyty i'w cartrefi, fodd bynnag, mae'r ffigurau isod yn dangos nad yw hynny'n wir.

	Cyfanswm yr oediadau	Aros am ddyraniad Gweithiwr Cymdeithasol	Aros am wasanaeth ailalluogi gartref	Aros am becyn gofal cartref newydd
Medi 2023	70	1	1	3
Rhagfyr 2023	42	2	0	6
Mawrth 2024	46	0	0	1

Sut y gallwn wella

Ar ddiwrnod y cyfrifiad ym mis Medi, nodwyd yr oedi o ran cwblhau asesiadau ar y cyd, fel arfer drwy gyfarfod tîm amlddisgyblaeth, fel maes i'w wella. Yng Nghonwy, roedd naw o bobl yn aros am asesiad ar y cyd i'w galluogi i gael eu rhyddhau. Gan weithio gyda'n cydweithwyr Iechyd, rydym wedi gallu lleihau'r ffigwr i bedwar o bobl ar ddiwrnod y cyfrifiad ym mis Rhagfyr. Mae'n anodd lleihau'r ffigwr i sero gan fod amser y cyfarfod yn dibynnu ar argaeledd y teulu, perthynas agosaf ac eiriolwyr. Daeth hyn i'r amlwg yn y cynnydd i saith o bobl ym mis Mawrth 2024.

Mae cyflwyniad y prosiect gwaith sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn Gwasanaethau Pobl Hŷn wedi bod yn fuddiol ar gyfer sefydlogi'r farchnad gofal cartref, ac o ganlyniad i hyn, mae pobl bellach yn trosglwyddo o'r Gwasanaeth Ailalluogi i ofal a chefnogaeth hirdymor yn brydlon. Dengys hyn yng nghyfrifiad mis Rhagfyr a mis Mawrth, lle'r oedd modd i unrhyw un sy'n barod i gael eu rhyddhau ac angen cyfnod o ailalluogi fynd adref yn ddi-oed.

Roedd ffigwr mis Rhagfyr ar gyfer y bobl a oedd yn aros am becyn gofal cartref wedi cynyddu i chwech, fodd bynnag, roedd y wybodaeth y tu ôl i'r data'n dangos fod gan dri o'r rheiny ddyddiadau rhyddhau wedi'u cynllunio o fewn ychydig o ddyddiau i'r cyfrifiad. Roedd y tri o bobl a oedd yn weddill yn aros am gyllid Iechyd neu asesiadau Iechyd. Erbyn mis Mawrth, drwy gryfhau'r farchnad gofal cartref ymhellach, dim ond un unigolyn yng Nghonwy brofodd oedi wrth aros i ddechrau pecyn gofal cartref.

Nodwyd, er bod y data wedi cael ei ddilysu gyda'n cydweithwyr Iechyd, nid yw'r adroddiadau terfynol i Lywodraeth Cymru bob amser yn adlewyrchu'r ffigurau a gytunwyd. Bydd hyn yn gwella yn y chwarter nesaf gan y bydd modd gweld y daenlen derfynol cyn iddi gael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Nid Conwy yw'r unig awdurdod sy'n wynebu'r broblem hon.

Ein cynllun gweithredu

Ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghonwy, byddwn yn casglu data pellach i ddangos y gwahaniaeth a wnaed gan D2RA a 'Cartref yn Gyntaf' drwy bennu p'un a ydym wedi gwrando ar beth sy'n bwysig iddynt. Rydym yn bwriadu casglu'r wybodaeth ganlynol o fis Ionawr 2024.

1. Nifer y bobl hŷn sy'n mynd yn syth o'r ysbyty i fyw mewn cartref preswyl neu nyrsio yn barhaol.
2. Nifer y bobl sy'n cael cynnig gwasanaethau ailalluogi gofal cartref gan nad oes arnynt angen cymorth pellach neu gan fod y lefel o gymorth sydd ei hangen arnynt wedi gostwng ar ôl tri mis.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid iechyd i sicrhau fod pobl yng Nghonwy'n cael eu rhyddhau i'w cartrefi'n brydlon yn yr ardaloedd lle gallwn hwyluso gwelliannau.

Tîm Ailalluogi

Mae'r Tîm Ailalluogi'n cefnogi unigolion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, eu hatal rhag gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty, ac yn cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain i adennill eu sgiliau yn dilyn salwch, codwm neu ddirywiad i'w lles.

Dyma rai ffigyrau ail-alluogi:

Mae'r mesurau hyn yn ein helpu i fonitro nifer y pecynnau ail-alluogi a gaiff eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a'r canlyniadau i'r unigolion hynny a gaiff eu cefnogi gan y gwasanaeth ail-alluogi.

748 - Nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn

75 - Pecynnau ailalluogi lle'r oedd yr angen am gymorth wedi lleihau
164 - Cynnal yr angen am yr un lefel o gymorth
311 - Lliniaru'r angen am gymorth
198 - Heb leihau, cynnal na liniaru'r angen am gymorth

Mae ein timau'n gweithio fel rhan o'r pum Tîm Adnoddau Cymunedol sydd wedi'u lleoli ar draws y sir ac wedi cael eu crybwyll mewn adroddiadau blaenorol, ac yn cynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion, Fferyllwyr, Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys Ardal, Meddygon Teulu, Nyrsys Seiciatrig a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r dull amlddisgyblaethol hwn yn sicrhau gwasanaeth di-dor, lle caiff pryderon eu cyfathrebu'n brydlon drwy gyfarfodydd wythnosol a lle caiff cefnogaeth ei chydlynu mewn modd cyfannol.

Mae'r Tîm Ailalluogi'n cynnwys gweithwyr a Swyddogion Ailalluogi medrus. Mae rhai aelodau staff yn gymwys i ddarparu cymhorthion a chyfarpar i helpu pobl yn eu cartrefi, megis tegelli tipio, teclynnau a chymhorthion digidol, neu anogaeth i atgoffa pobl am feddyginiaeth neu apwyntiadau. Bydd y tîm yn cyfeirio at asiantaethau eraill yn ôl yr angen, neu'n cysylltu â gweithwyr proffesiynol Iechyd yn ôl yr angen; pwrpas y gefnogaeth yw galluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi a lleihau'r tebygolrwydd o orfod mynd i'r ysbyty.

Yn ystod y cyfnod ailalluogi, bydd staff yn ceisio dod i adnabod unigolion yn dda, gan ystyried eu lles mewn modd cyfannol, ac yn cytuno ar ganlyniadau neu nodau newydd gyda nhw ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod yr ymyrraeth. Yn ddibynnol ar angen, bydd ein tîm yn cytuno ar y math o gefnogaeth ac amlder yr ymweliadau sydd eu hangen i gefnogi'r unigolyn i gyrraedd eu potensial, ac yna'n cytuno ar gynlluniau i'r dyfodol i'w cefnogi i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartref.

Mae cael staff medrus yn y tîm sy'n gallu helpu gyda thasgau Iechyd lefel isel dan oruchwyliaeth Nyrsys Ardal yn lleihau nifer y gweithwyr proffesiynol sydd angen ymweld â'r unigolyn a gefnogir, a hefyd yn cynyddu sgiliau staff a'r tîm ehangach.

Mae'r ffigurau'n siarad drostynt eu hunain.

- Eleni, nid oedd 61% o'r bobl a dderbyniodd gefnogaeth ailalluogi angen cefnogaeth barhaus mwyach, neu roeddent bellach yn derbyn lefel is o gefnogaeth.
- Ar ddiwedd bob ymyrraeth, mae unigolion yn cwblhau arolwg i'n cefnogi i wella'r gwasanaeth, dywedodd 98% bod eu disgwyliadau o'r gwasanaeth wedi cael eu bodloni.
- Ar ddiwedd cyfnod yr ymyrraeth, cytunodd 93% bod eu canlyniadau neu eu nodau wedi cael eu bodloni.

Roedd gan bob aelod o'r tîm a oedd yn cyrraedd yma bob diwrnod agwedd gadarnhaol a chyfeillgar. Rhoddwyd hyder, sicrwydd a chyngor da i'r claf a'r wraig, yn ogystal â chymorth a gofal ymarferol.

Roedd y gefnogaeth yn rhyddhad ar ôl bod yn yr ysbyty.

Rwyf bellach yn llawer mwy symudol a hyderus.

Astudiaeth Achos

Ar ôl gorfod mynd i'r ysbyty yn dilyn strôc, arhosodd Mrs J gyda'i mab wrth i addasiadau gael eu gwneud yn ei chartref, ac roedd hi'n derbyn dwy alwad y dydd gan y Tîm Ailalluogi. Unwaith y dychwelodd Mrs J gartref, cynyddwyd y gefnogaeth i bedair galwad y dydd i'w helpu i setlo'n ôl yn ei chartref. Fodd bynnag, o fewn dyddiau i ddychwelyd i'w chartref, roedd Mrs J yn ymddangos yn dawedog ac yn dawel, ac ar rai dyddiau, nid oedd arni hi eisiau ymolchi a newid. Roedd hi'n llai siaradus nag arfer ac nid oedd arni hi eisiau codi yn y bore i fwydo ei chi cyn i ni gyrraedd. Gan ein bod yn y broses o drosglwyddo Mrs J i dderbyn cefnogaeth hirdymor, trefnodd aelod o'r tîm ymweliad hirach yn y prynhawn i gael paned a sgwrs gyda hi. Yn ystod

yr ymweliad hwn, siaradodd Mrs J â'r gweithiwr cefnogi ac eglurodd, pan oedd hi'n byw gyda'i mab, roedd ganddi hi reswm i godi a newid bob dydd, ond ers iddi ddychwelyd i'w chartref, doedd hi ddim yn gweld neb oni bai am y gweithwyr cefnogi. Nid oedd ei ffrindiau wedi galw heibio ac roedd ei mab yn gweithio oriau hir ac felly'n methu ymweld â hi.

Awgrymodd y gweithiwr cefnogi alwad hwyrach y diwrnod canlynol er mwyn mynd allan am dro; roedd Mrs J wedi codi, ymolchi a newid, ac yn aros i ni gyrraedd. Wrth i Mrs J gerdded am dro gyda'r gweithiwr cefnogi, siaradodd gyda chymdogion a ffrindiau nad oedd hi wedi'u gweld ers cyn iddi gael y strôc; cawsant sgwrs a threfnwyd i gyfarfod yn ei gardd i ddal i fyny'n iawn. Ers yr awgrym cyntaf ynglŷn â mynd am dro, mae Mrs J wedi adennill ei hyder ac wedi ail-gysylltu â'i ffrindiau. Nid oedd arni hi angen unrhyw gefnogaeth barhaus gennym ni.

Cyfarpar arbenigol i ymdrin â chodymau

Mae pob tîm cymunedol wedi prynu cyfarpar codi ar gyfer codymau lle nad oes unrhyw anaf. Defnyddir y gadair Raizor ynghyd ag ap y GIG o'r enw iStumble er mwyn sicrhau diogelwch yr unigolyn sydd wedi cael codwm. Gall defnyddio'r gadair helpu'r unigolyn heb orfod galw am ambiwlans, i'w hatal rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn ddiangen yn ogystal ag atal anafiadau pellach yn sgil treulio cyfnod hir ar y llawr. Defnyddiwyd y gadair yn llwyddiannus 37 o weithiau yn 2023, gan arbed £367 o gostau ambiwlans ac Achosion Brys. Llwyddwyd i arbed o leiaf £10,000 yn 2023.

Cefnogaeth sydd ar gael

I atal unigolion rhag gorfod mynd i'r ysbyty a'u helpu i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, gall y tîm gefnogi pobl i adennill eu hiechyd, hyder a'u lles yn un o'r pum rhandy Gofal Ychwanegol ar draws y sir.

Mae Gweithwyr Cefnogi Dementia hefyd ar gael i helpu'r unigolyn a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Maent yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau fod yr unigolyn yn gallu byw'r bywyd gorau posibl gyda dementia, a'u bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau sy'n lleol iddyn nhw, megis grwpiau cymorth, cyfarfodydd, boreau coffi, ac ati. Mae Gweithwyr Cefnogi Dementia'n darparu gwybodaeth ymarferol werthfawr ac rydym yn ffodus iawn o gael mynediad at y Ganolfan Ddementia ym Mochdre, sy'n ffynhonnell wybodaeth, cefnogaeth ac yn rhywle i wneud ffrindiau newydd.

Sut y gallwn wella

- Mae recriwtio i'r timau wedi bod yn heriol, a thros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ceisio denu ymgeiswyr mewn sawl ffordd, megis mynychu ffeiriau recriwtio, hyrwyddo ein swyddi gwag mwn siopau lleol a gweithio gyda Thîm Marchnata Conwy i greu ffilm.
- Rydym wedi derbyn adborth drwy'r arolwg defnyddiwr gwasanaeth ynglŷn â'r diffyg dewis o ran amser ar gyfer cefnogaeth. Yn wahanol i gefnogaeth hirdymor, ni ddarperir y gwasanaeth ailalluogi yn ystod slotiau amser arbennig, oni bai bod angen gweinyddu meddyginiaeth ar amser penodol.
- Ar y cyfan, mae'r ymateb gan unigolion, eu teuluoedd a'r staff cysylltiedig wedi bod yn rhagorol. Mae'n amlwg fod pobl yn teimlo bod ganddynt lais, dewis a rheolaeth dros y ddarpariaeth gwasanaeth lle bynnag y bo modd.

Ein cynllun gweithredu

Rydym yn ymwybodol bod angen i ni ystyried dulliau recriwtio gwahanol i ddenu ymgeiswyr i'n swyddi gwag. Mae arnom ni angen cynnal y ddarpariaeth gwasanaeth a sicrhau fod y staff presennol yn cwblhau'r hyfforddiant a'r cyrsiau gloywi hanfodol i gynnal eu cofrestriad; mae hyn yn gallu bod yn heriol, ond mae staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael iddynt.

Mae Conwy a BIPBC yn darparu cyfleoedd hyfforddiant diddorol a gwerthfawr i staff, fodd bynnag, mae cael mynediad at hyfforddiant ar-lein wedi bod yn heriol i'r rheiny nad oes ganddynt fynediad at liniaduron. Gosodir cyfrifiaduron bwrdd gwaith yn y swyddfa, darperir llechi digidol, ac mae ein Tîm Datblygu a Dysgu'r Gweithlu'n gefnogol, ac felly'n sicrhau fod opsiynau cefnogaeth gwahanol ar gael.

Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r llynedd

Rydym wedi mynychu ffeiriau recriwtio i hyrwyddo gwasanaethau cymorth cymunedol fel opsiwn gyrfaol.

Taflu goleuni ar wasanaethau trydydd sector a rhai a ariennir gan grant

Yn yr adran hon, byddwn yn canolbwyntio ar rai o'r partneriaethau sy'n ein helpu i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ein cymunedau.

Mae'r rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg wedi'u llunio i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n rhoi pwyslais ar ymyrraeth gynnar, atal, a darparu cymorth i deuluoedd cyfan, yn hytrach nag unigolion. Mae gennym amrywiaeth o raglenni a phrosiectau sydd wedi'u comisiynu i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd yng Nghonwy. Caiff y gwasanaethau hyn a gomisiynir eu cynllunio'n ofalus, drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd, a defnyddio ein hasesiadau o anghenion lleol.

Cefnogaeth i Deuluoedd yng Nghanolfannau Teuluoedd Conwy

Mae gennym bump o Dimau Cefnogi Teuluoedd yng Nghonwy, a ariennir yn bennaf gan y grant Teuluoedd yn Gyntaf. Mae rhai o'r rhain wedi'u lleoli mewn Canolfannau Teulu ac yn cefnogi pobl drwy ddarparu:

- Mynediad at wybodaeth a chyngor
- Grwpiau sydd ar agor i bawb
- Grwpiau a chyrsiau wedi'u targedu, er enghraifft, cyrsiau rhianta
- Cefnogaeth un i un gan Weithiwr Teulu
- Mynediad at gefnogaeth arbenigol arall

Mae ein Canolfannau Teulu'n parhau i fod yn ganolbwynt prysur a hanfodol i deuluoedd Conwy, ac maent wedi derbyn 972 o atgyfeiriadau ar gyfer cefnogaeth eleni.

Uned Diogelwch Cam-drin Domestig

Rydym yn comisiynu'r Uned Diogelwch Cam-drin Domestig i weithio â theuluoedd sydd mewn perygl o gamdriniaeth ddomestig, neu sydd wedi profi hynny'n barod. Maent yn cael atgyfeiriadau gan staff ein Canolfan Deuluoedd pan fydd dioddefwr yn rhannu eu profiadau â

nhw (gyda'u caniatâd) a hefyd yn darparu sesiynau galw heibio yn y canolfannau i ddarparu man diogel i unigolion siarad gyda staff a chael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth.

Mae Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd yr Uned Diogelwch Trais Teuluol wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Canolfannau Teulu dros y flwyddyn ddiwethaf, ac wedi datblygu perthynas dda gyda'r ddau wasanaeth yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd. Mae staff Canolfannau Teulu'n parhau i ymgysylltu gyda'r Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd i gael cyngor a chanllawiau ar achosion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig ac maent yn parhau i weithio gyda'i gilydd ar achosion.

Mae'r Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd wedi parhau i gynnal sesiwn alw heibio wythnosol yng Nghanolfannau Teulu Llanrwst a Bae Colwyn ac yn cefnogi'r clwb babis a'r grŵp chwarae rhieni a phlant a gynhelir yn y canolfannau perthnasol. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Gweithwyr Cefnogi Teuluoedd ddod i adnabod y rhieni a'r plant mewn modd anffurfiol, a'u galluogi i adnabod unrhyw arwyddion o gam-drin domestig. Mae'r rhieni'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus yn siarad â'r Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd am gamdriniaeth ddomestig, ac yn teimlo llai o stigma. Mae Swyddog Trais Domestig yr Heddlu'n ymuno â'r Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd yn gyson a gall pobl mewn perygl dybryd gael mynediad at y gefnogaeth angenrheidiol yn y Ganolfan Deulu. Yng Nghanolfan Deulu Dinorben yn Abergele, mae'r Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd yn mynychu'r grŵp Paned a Sgwrs yn y bore. Er mwyn darparu ar gyfer yr ardaloedd yng ngorllewin ac ardaloedd gwledig y sir, cynhelir sesiynau galw heibio symudol mewn lleoliadau gwahanol.

Gweithiodd yr Uned â 258 o gleientiaid yn 2022-23, sy'n dangos mor bwysig yw'r gwaith hwn. Roedd hynny'n cynnwys 202 o sesiynau yn ein Canolfannau Teulu.

TAPE

Rydym yn helpu i ariannu clwb animeiddio a gynhelir gan TAPE, elusen yn Hen Golwyn. Mae'n glwb ieuenctid celf a chyfryngau a gynhelir ar ôl ysgol ar ddydd Mawrth i bobl ifanc rhwng 8 a 18 oed, gyda phwyslais ar gynhwysiant ac anableddau. Mae'n annog y cyfranogwyr i gymryd rhan a chydweithio ac mae hynny'n hybu cydnerthedd personol, sgiliau cymdeithasol, lleferydd ac iaith a pherthnasoedd teuluol. Mae'r clwb animeiddio'n mynd o nerth i nerth a'r aelodaeth wedi tyfu o bymtheg i ugain. Mae llawer o'r cyfranogwyr yn canolbwyntio ar eu prosiectau eu hunain ac yn ystyried dilyn cyrsiau creadigol mewn colegau a phrifysgolion. Bu cryn ddiddordeb yn y clwb, ac er bod y niferoedd wedi cynyddu, mae'r clwb yn parhau i ddarparu man tawel i'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan. Gallant ddewis gweithio ar eu prosiectau eu hunain neu ar y cyd gydag aelodau eraill. Mae'n amgylchedd cymdeithasol, ac mae'r grŵp rheolaidd yn groesawgar ac yn gefnogol iawn i unrhyw aelodau newydd.

Lucy Faithfull

Mae Sefydliad Lucy Faithfull yn darparu addysg a seminarau i godi ymwybyddiaeth rhieni / gofalwyr ynglŷn ag atal camdriniaeth rywiol, wedi'i dargedu'n benodol at anghenion rhieni sydd â phlant ag anableddau. Mae dychwelyd i sesiynau wyneb yn wyneb ar ôl y pandemig Covid-19 wedi bod yn anodd, ond mae LFF wedi gwneud eu gorau i ddarparu rhagor o sesiynau drwy'r Canolfannau Teulu.

Cafwyd ymateb rhagorol a dywedodd y rhieni nad oedd syniad ganddynt am rai o'r materion a godwyd cyn iddynt ddod i'r sesiynau. Soniodd y cyfranogwyr hefyd bod eu teuluoedd yn fwy cydnerth yn dilyn y sesiynau.

Cefnogodd Lucy Faithfull 106 o ddefnyddwyr gwasanaeth mewn 23 o sesiynau yn 2023.

Gwasanaeth Profedigaeth Cruse

Mae'r prosiect hwn yn darparu cefnogaeth mewn galar i bawb, gan gynnwys teuluoedd a phlant. Blaenoriaeth strategol y sefydliad yw cyrraedd hyd yn oed mwy o bobl sydd wedi cael profedigaeth a'u cefnogi i helpu eu hunain.

Mae Cruse yn darparu cefnogaeth ar draws ein Canolfannau Teulu drwy ddatblygu sesiynau grŵp am fagu plant a chefnogi plant a phobl ifanc, ynghyd ag ehangu gwasanaethau 1:1 cyfredol ar gyfer oedolion sydd â chyfrifoldebau teuluol, plant a phobl ifanc. Maent hefyd wedi datblygu cysylltiadau â thimau Canolfannau Teulu ac wedi sefydlu cysylltiadau gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio o fewn y canolfannau.

Mae'r teuluoedd wedi nodi bod eu lles emosiynol a meddyliol wedi gwella a bod eu teuluoedd yn fwy cydnerth o gael y gefnogaeth. Cefnogodd CRUSE 205 o deuluoedd dan y contract hwn yn 2023.

RELATE Cymru

Mae ein contract â Relate yn sicrhau darpariaeth gwasanaethau cwnsela am berthnasoedd am ddim i deuluoedd yng Nghonwy sy'n derbyn budd-daliadau neu'n ddi-waith. Bydd cwnselwyr arbenigol yn helpu pobl i fyfyrio ynghylch eu perthnasoedd eu hunain, boed hynny'n unigol, mewn pâr neu fel teulu.

Mae'r prosiect yn darparu sesiynau cwnsela gyda'r nod o gael ymarferydd Relate Cymru mewn lleoliad cymunedol am 3-4 awr yr wythnos, am 26 wythnos y flwyddyn.

Mae ein Canolfannau Teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill o fewn yr Awdurdod Lleol yn atgyfeirio teuluoedd at y gwasanaeth. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau at y gwasanaeth eleni yn dilyn problemau yn sgil y pandemig.

Cefnogodd RELATE 78 o ddefnyddwyr gwasanaeth mewn 360 o sesiynau yn 2023.

Ymddiriedolaeth y Gofalwyr

Rydym yn comisiynu Ymddiriedolaeth y Gofalwyr i gefnogi plant/pobl ifanc sydd ag anableddau a'u teuluoedd drwy gynnig gweithgareddau a grwpiau, i'r teulu cyfan ac mewn amgylcheddau ar wahân, i fodloni anghenion unigol aelodau'r teulu. Bu'r galw am y gwasanaeth yn cynyddu'n raddol gydol y flwyddyn ac mae mwy o deuluoedd yn holi am gefnogaeth.

Mae'r ymddiriedolaeth yn cefnogi plant a phobl ifanc ag anableddau, eu rhieni, eu brodyr a'u chwiorydd drwy gynnal grŵp gweithgareddau i blant rhwng 4 a 12 oed a sesiynau un i un. Darperir hyn mewn sesiynau wythnosol ac yn ôl y galw.

Mae'r sefydliad wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu gofal personol i blant a phobl ifanc ac felly mae'n gallu cynnig yr un gwasanaeth i blant ag anghenion iechyd difrifol; gall staff roi meddyginiaeth a darparu unrhyw ofal personol angenrheidiol. Mae llawer o'r plant sydd wedi cymryd rhan wedi ymddwyn yn eithaf heriol ac wedi methu â chael mynediad at wasanaethau eraill. Bu'r ymateb gan rieni'n gadarnhaol.

Amcanion y prosiect yw:

- Cefnogi'r uned deulu gyfan
- Atal y teulu rhag chwalu
- Cefnogi plant ag anghenion lefel uchel
- Integreiddio plant ag anableddau
- Canolbwyntio ar ymyrraeth ataliol neu gynnar a chynnig cyngor a chyfeirio at wasanaethau lle bo angen
- Cydraddoldeb gwasanaeth am ddim i deuluoedd
- Cyfeirio at asiantaethau eraill megis y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm o Amgylch y Teulu, a derbyn atgyfeiriadau
- Darparu o leiaf 60 grŵp cefnogi teuluoedd (pro rata ar gyfer cyfnod y cytundeb lefel gwasanaeth o 7 mis)
- Darparu o leiaf 800 awr o gefnogaeth un i un tymor byr drwy o leiaf 260 o sesiynau (pro-rata eto) i ategu at ac annog ymgysylltiad yn y gweithgareddau grŵp

Bu i Ymddiriedolaeth y Gofalwyr gefnogi 330 o ddefnyddwyr gwasanaeth mewn 80 sesiwn grŵp a 46 sesiwn un i un.

Portage

Defnyddiwn gyllid Dechrau'n Deg i gomisiynu Gwasanaeth Portage y Cyngor i weithio â theuluoedd Dechrau'n Deg yn eu cartrefi. Mae Portage yn ddull o gefnogi plant a theuluoedd y mae modd ei addasu a'i ddefnyddio'n effeithiol yn y cartref a lleoliadau addysg y blynyddoedd cynnar i'w helpu i ddatblygu ansawdd bywyd a chreu profiadau lle gallant ddysgu gyda'i gilydd, chwarae gyda'i gilydd, cyfranogi a bod yn rhan o'r gymuned. Mae'r Gweithiwr Portage Arbenigol, y mae'r grant hwn yn ei ariannu, yn fedrus wrth hybu cerrig milltir datblygiadol plant ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â rhoi'r grym i rieni ddal i addysgu sgiliau sylfaenol heb weithwyr proffesiynol drwy weithgareddau chwarae.

Bu'r tîm Portage yn cefnogi 22 o deuluoedd Dechrau'n Deg yn 2022-23.

Home-Start

Drwy Dechrau'n Deg, rydym yn darparu cyllid i Homestart Conwy i gyflogi Trefnydd Cefnogaeth i Deuluoedd. Mae Homestart yn rhwydwaith cymunedol lleol o wirfoddolwyr hyfforddedig sy'n gallu darparu cefnogaeth arbenigol i helpu teuluoedd â phlant ifanc drwy gyfnodau heriol. Mae'r rôl hon yn galluogi Homestart i gynnig cefnogaeth magu plant i deuluoedd Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Mae'r Swyddog Cefnogi Teuluoedd yn hwyluso ac yn rheoli'r cynnig sesiynau cymorth i deulu o fewn eu cartref, gyda'r nod o wella anghenion iechyd, cymdeithasol ac amgylcheddol y teulu, ynghyd ag ethos Dechrau'n Deg drwy annog teuluoedd sy'n gyndyn o ymgysylltu â'r gwasanaeth Dechrau'n Deg i gymryd rhan. Mae hefyd yn ymestyn y gallu i ddarparu ymateb parhaus i deulu Dechrau'n Deg yn dilyn atgyfeiriad.

Mae'r Swyddog Cefnogi Teuluoedd (ynghyd â'r Rheolwr Dechrau'n Deg) yn cydlynu cefnogaeth i'r teulu a atgyfeiriwyd yn seiliedig ar eu hanghenion unigol/priodol, gyda'r diben penodol o annog cyfranogiad yn y gweithgareddau a gynigir gan y prosiect Dechrau'n Deg. Bydd gwirfoddolwyr a gaiff eu dyrannu i'r teuluoedd yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth lle bo angen i'w paratoi ar gyfer bob agwedd o'u rôl o fewn y teulu.

Mae'r Swyddog Cefnogi Teuluoedd hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth recriwtio'r gwirfoddolwyr i ddarparu'r gefnogaeth i deuluoedd Dechrau'n Deg. Maent yn helpu Rheolwr y Cynllun i

hyfforddi gwirfoddolwyr i'w paratoi ar gyfer eu rôl o fewn y teulu. Caiff y gwirfoddolwyr eu monitro, eu goruchwylio a'u cefnogi gan y Swyddog Cefnogi Teuluoedd. Daw'r holl wirfoddolwyr o'r gymuned leol ac mae'n ofynnol iddynt gwblhau cwrs hyfforddiant/cynefino cyn iddynt ddechrau gweithio â theulu neu gymryd rhan mewn gwaith grŵp. Mae gofyn i wirfoddolwyr gael Gwiriad Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a darparu dau eirda. Mae'r cwrs gwirfoddoli'n para deg o sesiynau ac yn cynnwys modiwlau ynglŷn â diogelu, cyfrinachedd, anabledd a chyfle cyfartal, ac ati. Mae gwirfoddolwyr yn cynnig cefnogaeth i'r teulu yn unol â'r asesiad cychwynnol ar sail anghenion, a gan ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn yr atgyfeiriad at Dechrau'n Deg.

Mae rhieni a phlant yn elwa o gefnogaeth wirfoddol un i un ac yn cael eu hannog i fynychu gweithgareddau grŵp lle byddant yn cyfarfod yn gymdeithasol gyda rhieni a phlant eraill mewn amgylchedd cyfeillgar a diogel.

Darparodd Homestart gefnogaeth ychwanegol i 142 o blant Dechrau'n Deg yn 2022-23. Fe wnaethant recriwtio a hyfforddi deunaw o wirfoddolwyr ychwanegol a gynhaliodd 162 o ymweliadau â chartrefi teuluoedd.

Cynllun Cymorth Cyn Ysgol Conwy

Mae'r contract hwn yn ein galluogi i gefnogi plant cyn oedran ysgol ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd, fel sy'n briodol, fel y gallant integreiddio â'u cyfoedion lle bo modd a chael dewis o gyfleoedd chwarae cyn ysgol cynhwysol.

Mae'r Cydlynydd yn gweithio a meithrin cyswllt â darparwyr gofal plant, gweithwyr proffesiynol o amryw asiantaethau a rhieni/gofalwyr plant 2-3 oed ag anghenion ychwanegol gyda'r nod yn y pen draw o roi'r gefnogaeth angenrheidiol i'r plant hynny fel y gallant integreiddio'n effeithiol â'u cyfoedion mewn lleoliadau cyn ysgol. Gan ddefnyddio cyllid arall, gallant hwyluso darpariaeth gweithiwr cefnogi ychwanegol mewn lleoliadau cyn ysgol, lle bo angen, drwy ddarparu cyllid i'r lleoliad tuag at gyflogi'r gweithiwr.

Mae'r Cydlynydd yn gweithio'n agos gyda Chanolfannau Teulu Conwy, Tîm Gofal Plant Dechrau'n Deg a'r Tîm Blynyddoedd Cynnar. Maent hefyd yn sicrhau fod bob teulu'n ymwybodol o'r gefnogaeth ehangach sydd ar gael gan Ganolfannau Teulu. Maent yn targedu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi a/neu blant ag anableddau.

Mae'r Tîm yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith gyda phlant ag anghenion ychwanegol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys asiantaethau cymorth gofal plant megis Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin, lleoliadau gofal plant unigol, Canolfan Datblygu Plant Conwy, Gwasanaethau Addysg (Blynyddoedd Cynnar), Dechrau'n Deg, gweithwyr proffesiynol lechyd a'r Tîm Safonau Ansawdd a Chomisiynu. Daw'r mwyafrif o atgyfeiriadau naill ai gan y Ganolfan Datblygu Plant neu ddarparwyr gofal plant unigol.

Mae adborth gan rieni'n dangos yr effaith mae derbyn cefnogaeth yn ei gael ar y plentyn a'r teulu, ac roedd bob un

ohonynt yn ddiolchgar o'r gefnogaeth. Mae adborth gan weithwyr proffesiynol yn dangos bod y gwasanaeth yn elfen werthfawr o'r dull amlasiantaeth i ddarparu ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i'r plant ifanc hyn a'u teuluoedd.

Darparodd y Cynllun gefnogaeth ychwanegol i 48 o blant Dechrau'n Deg yn 2022-23.

Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r llynedd

Mae ein proses fonitro ac adolygu yn llawer cryfach ers creu'r Tîm Grantiau Gofal Cymdeithasol. Mae'r broses hon eisoes wedi nodi nifer o welliannau o fewn y gwasanaeth ac yn darparu trosolwg a sicrwydd llawer gwell ar gyfer uwch dimau rheoli.

Sut y gallwn wella

Rydym yn parhau i fonitro'r gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a gomisiynir i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion lleol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grantiau amrywiol i'w hariannu nhw. Caiff unrhyw newidiadau gofynnol eu llywio gan adborth a dderbynnir gan ddefnyddwyr gwasanaeth, staff, partneriaid a budd-ddeiliaid. Mae Rheolwyr Adain ein Canolfannau Teulu'n asesu ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion lleol, ac yn sicrhau fod unrhyw waith ddatblygu'n cael ei gwblhau â chefnogaeth y Timau Grantiau a Chomisiynu.

Ein cynllun gweithredu

Caiff bob gwasanaeth a gomisiynir eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym wedi ail-gomisiynu contractau a oedd dros dair oed eleni i sicrhau ein bod yn cyflawni gwerth am arian, a bod gwasanaethau'n darparu ar gyfer anghenion newidiol y boblogaeth yng Nghonwy.

Wrth symud ymlaen, rydym yn gobeithio adolygu pob contract i sicrhau eu bod yn alinio â'r canlyniadau ar gyfer Conwy a'r grantiau sy'n eu hariannu.

Partneriaethau ac Integreiddio

- Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu deilliannau cwbl integredig, o ansawdd uchel, cynaliadwy i bobl
- Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a'u cefnogaeth fel partneriaid cyfartal

Dull partneriaeth i gomisiynu

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n darparwyr gofal cartref i newid y ffordd yr ydym yn comisiynu a darparu gwasanaethau i bobl hŷn. Rydym yn hyrwyddo dull mwy cydlynol sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gan ganolbwyntio ar y pethau mae pobl yn gallu eu gwneud, yn hytrach na'r pethau nad ydynt yn gallu eu gwneud. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddarparwyr deilwra eu gwasanaethau i'r unigolion y maent yn eu cefnogi, gan ystyried eu barn, eu ffafriaeth a'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Rydym yn cydnabod bod newid arferion yn cymryd amser, fodd bynnag, rydym wedi gweld canlyniadau cadarnhaol iawn o ganlyniad, gan alluogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach. Ein her bellach yw sicrhau fod gennym gapasiti digonol i fodloni anghenion cynyddol ein poblogaeth hŷn sy'n mynegi eu dymuniad i dderbyn cefnogaeth yn eu cartref eu hunain yn hytrach na gofal preswyl.

Gan ystyried barn pobl ag anableddau a'u gofalwyr drwy weithgareddau ymgysylltu, megis cael swydd wedi'i hwyluso gan Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, rydym wedi comisiynu gwasanaethau newydd i fodloni eu hanghenion a'u dyheadau. Gan weithio mewn partneriaeth agos gydag Ymddiriedaeth HF, disgwylir i gaffi a siop Bryn Euryn ym Mae Colwyn agor ddiwedd y gwanwyn neu ddechrau'r haf yn 2024. Y nod yw darparu cyfleoedd rhagorol i bobl ag anableddau i ddatblygu eu sgiliau, ennill profiad gwerthfawr mewn arlwyo, a'u helpu i ddod o hyd i waith â thâl. Ein gweledigaeth yw i'r caffi fod yn un o hoff lefydd pobl i siopa am blanhigion a mwynhau paned, yn ogystal â chefnogi pobl ag anableddau dysgu i ddysgu sgiliau a fydd yn eu helpu i gyflawni eu nodau cyflogaeth.

Rydym yn cymryd camau i weithredu dull cydgynhyrchiol ar gyfer y ffordd yr ydym yn comisiynu ein gwasanaethau e.e. galluogi pobl a'u teuluoedd i weithio gyda ni fel partneriaid cyfartal a chynnig cyfleoedd cyfartal iddynt gyfrannu'n rhannol neu'n llawn at y broses gomisiynu. Mae gennym enghreifftiau da o weithio'n agos gyda theuluoedd i ddylunio, comisiynu a chaffael gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys y darparwyr sy'n eu cefnogi nhw. Rydym yn ymrwymo i ddatblygu dull cydgynhyrchiol ar gyfer comisiynu, gan sicrhau fod gennym ystod eang o wasanaethau yn ein hardal leol.

Fel rhan o'n datblygiad llety i blant, rydym yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ac yn cynnwys y grŵp Lleisiau Uchel i ystyried barn, adborth ac awgrymiadau plant o ran comisiynu a datblygu gwasanaethau gofal preswyl a llety â chymorth.

Sut y gallwn wella

- Rydym yn cydnabod y prinder llety priodol ar gyfer pobl ifanc yn ein hardal, a bod eu hanghenion cymorth yn gallu bod yn gymhleth iawn. Byddwn yn ymgysylltu â'r gymuned

leol pan fyddwn yn cynllunio i gyflwyno gwasanaethau gofal preswyl newydd yn y gymuned.

- Rydym yn ymrwymo i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau newydd yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth ystyrlon, gan ystyried barn pobl, canllawiau polisi cenedlaethol ac arferion da, er mwyn i ni sicrhau fod gennym y gwasanaethau cywir ar gael yn y lle iawn ar yr amser iawn.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu, casglu adborth a chwblhau gwaith ymchwil a gweithgarwch ymgynghori i asesu dewisiadau a barn y cyhoedd fel rhan o'n proses gomisiynu; byddwn yn defnyddio offer megis y Panel Dinasyddion.

Cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu

Eleni, mae Conwy a Sir Ddinbych wedi gweithio mewn partneriaeth â Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd i lansio llwybr newydd i unigolion ag anabledd dysgu sy'n agored i wasanaethau cymdeithasol. Mae'r llwybr cyflogaeth yn cynnig cefnogaeth hyfforddwr swydd dwys i bobl i'w helpu i ddod o hyd i waith cyflogedig a fyddai wedi bod yn anodd iddynt ei ganfod ar eu pennau eu hunain neu'n amhosibl i weithiwr cymdeithasol yn sgil cyfyngiadau capasiti. Mae'r Cydlynydd Llwybr Cyflogaeth yn derbyn pob atgyfeiriad at y gwasanaeth newydd gan weithwyr cymdeithasol, swyddogion Gyrfa Cymru a gweithwyr proffesiynol eraill. Gallant gwrdd â'r unigolyn a'u teulu neu ofalwyr i benderfynu ar y llwybr cyflogaeth gorau i'r unigolyn hwnnw, a ph'un a fyddent yn elwa o gyfleoedd gwirfoddol / profiad gwaith i ddatblygu eu CV. Rydym hefyd wedi cyfeirio pobl at gyrsiau hyfforddiant a ddarperir gan Ganolfan Gyflogaeth Conwy, rhaglen WorkFit y Gymdeithas Syndrom Down ac Amdani, gwasanaeth gwirfoddoli mewnol Conwy sy'n anelu at ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli'n seiliedig ar ddiwylliant lleol.

Bydd Conwy'n addasu'r ffordd y mae gwasanaethau dydd yn cael eu cynnig i unigolion ar hyn o bryd. Y nod yw, o hyn ymlaen, y bydd pobl yn mynychu gwasanaethau dydd ar sail tymor byr, ac yn gadael ar ôl cyfnod byr gyda phrofiad, a chymhwyster gobeithio, y gallwn eu defnyddio i ddod o hyd i gyflogaeth â thâl. Bydd gwasanaethau dydd yn parhau i fod ar gael i'r rheiny sydd eu hangen nhw, ond dylai unrhyw un sy'n gallu gweithio eu defnyddio fel offeryn hyfforddiant yn hytrach nag opsiwn hirdymor. Bydd y blanhigfa a chaffi newydd ym Mryn Euryn, Mochdre, yn darparu cyfleoedd profiad gwaith wedi'u teilwra i bobl, eto am gyfnodau penodol, y gellir eu defnyddio i sicrhau swyddi yn y gymuned. Byddwn hefyd yn cynnal cynllun swyddi penwythnos i 14+ o ddisgyblion yn Ysgol y Gogarth i ennill profiad gwaith, gyda'r nod o newid y diwylliant mewn ysgolion a cholegau anghenion ychwanegol i ganolbwyntio mwy ar gyflogaeth. Yn y dyfodol, bydd ein Cydlynydd Llwybr Cyflogaeth hefyd yn bresennol mewn ysgolion a cholegau arbennig lleol, lle byddant yn gweithio gyda staff i ddarparu gwybodaeth i ddysgwyr am ein gwasanaeth newydd, a chyflogaeth yn gyffredinol.

Mae gwaith wedi cael ei gwblhau i ddarparu dewis gwirioneddol i bobl ag anableddau dysgu am eu dymuniadau. Mae rhai pobl bellach yn gallu ennill cyflog yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau dydd traddodiadol, gwirfoddoli mewn siopau elusen neu fod yn NEET (ddim mewn cyflogaeth, addysg, na hyfforddiant). Yn flaenorol, roedd yn anodd iawn i rywun ag anableddau dysgu gael mynediad at waith â thâl, gan na fyddai gan Weithwyr Cymdeithasol amser i ymgymryd â'r dasg ddwys o ddod o hyd i waith i rywun ag anabledd dysgu. Yn aml iawn hefyd, heb gefnogaeth gychwynnol yn y swydd gan ein hyfforddwyr swyddi, byddai'r rhwystr a wynebir gan y cyflogwr o hyfforddi rhywun ag anabledd dysgu mewn rôl newydd yn ormod o waith. Drwy

greu'r rolau newydd hyn, Cydlynwyr Llwybrau Cyflogaeth a hyfforddwyr swyddi, y nod yw pontio'r bylchau yn y maes hwn a galluogi pobl ag anabledd dysgu i ddod o hyd i waith â thâl.

Gan fod y swyddi hyn wedi cael eu llenwi ym mis Hydref 2023, mae dal yn rhy gynnar i fesur cyflawniadau, ond hyd yma, rydym wedi cael ambell i lwyddiant da. Mae pump o bobl wedi dechrau gweithio mewn swyddi â thâl gan ddefnyddio'r gwasanaeth newydd, ac mae disgwyl i un arall ddechrau ym mis Ionawr 2024. Mae pobl wedi cael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant na fyddent wedi bod yn ymwybodol ohonynt fel arall. Mae lleoliadau gwirfoddol wedi cael eu nodi ar gyfer pobl i wella eu CV ac ennill profiad. Mae gennym ddau o bobl yn dechrau treial gwaith yn nhîm glanhau Venue Cymru ym mis Ionawr, a fydd yn datblygu cysylltiad rhwng dau wasanaeth yng Nghonwy. Mae pobl sydd wedi cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth wedi nodi gwelliant yn eu lles, rhagolygon a sefyllfaoedd cymdeithasol.

Yn ogystal â'r gwelliant o ran lles preswylwyr, bydd hyn yn sicrhau arbediad ariannol hirdymor i Gonwy. Mae'r costau sydd ynghlwm â chefnogi rhywun i ddod o hyd i waith yn llawer llai na'r costau sydd ynghlwm â darparu gofal cartref cyson, mynediad at wasanaethau dydd, cludiant, staff ac ati, a fyddai'n angenrheidiol pe na bai'r gefnogaeth hon ar gael i'r unigolyn. Mae sgyrsiau'n mynd rhagddynt ynghylch sut i wneud swyddi Awdurdod Lleol yn fwy cynhwysol, gan ddarparu ymgeiswyr posibl ar gyfer swyddi gwag yng Nghonwy a fyddai fel arall yn wag am gyfnod hir o bosibl.

Sut y gallwn wella

Offeryn a ddefnyddir mewn cyflogaeth â chymorth i gael gymaint o wybodaeth â phosibl am yr unigolyn yr ydych yn eu cefnogi yw proffilio galwedigaethol, ac fe'i defnyddir i baru'r unigolion mwyaf addas gyda swyddi i gyflogwyr. Y mwyaf o wybodaeth berthnasol y gallwn ei chynnwys ar broffil galwedigaethol, y mwyaf tebygol yw'r ymgeisydd llwyddiannus o lwyddo yn eu swydd newydd. Wrth i ni ddarparu'r gwasanaeth, rydym yn darganfod pa wybodaeth sy'n berthnasol a pha wybodaeth nad yw'n berthnasol, ac yn addasu ein proffiliau galwedigaethol yn gyson. Bydd y broses hon yn parhau i'r flwyddyn nesaf. Er nad yw'n bosibl creu proffil galwedigaethol perffaith ar unrhyw bryd, byddwn yn parhau i'w ddatblygu wrth i ni ddysgu mwy am y beth sy'n bwysig i'w ddarganfod am hanes cyn cyflogaeth ceiswyr swyddi.

Mae arnom ni angen gwella ein cyfraddau llwyddiant wrth gysylltu â chyflogwyr. Yn amlwg, dim ond hyn a hyn fedrwn ni ei wneud, ac ni fydd gan nifer o gyflogwyr ddiddordeb mewn defnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio'r dull cywir, credwn y bydd modd ennyn rhagor o ddiddordeb gan gyflogwyr sydd ychydig yn ansicr ar hyn o bryd o bosibl. Byddwn yn addasu ac yn newid ein dull o ran cysylltu â chyflogwyr yn y dyfodol ac yn dysgu am y pethau sy'n gweithio a'r pethau nad ydynt yn gweithio.

Nid yw cysylltiadau â swyddi a chyfleoedd awdurdod lleol yn gryf iawn ar hyn o bryd ac mae angen gweithio ar hyn.

Ein cynllun gweithredu

Mae rhai elfennau o'r proffil galwedigaethol sydd eisoes wedi cael eu hychwanegu a'u gwaredu, a bydd hyn yn parhau. Os ydym ni'n gweld bod rhai darnau o wybodaeth yn amherthnasol, byddwn yn eu tynnu o'r proffil. Yn yr un modd, os byddwn ni'n nodi bod unrhyw ddarn perthnasol o wybodaeth ar goll, byddwn yn ei ychwanegu neu'n dysgu hyn yn gynt yn y broses. Gallwn

siarad â chyflogwyr am bethau sydd wedi gweithio a phethau nad ydynt wedi gweithio, a gweld a oes unrhyw ffordd y gallwn fod wedi darganfod hyn ar y cam proffilio galwedigaethol.

Gallwn siarad â chyflogwyr am ba wybodaeth yr hoffen nhw ei wybod am y gwasanaeth er mwyn tawelu eu meddyliau. Wrth i amser fynd yn ei flaen, byddwn yn datblygu cyfres o dystiolaeth llysgennad cyflogwr. Gall clywed gan gyflogwr arall am brofiadau llwyddiannus o ddefnyddio'r gwasanaeth fod yn ffordd dda o dawelu eu meddyliau a datblygu hyder yn ein gwasanaeth.

Mae dau dreial gwaith wedi cael eu sefydlu yn Venue Cymru sy'n ddechrau da, ond mae opsiynau eraill y gallwn eu hystyried. Sut fedrwn ni fynd allan i'r byd a gofyn i gyflogwyr roi cyfle i'n hymgeiswyr pan nad ydym ni'n gwneud hynny'n fewnol? Mae sgyrsiau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ynghylch sut y gellir gwneud y broses recriwtio'n fwy cynhwysol i bobl ag anableddau dysgu. Gobeithiwn yn 2024 y bydd pobl ag anableddau a gaiff eu hatgyfeirio drwy'r gwasanaeth hwn yn gallu cwblhau treial gwaith yn hytrach na mynychu cyfweliad ffurfiol i ddangos eu bod yn gallu cyflawni'r rôl, er nad ydynt o bosibl wedi gallu cyfleu hynny'n defnyddio'r arddull recriwtio presennol (ffurflen gais/cyfweliad).

Gwella ein cynnig gofal maeth

Er mwyn gwella cynnig Conwy i ofalwyr maeth, rydym wedi cynyddu'r lwfans y maent yn ei dderbyn, yn ogystal â'r swm sy'n daladwy i ail a thrydydd plant yn eu gofal. Rydym hefyd wedi ail-gyflwyno ad-daliadau i ofalwyr maeth er mwyn talu am y 50 milltir cyntaf wrth gludo plant i ac o'r ysgol ac amser teulu. Rydym yn ystyried opsiynau i gynnig gostyngiadau Treth y Cyngor i ofalwyr maeth, gyda'r nod o'u gweithredu yn ystod blwyddyn ariannol 2024-2025. Mae'r mentrau hyn yn alinio â rhaglen Maethu Cymru i gysoni taliadau ar draws Cymru, yn ein rhoi mewn gwell sefyllfa i ddenu gofalwyr maeth newydd, ac yn cynnig opsiwn amgen hyfyw i'r sector preifat.

Mae Conwy wedi datblygu Polisi Cefnogi Maethu i weithwyr Conwy sy'n Ofalwyr Maeth neu'n dymuno bod yn Ofalwyr Maeth. Mae'r polisi hwn, sy'n mynd drwy'r broses ddemocrataidd ar hyn o bryd, yn anelu at ddarparu pum diwrnod ychwanegol o wyliau arbennig i weithwyr presennol a newydd i fynychu hyfforddiant neu gyfarfodydd i gefnogi eu rôl maethu. Bydd hyn

yn cefnogi ein strategaeth recriwtio a chadw staff mewn blwyddyn heriol. Heb Swyddog Recriwtio, rydym wedi cael trafferth denu gofalwyr maeth newydd, fodd bynnag, mae'r tîm wedi parhau i fynychu digwyddiadau cyhoeddus a rhannu ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i ennyn diddordeb ac ymholiadau. Erbyn diwedd 2023, roedd pedwar aelwyd maeth newydd wedi cael eu cymeradwyo, a disgwylir i ddau arall gael eu cymeradwyo erbyn diwedd Mawrth 2024.

Roedd penodi Gweithiwr Cymdeithasol Seibiant Byr ym mis Rhagfyr 2023 yn ddatblygiad cadarnhaol, yn dilyn misoedd o recriwtio. Nodwyd y swydd hon fel angen yn ein Strategaeth Lleoli 2022 a sicrhawyd cyllid ar gyfer y swydd drwy gais llwyddiannus i'r Rhaglen Dileu Elw. Gan ddefnyddio'r un llwybr, llwyddwyd i recriwtio Swyddog Dyletswydd ym mis Tachwedd 2023 i gefnogi'r Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol i gynyddu ein capasiti asesu.

Mae cadw gofalwyr maeth presennol yn parhau i fod yn un o gryfderau'r gwasanaeth, a dengys hyn yn sefydlogrwydd ein teuluoedd maeth. Mae presenoldeb gofalwyr maeth mewn boreau coffi'n parhau i fod yn gadarnhaol, gyda chyfle i gyfoedion dderbyn cymorth, cyngor a chanllawiau gan staff, a chynnal ymdeimlad y gofalwyr maeth o berthyn a hunaniaeth o fewn yr Awdurdod Lleol. Mae ein Diwrnod Gwasanaeth blynyddol yn y gwanwyn a'n Diwrnod Gwerthfawrogi yn y gaeaf wedi dod yn ddigwyddiadau sefydlog yn y calendr ac yn boblogaidd iawn gan gefnogi ymdeimlad teuluol Maethu Cymru Conwy.

Eleni, yn sgil yr argyfwng costau byw, mae'r gwasanaeth yn parhau i ariannu cardiau Maxx (cynllun gostyngiadau), tocynnau Ffit Conwy ac mae gofalwyr maeth yn ddiolchgar iawn o unrhyw ddigwyddiadau am ddim. Rydym yn gwybod bod y cynigion hyn yn effeithiol, gan fod gofalwyr maeth yn cefnogi digwyddiadau recriwtio ac yn cymryd rhan mewn negeseuon cyfryngau cymdeithasol.



Sut y gallwn wella

O ran heriau a brofwyd a'r gwelliannau y mae angen ni eu gwneud, rydym wedi cael trafferth recriwtio ar gyfer dau Swyddog Recriwtio, a fyddai wedi ein galluogi i dargedu digwyddiadau recriwtio lleol, datblygu ein presenoldeb ymhellach, a chynnal sesiynau galw heibio rheolaidd mewn clybiau, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, ac ati. Mae arnom ni hefyd angen canolbwyntio ar ddatblygu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a dadansoddi'r

gweithgarwch y mae'n ei ennyn. Rydym yn awyddus i gysylltu â busnesau lleol a hyrwyddo ein model talu gwell a'n statws fel Cyflogwr sy'n Cefnogi Maethu. Fel rhan o Faethu Cymru, yn ddelfrydol, byddwn yn datblygu ymgyrch recriwtio mwy rhanbarthol gyda'n Hawdurdodau Lleol cyfagos.

Mae ein meysydd o angen fel a ganlyn:

- Seibiannau byr
- Cadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd
- Plant yn eu harddegau

Gydag ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus, bydd ar y gofalwyr maeth hynny sy'n gallu derbyn plant yn eu harddegau angen cymorth ychwanegol, felly bydd gweithio mewn partneriaeth â'r Prif Seicolegydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn hanfodol ar gyfer datblygu dull gofal.

Ein cynllun gweithredu

Dros y misoedd nesaf, hoffem sicrhau:

- Fod gennym ddau Swyddog Recriwtio ar waith, yn datblygu ac yn tyfu ein strategaeth recriwtio
- Ein bod yn datblygu prosesau recriwtio seibiannau byr, dan arweiniad y Swyddog Recriwtio a'r Gweithiwr Cymdeithasol Seibiant Byr
- Ein bod yn datblygu dull gofal sy'n bodloni anghenion plant yn eu harddegau
- Ein bod yn sefydlu rôl Swyddog Dyletswydd er mwyn gwella capasiti'r Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol i gynnal asesiadau.

A ydych chi'n ystyried bod yn ofalwr maeth? Ymwelwch â gwefan Maethu Cymru Conwy i ddysgu mwy.

Cyfranogiad ac Ymgysylltiad: Ymgyrch Gwrando ar Ddementia

Gofynnodd Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru i ni gyfrannu at waith parhaus yr Ymgyrch Gwrando ar Ddementia drwy gynnal ymarfer ymgysylltu â'r gymuned. Y bwriad oedd

ei gynnal mewn un dref yn y sir gyda'r nod o gasglu barn preswylwyr am y cyfleusterau a'r gwasanaethau dementia sydd ar gael yn eu cymunedau. Byddai unrhyw adborth yn llywio gweithgareddau Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r dyfodol.

Ffurfiwyd grŵp llywio, ac enwebwyd Llanfairfechan ar gyfer y digwyddiad. Cefnogwyd y gwaith ymgysylltu gan lyfrgelloedd Conwy, yn arbennig Llyfrgell Llanfairfechan, Cyngor Tref Llanfairfechan, Gwasanaeth Lles Cymunedol Conwy, y Gwasanaeth Pobl Hŷn a'r Cynghorwyr Penny Andow a Mandy Hawkins.

Cynhaliom ddiwrnod gwybodaeth ac ymgysylltu â'r gymuned yn neuadd tref Llanfairfechan ym mis Medi 2023, noson goffi yn y llyfrgell gymunedol ym mis Hydref, a stondinau yn y Fforwm Pobl Hŷn yn Llys y Coed a ffair Nadolig Llanfairfechan. Fe wnaethom gwrdd â grwpiau cymunedol lleol i drafod yr ymgyrch a hyrwyddo holiadur a ddyfeisiwyd ar gyfer y digwyddiad. Siaradom hefyd â phreswylwyr mewn siopau a chaffis lleol a thrwy unrhyw gyfleoedd eraill a gododd.

Ein cynllun gweithredu

Mae'r ymateb gan breswylwyr a grwpiau cymunedol lleol wedi bod yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Erbyn mis Rhagfyr 2023, roedd 178 o bobl wedi cwblhau'r holiadur. Unwaith y byddwn wedi derbyn y dadansoddiad a'r adroddiad gan Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru, byddwn yn gallu astudio'r canlyniadau a nodi'r gwelliannau sydd eu hangen.

Yn 2024, rydym yn awyddus i drefnu digwyddiad adborth ar gyfer preswylwyr Llanfairfechan i ddiolch iddynt am eu cyfranogiad a thrafod sut mae eu barn wedi llywio'r adroddiad rhanbarthol. Mae arnom ni hefyd angen sefydlu grŵp gweithredu lleol ar gyfer Llanfairfechan er mwyn rhoi'r blaenoriaethau a amlygwyd yn yr adroddiad gan ac ar gyfer eu cymuned ar waith.

Dechreuodd y gwaith ymgysylltu yn 2023 a bydd yn cyfrannu at waith parhaus Iechyd Cyhoeddus Cymru i wella gofal dementia ac annog datblygiad cymunedau sy'n deall dementia ar draws Cymru.

Cyfranogiad ac Ymgysylltiad ar gyfer Gwasanaethau Oedolion

Mae ymgysylltu â dinasyddion yn thema ganolog yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) er mwyn sicrhau fod gan unigolion lais a rheolaeth mewn perthynas â'r Gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

Mae un Gweithiwr Cyfranogiad Oedolion llawn amser yn ymgysylltu â dinasyddion yn y gymuned ehangach drwy fynychu digwyddiadau cymunedol a thrwy drefnu arolygon adborth cyffredinol ar draws gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Mae Rhwydwaith Cyfranogiad Oedolion sefydledig hefyd sy'n cyfarfod drwy gydol y flwyddyn ac yn cynrychioli grwpiau cymunedol amrywiol, gan gynnwys Age Connect, Siediau Dynion a Merched, grŵp diabetes lleol a'r Gymdeithas Arthritis a Chyhyrysgerbydol. Maent wedi cwrdd â'r Prosiect Amdani! yng Nghonwy eleni i dafod eu gwaith:

Mae Amdani! Conwy yn brosiect newydd sy'n cefnogi lleoliadau diwylliannol a threfnwyr digwyddiadau ac yn gweithio gyda chymunedau i wneud diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau yn hwyl, hygyrch ac yn gynhwysol.

Mae'r ymgynghoriadau a'r ymgysylltiadau eraill yr ydym wedi'u cynnal yn cynnwys:

- Preswylwyr ac aelodau teulu mewn tri chartref gofal ac un asiantaeth gofal cartref.
- Dinasyddion a theuluoedd sy'n ymwneud â'r cyfleuster seibiant newydd ym Mron y Nant, ac unigolion a gefnogir sy'n defnyddio'r gwasanaeth (a'u haelodau teulu) i fod yn rhan o'r broses gyfweld staff newydd.
- Pob preswylydd mewn cynlluniau tai gofal ychwanegol ar draws Conwy.
- Pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymorth cymunedol a ddarperir gan Wasanaeth Anableddau Conwy.

Sut y gallwn wella

Byddwn yn parhau i ystyried gwahanol fathau o ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori gan gynnwys ar-lein, dros y ffôn, arolygon a ffurflenni adborth, yn ogystal â chwrdd â grwpiau ac unigolion er mwyn llywio ein gwaith a chasglu barn pobl sy'n cael mynediad at ein gwasanaethau.

Ein cynllun gweithredu

Sicrhau fod cynlluniau ymgynghori ar waith ar gyfer y dyfodol gyda Gwasanaethau Lles Cymunedol er mwyn ymgysylltu â dinasyddion a'r gymuned ehangach drwy:

- Foreau coffi
- Cyrsiau yn y gymuned
- Darparu gweithgareddau mewn cartrefi gofal
- Gweminarau a Facebook
- Ffurflenni adborth cyffredinol
- Arolygon sicrwydd ansawdd mewn Canolfannau Teulu

Rydym hefyd yn awyddus i gasglu adborth gan ddinasyddion sy'n derbyn gwasanaethau gofal cartref gan asiantaethau, gan ddefnyddio dull gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Adborth gan ffrindiau a theulu preswylwyr Llys Elian

Rydym yn cysylltu â ffrindiau a theulu preswylwyr Llys Elian ddwywaith y flwyddyn, sef yr unig gartref preswyl a gynhelir gan y Cyngor i bobl â dementia. Rydym yn gofyn iddynt gwblhau arolwg byr i roi adborth i ni ar y gwasanaeth y mae eu hanwylyd yn ei dderbyn. Dyma gipolwg o ganlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd ym mis Medi 2023.

Nododd y cyfranogwyr lefel boddhad o 100% ar gyfer bob cwestiwn a ofynnwyd iddynt.

- Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno fod rheolwyr a staff Llys Elian yn gwrando ar eu hanwylyd, a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau am y gofal a'r gefnogaeth y maent yn eu derbyn a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.
- Roedd pawb yn cytuno fod eu hanwylyd yn gallu cymryd rhan mewn gwaith a gweithgareddau ystyrlon a'u bod yn hapus am eu hiechyd a'u lles cyffredinol.
- Roedd pawb yn fodlon fod eu ffrind neu aelod o deulu'n teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwarchod rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- Roedd pawb yn teimlo bod y gwasanaeth yn cynnal preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd eu hanwylyd.

- Ystyrir Llys Elian fel amgylchedd cyfforddus, sy'n rhoi cyfle i'w hanwyliaid bersonoli eu gofod.
- Mae ymwelwyr yn derbyn croeso ac yn gallu cyfrannu at ofal a chefnogaeth eu hanwyliaid.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn yr arolwg yn dangos mor werthfawr yw Llys Elian i ffrindiau a theulu'r preswylwyr:

Mae'r rhyngweithiad gyda'm tad a'r gofal y mae'n ei dderbyn o safon uchel bob amser. Mae Llys Elian fel teulu i ni.

Mae'n gartref arbennig. Mae'r rheolwyr a'r holl staff ym mhob ardal o'r cartref yn ofalgar ac yn glên. Ni allwn ddymuno am gartref mwy diogel a gofalgar. Bydd y teulu yn fythol ddiolchgar am y gofal arbennig y mae ein hanwylyd wedi'i dderbyn yn Llys Elian. Diolch/Thank you.

Fel teulu rydym mor hapus i weld mam wedi setlo mewn amgylchedd sy'n siwtio ei hanghenion meddyliol a chorfforol. Mae'r ffaith ei bod hi rŵan yn gallu cymdeithasu yn Gymraeg wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i mam ac wedi codi ei hwyliau. Diolch.

Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol

Rydym wedi sôn am dîm ein Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth mewn adroddiadau blaenorol a gallwn bellach gadarnhau fod y tîm wedi symud ymlaen o gam peilot i fusnes fel arfer. Mae'r tîm hefyd wedi ymestyn ac wedi penodi Gweithiwr Cymdeithasol ychwanegol i asesu atgyfeiriadau diogelu plant. Mae Swyddog Cefnogi Busnes bellach yn rhan o dîm y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth hefyd. Mae hyn wedi ein galluogi i wella prosesau, gan gynnwys sut caiff cyfarfodydd y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth eu cofnodi a'n cyfranogiad mewn prosesau diogelu eraill megis Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Amlasiantaeth a'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth. Rydym bellach yn derbyn mewnbwn rheolaidd gan y Gwasanaeth Prawf, Iechyd ac Addysg yn ein cyfarfodydd. Mae presenoldeb asiantaethau eraill wedi arwain at broses fwy cadarn o wneud penderfyniadau.

Dyma rai ffigurau am gysylltiadau:

Lluniwyd y mesur hwn i nodi'r cyfanswm a'r galw am wybodaeth, cyngor a chymorth fel y diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

10,536 - Nifer y cysylltiadau i blant a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn

Sut y gallwn wella

Rydym wedi dechrau gweithio ar ddatblygu tudalennau we cyhoeddus a mewnrwyd arbennig i'r tîm. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith ar hyn er mwyn i ni fedru cwblhau'r cynnwys. Rydym yn awyddus i barhau i wella presenoldeb partneriaid allweddol yn ein cyfarfodydd Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol. Gall presenoldeb fod ar sail ad-hoc. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid allweddol mewn ymgais i sicrhau presenoldeb mwy parhaol yn ein cyfarfod. Bydd hyn yn galluogi cysondeb ychwanegol yn ein proses o wneud penderfyniadau.

Ein cynllun gweithredu

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Parhau i ddatblygu tudalennau we cyhoeddus a mewnrwyd y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol
- Parhau i ddatblygu a gwella prosesau o fewn y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol i weld defnydd mwy cyson o sgoriau Coch, Oren a Gwyrdd wrth wneud penderfyniadau diogelu.
- Gweithio gyda'n tîm gwybodaeth rheoli mewnol i sicrhau ein bod yn cynyddu'r defnydd o'n data i ddadansoddi themâu adroddiadau diogelu er mwyn datblygu ymateb ac ymyrraeth fwy cadarn.

Lles

- Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed
- Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau eu hunain, yn seiliedig ar wybodaeth dda, er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial a byw'n annibynnol cyhyd â phosibl.

Pythefnos Diogelu - Tachwedd 2023

Mae Diogelu yn ganolog i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn tanategu ein harferion a gwaith dydd i ddydd. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth mae angen ymrwymiad i ddulliau amrywiol i hyfforddi a rhannu gwybodaeth. Yn ystod Pythefnos Diogelu o 13 i 24 Tachwedd 2023, fe gynhaliom ystod o ddigwyddiadau, gan gynnwys sesiynau briffio saith munud amser cinio, a oedd yn trafod pynciau megis rhieni'n camddefnyddio canabis, y cynnydd mewn brathiadau cŵn, a cham-drin ariannol. Cynhaliom gynhadledd hefyd, gyda 150 o bobl yn bresennol.

Digwyddiadau eraill yn ystod y bythefnos:

- Prosiect celf wedi'i drefnu gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid lle cafodd y bobl ifanc greu posteri a darnau creadigol o waith. Ymunodd tri Aelod Etholedig yr Uned Diogelu ynghyd â'r Gwasanaeth Ieuenctid i feirniadu'r ceisiadau. Bydd y tri chais uchaf yn cael eu hargraffu'n broffesiynol a'u harddangos o fewn lleoliadau cymunedol lleol, gan gynnwys Coed Pella.
- Darparodd y staff hyfforddiant yn rhanbarthol ar Gaethwasiaeth Fodern mewn Cartrefi Gofal, oedd yn canolbwyntio ar recriwtio diogel.
- Cafwyd 2 sesiwn ar Gamfanteisio Troseddol; un ar gyfer staff mewnol ac un allanol ar lefel rhanbarthol. Roedd y sesiynau'n boblogaidd ac mae rhwydweithiau proffesiynol wedi'u sefydlu. Hefyd, mae staff wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar Linellau Sirol a Chamfanteisio Troseddol.
- Hyfforddiant un diwrnod lle rhannodd dau o'n Plant sy'n Derbyn Gofal eu profiadau byw gyda'r gynulleidfa. Canmolwyd y sesiwn gan y gweithwyr proffesiynol a fynychodd.
- Mae grwpiau cyfranogi wedi cael eu cynnal o fewn ein huned diogelu gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu'n gadael gofal. O fewn y sesiynau hyn, mae plant a phobl ifanc yn cael hwyl rhannu eu profiadau a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau.

Dyma rai ffigyrau am ddiogelu:

1,158 - Cyfanswm yr adroddiadau a dderbyniwyd o oedolion a amheuir o fod mewn risg yn ystod y flwyddyn

96.29% - Y ganran o ymholiadau diogelu oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith o dderbyn adroddiad am gamdriniaeth honedig

Mynd i'r afael â throsedd cyllyll yn ein cymunedau

Yn anffodus, mae trosedd cyllyll yn parhau yn gyffredin ac mae wedi bod yn faes o bryder cynyddol ar gyfer ein Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mewn ymateb, fe nodom yr angen i ymgysylltu'n gadarnhaol gyda phobl ifanc i fynd i'r afael â'r broblem a gwella ymwybyddiaeth. Ymgasglodd cydweithwyr o'r gwasanaeth grŵp o bobl ifanc ynghyd a oedd yn hysbys i ni, ac wedi derbyn Rhybudd Amodol Ieuenctid, i lunio adnodd trosedd cyllyll. Fe wnaethom gomisiynu TAPE, elusen leol, i'w cefnogi nhw i greu fideo, ac fe wnaeth y bobl ifanc gynllunio, actio, cynhyrchu a golygu'r fersiwn derfynol. Bydd y fideo ar gael fel adnodd, i'w ddefnyddio o fewn sesiynau un i un a grŵp, mewn ysgolion ar draws Conwy a Sir Ddinbych er mwyn amlygu pryderon trosedd cyllyll. Fe'i lansiwyd o fewn digwyddiad TAPE ar 9 Tachwedd 2023, a gallwch ei weld yma.

Ein cynllun gweithredu

Dros y deuddeg mis nesaf rydym yn bwriadu comisiynu mwy o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc er mwyn sicrhau ein bod yn galluogi a darparu cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd mewn perthynas â'r celfyddydau, megis sinematograffi, cerddoriaeth, effeithiau arbennig ac yn y blaen. Mae tystiolaeth bod darparu cefnogaeth o'r fath yn llwyddiannus, a dangosir hyn gan y ffaith, allan o 11 o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiect hwn, nid yw 10 ohonynt wedi ail-droseddu. Mae'r prosiect penodol hwn hefyd yn gweithio'n dda ar gyfer y Strategaeth Troseddau Difrifol a fydd ar waith ar draws y rhanbarth. Ar hyn o bryd mae 119 o'r atgyfeiriadau ar draws y gwasanaeth yn ystod y chwarter diwethaf a adroddwyd yn ymwneud â throseddau o natur dreisgar.

Cefnogi pobl ifanc mewn risg o gam-fanteisio

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cydnabod yr angen i ddatblygu ein hoffer ymyrraeth er mwyn hwyluso gwaith grŵp ac un i un gyda phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-fanteisio yn droseddol ac yn rhywiol. Mae hyn wedi bod yn ymateb uniongyrchol i'r nifer cynyddol o ddynion ifanc yn dod yn hysbys i'r gwasanaeth, ar ôl profi cam-fanteisio. Yn hanesyddol ac yn arferol,

mae dynion ifanc yn cael eu gweld fel cyflawnwyr camdriniaeth, gan arwain at ychydig iawn o ymchwil am effaith cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol ar fechgyn a dynion ifanc. O'r llenyddiaeth sydd ar gael, y dylanwadau allweddol ar gyfer risg a diamddiffyniad yw:

- Anawsterau o ran hunanhyder
- Anawsterau unigrwydd emosiynol neu gysylltiad gydag eraill
- Ffyrdd afresymegol ac eithafol o feddwl a all gynnal problemau meddyliol ac emosiynol, a enwir yn 'gamgymeriadau meddwl'
- Diffyg gwybodaeth rywiol
- Anabledd
- Pyliau o iselder

Hefyd fe ganfuwyd nodweddion yn ymwneud ag ymddygiad cymryd risg, gweithredoedd amhriodol neu anghyfreithlon, anableddau dysgu ac Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth.

Fe wnaethom gysylltu â Better Futures Cymru a rannodd wybodaeth ac offer gwaith mewn perthynas â'u hadnoddau Boys 2. Roedd hwn yn brosiect 2 flynedd, wedi'i ariannu ar y cyd rhwng y Swyddfa Gartref a Barnardos. Arweiniodd canfyddiadau'r prosiect at ddatblygu gweithlyfr Boys 2, a gafodd ei gyd-gynhyrchu gyda'r bechgyn a dynion ifanc a gymerodd rhan yn yr ymchwil. Mae holl feysydd y gweithlyfr wedi'u cefnogi gan eglurhad ymchwil clir ar gyfer eu cynnwys, ac wedi'u dylunio i gefnogi gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu gyda bechgyn a dynion ifanc er mwyn lleihau'r risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a chefnogi hunaniaeth iach. Rydym wedi cyflwyno'r gweithlyfr hwn i'n rheolwyr achos a staff atal er mwyn eu cyflawni gyda bechgyn a dynion ifanc pan fydd yn addas a phriodol i wneud hynny.

Rydym hefyd wedi caffael adnodd 'Girls Talk' sy'n adnodd ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda genethod a merched ifanc sydd wedi ymgysylltu mewn ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae'n helpu i leihau risg a'u galluogi nhw i symud ymlaen tuag at berthnasau aeddfed iach.

Fel gwasanaeth rydym hefyd yn gweithio ar brosiect ymchwil gyda Chanolfan Ymchwil a Datblygiad Gofal Cymdeithasol Plant CASCADE, yn gysylltiedig â Phrifysgol Caerdydd, ynghyd â Thîm Diogelu Conwy a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Thîm Diogelu Casnewydd. CASCADE yw'r prif ganolfan ar gyfer ymchwil gwerthusol i Ofal Cymdeithasol Plant yn y DU, a'u nod yw 'gwella lles, diogelwch a hawliau plant a'u teuluoedd'. Mae'r ymchwil yr ydym yn rhan ohono yn canolbwyntio ar ganlyniadau gwasanaeth ar gyfer plant sydd wedi profi cam-fanteisio troseddol, ac mae'n astudiaeth achos o siwrnai gwasanaeth plant sydd wedi profi cam-fanteisio troseddol mewn dwy ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru: Conwy a Chasnewydd. Bydd y prosiect dwy flynedd yn creu astudiaethau achos manwl o brofiadau pobl ifanc sydd wedi'u camfanteisio'n droseddol o'r llwybrau, darpariaeth a chanlyniadau gwasanaeth, pum mlynedd cyn derbyn atgyfeiriad a hyd at ddwy flynedd wedi hynny.

Diogelu pobl ifanc pan maent allan

Yn ystod y pandemig Covid, fe ddaeth gweithgor aml-asiantaeth ynghyd i edrych ar wahanol ffyrdd o leihau camfanteisio ar blant yn ystod y cyfnod anodd hwnnw. Mae'r grŵp yn parhau ac yn cynnwys cynrychiolwyr o:

- Ganolfannau Teuluoedd

- Gwasanaethau Ieuenctid
- Gwasanaethau Addysg
- Gofal Cymdeithasol i Blant
- Gwasanaethau Iechyd Plant
- Heddlu Gogledd Cymru

Eleni fe ganfuom fwlch mewn gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc i ofyn am gymorth yn gyfrinachol wrth fod allan yn y gymuned. Rydym wedi edrych ar wasanaethau sydd eisoes ar gael i bobl ifanc i ofyn yn dawel am gymorth, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn dibynnu ar ffonau neu gysylltiad â'r rhyngrwyd, nad ydynt bob amser ar gael i'r bobl ifanc mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau.

Felly rydym wedi bod yn gweithio gyda Chyngor yr Ifanc a'r gymuned gyffredinol o bobl ifanc yng Nghonwy i benderfynu os fydd gwasanaeth math 'Ask for Angela' yn fuddiol iddyn nhw mewn sefyllfa anodd. Cyflawnwyd arolwg yn 2023 yn gofyn i bobl ifanc a oedden nhw neu bobl ifanc yr oeddent yn eu hadnabod yn gorfod gwneud pethau nad oeddent eisiau eu gwneud, ac roedd eu hymatebion yn dweud wrthym ni fod hyn yn wir. Sylwch y gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nac un dewis, felly nid yw'r canlyniadau yn dod i gyfanswm o 100%.

- 44% cymryd cyffuriau
- 48% dwyn
- 33% gweithredoedd rhywiol
- 56% bygwth pobl
- 55% trais
- 50% fandaliaeth

O'r rhai a ymatebodd, dywedodd 40% eu bod wedi bod mewn sefyllfa lle roeddent eisiau gofyn am gymorth ar gyfer eu hunain, ffrindiau neu aelod o'r teulu, ond nid oeddent wedi gallu gwneud hyn. Dywedodd 88% y byddent yn hoffi gallu gofyn am gymorth heb fod yn rhy amlwg i'r bobl o'u hamgylch.

Pan ofynnwyd ble yr hoffent fynd i gael cymorth, ymatebwyd:

- 72% siopau
- 72% canolfan ieuenctid
- 49% siop trin gwallt
- 30% salon ewinedd
- 18% gorsaf betrol
- 45% sefydliadau bwyd brys
- 79% ysgol neu goleg

Ein cynllun gweithredu

Dros y misoedd nesaf bwriadwn sefydlu grwpiau ffocws o bobl ifanc o sectorau gwahanol yn y gymuned, i sicrhau ein bod yn cipio safbwyntiau cynifer o bobl ifanc â phosibl; wrth gwrs byddwn hefyd yn parhau i gynnwys Cyngor yr Ifanc. Byddwn hefyd yn cyflwyno syniad prosiect i weithgor rhanbarthol gyda'r golwg o weithio ar draws y rhanbarth.

Dull trosiannol i ddiogelu

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn awyddus i ddatblygu dull trosiannol mewn perthynas â diogelu, gan gydnabod fod pobl ifanc yn wynebu risg y tu allan i'w cartref, er enghraifft, cyffuriau, gangiau a thrais ieuenctid, a cham-fanteisio rhywiol a throseddol. Gall bobl ifanc fod yn fwy diamddiffyn i'r ffynonellau o niwed tu allan i'r teulu, wrth iddynt ddod yn fwy annibynnol a mwynhau mwy o ryddid, ac wrth iddynt gael eu dylanwadu'n fwy gan eu cyfoedion a ffrindiau yn hytrach na'u teuluoedd. Yn erbyn cefndir o newidiadau corfforol, emosiynol a gwybyddol, gall bobl ifanc fod yn fwy agored i ymddygiad peryglus. Rydym o'r farn:

- Bod gan bobl ifanc anghenion diogelu penodol o'i gymharu â phlant iau, ac mae peryglon, niwed a llwybrau ar ddiogelu yn cael eu tanategu gan ffactorau datblygiadol a chymdeithasol cymhleth
- Mae bod yn ifanc a'r trosglwyddiad i fod yn oedolyn yn cynnwys nifer o heriau o fewn bywydau pobl ifanc, gan wneud hwn yn gyfnod heriol a bregus pan mae cymdeithas eisoes yn eu gweld nhw fel 'trafferth'
- Tra bod systemau diogelu a chefnogi gwasanaethau plant fel arfer yn dod i ben yn 18 oed, gall y profiadau o niwed a thrawma yn ystod plentyndod, ieuenctid a throi'n oedolyn barhau i effeithio ar bobl ifanc, gydag anghenion heb eu diwallu angen ymyrraeth gymhleth yn ddiweddarach mewn bywyd.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r timau Diogelu Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn yng Nghonwy i edrych ar ddatblygu llwybr a pholisi diogelu trosiannol i bobl ifanc. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith diogelu cyd-destunol sydd eisoes yn mynd rhagddo.

Awgrymiadau yn hytrach na tharo plant

Ar 21 Mawrth 2022 newidiodd y gyfraith yng Nghymru, mae hi bellach yn anghyfreithlon i gosbi plant yn gorfforol. Ar ôl cyhoeddi'r ddeddfwriaeth newydd ar ein gwefan a thrwy ein Canolfannau i Deuluoedd, fe luniom daflen wybodaeht dulliau cadarnhaol i gefnogi rhieni i ddod o hyd i ffyrdd amgen o ddehongli ac ymateb i ymddygiad plant. Mae'n darparu canllawiau adeiladol ar gydweithio fel teulu, pethau i rieni roi cynnig arnynt pan maent ar ddiwedd eu tennyn, a dangos pam fod taro plentyn yn syniad gwael. Darperir cysylltiadau ar gyfer cymorth yn lleol, yn ogystal â chysylltiadau i adnoddau defnyddiol ar-lein. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos diddordeb mewn defnyddio'r daflen wybodaeth ledled Cymru.

Dyma rai ffigyrau:

Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddylunio i gipio effaith ar y gyfraith newydd yng Nghymru.

402 - Nifer y cysylltiadau am blant a dderbyniwyd yn ytod y flwyddyn lle roedd cosbi'n gorfforol yn ffactor

Gweithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor

Eleni rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Dr Cheryl Davies o Brifysgol Bangor ar rai rhaglenni hyfforddi. Cafodd y cyntaf, Pennod Newydd/New Chapter, ei grybwyll yn yr adroddiad y llynedd, ac wedi'i anelu at fynd i'r afael â chamdriniaeth plentyn i riant. Rydym yn falch o adrodd fod 45 o staff wedi cael eu hyfforddi o ystod o wasanaethau ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a'r Sector Gwirfoddol. Yn bwysicach, mae'r rhaglen wedi cael ei gyflwyno i ddau gohort o deuluoedd dros y misoedd diwethaf ac mae'r adborth yn gadarnhaol iawn. Mae'r ddau gohort wedi gofyn am sesiynau dilynol, ac rydym bellach yn hwyluso sesiynau 'aros mewn cyswllt' yn ein Canolfannau i Deuluoedd.

Yn sgil ystod oedran y plant a phobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio i ni, byddwn yn adolygu sut ydym yn hwyluso sesiynau ar eu cyfer, er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn briodol ar gyfer eu hoedran. Byddwn hefyd yn cydlynu sesiwn myfyrio ar gyfer staff sydd wedi derbyn hyfforddiant Pennod Newydd/New Chapter gyda Cheryl, gyda'r golwg o hyfforddi mwy o staff yn y dyfodol.

Fe wnaethom hefyd weithio gyda Cheryl ar Hyfforddiant Oxford Brain Story, peilot rhanbarthol i staff ddeall effaith trawma yn ystod plentyndod ar yr ymennydd sy'n datblygu, a sut i adeiladu ymennydd cryfach. Derbyniodd chwe aelod o staff o bob sir yng Ngogledd Cymru'r hyfforddiant fel rhan o'r gweithgor trawsnewid rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 a 7 oed. Mae'r hyfforddiant yn cael ei werthuso gyda'r golwg o gyflwyno'r rhaglen i holl staff yr Awdurdod Lleol. Bydd yr adborth a gesglir trwy holiaduron cyn ac ar ôl yr hyfforddiant yn cael ei fwydo i'r grŵp rhanbarthol.

Fforwm Amlasiantaethol Cam-drin Plant yn Rhywiol (MACSAF)

Y llynedd fe wnaethom drafod ein trefniadau MACSAF, a'r nod o'u datblygu ymhellach, hyrwyddo'r grŵp a sefydlu hyfforddiant ar gyfer grwpiau staff ehangach. Yn anffodus mae hi wedi bod yn flwyddyn anodd i ni, gyda nifer o aelodau'n symud i swyddi eraill tu allan i ardal yr Awdurdod Lleol. Allan o tua 20 o aelodau, mae pedwar neu bump o aelodau craidd sydd bob amser yn mynychu cyfarfodydd ac yn cynnig cefnogaeth ymgynghori a hyfforddi. Fodd bynnag, mae'n llawer mwy anodd i'r grŵp ehangach ymrwymo, ac o ganlyniad i leihad mewn niferoedd, rydym wedi cynnal arolwg i archwilio'r rhesymau. Roedd y canlyniadau'n dangos fod yr holl aelodau yn gweld manteision MACSAF ac yn dymuno gwneud mwy oni bai am bwysau eu swyddi dyddiol.

Er hyn, rydym wedi cynnig oddeutu dwsin o ymgynghoriadau trwy gydol y flwyddyn, ac wedi bwydo i mewn i nifer o ddigwyddiadau hyfforddi. Rydym yn parhau i gadw mewn cysylltiad gyda Chanolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol ac yn mynychu hyfforddiant gloywi. Rydym wedi cynghori Awdurdodau Lleol eraill megis Caerdydd, ar sut i ddefnyddio'r cwrs a sefydlu MACSAF eu hunain.

Sut y gallwn wella

Er gwaethaf nifer o ymdrechion mae'n anodd iawn parhau i gynnal y grŵp MACSAF. Rydym yn bwriadu gweithio gyda'n Tîm Dysgu a Datblygu'r Gweithlu i gael eu cefnogaeth i gadw'r adnodd gwerthfawr hwn i fynd.

Cynyddu capasiti ar flaen drws ein plant

Yn yr adroddiad y llynedd fe wnaethom drafod y rolau Gweithiwr Cefnogi ac Asesu newydd yr oeddem wedi'u cyflwyno er mwyn cynyddu ein capasiti o fewn y gwasanaethau plant. Gallwn adrodd fod y peilot wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan. Mae lefel uchel o foddhad swydd, gyda'r pedwar gweithiwr yn mwynhau eu rolau ac yn teimlo eu bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'r Gweithwyr Cefnogi ac Asesu yn gallu asesu, cynllunio, adolygu a chario achosion Cynllun Gofal a Chymorth; mae eu profiad wedi tyfu yn y flwyddyn ddiwethaf ac maent oll yn weithwyr cymwys.

Mae'r cyfle hwn wedi darparu cynnydd mewn cyflog o'u rolau blaenorol, ac fe ystyrir hyn yn ddatblygiad mewn gyrfa ar gyfer rhai o'r gweithwyr, nad oedd wedi gwneud cynnydd yn ffurfiol ers rhai blynyddoedd. Gan fod recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol yn parhau o fod yn broblem, mae'r peilot hwn wedi ein galluogi ni i gyflogi gweithwyr medrus i lenwi'r bwlch hwnnw. Pe na fyddai'r Gweithwyr Cefnogi ac Asesu mewn lle, byddai 80 o achosion CASP wedi cael eu rhoi i weithlu Gofal Cymdeithasol sydd wedi lleihau. Mae ein Gweithwyr Cymdeithasol hefyd wedi elwa o gael math gwahanol o weithwyr medrus o fewn yr adran, ac mae hyn wedi cynyddu'r sgiliau a gwybodaeth o fewn y tîm.

Sut y gallwn wella

- Ni all Weithwyr Cefnogi ac Asesu brosesu archwiliadau Adran 47, achosion Amddiffyn Plant, achosion Plant sy'n Derbyn Gofal nac asesiadau achosion cyfraith preifat, felly mae'r llwyth gwaith cynyddol hwn wedi gorfod cael ei gwblhau gan nifer gostyngol o Weithwyr Cymdeithasol.

- Gan nad all Weithwyr Cefnogi ac Asesu gael eu cynnwys ar y rota Adran 47, mae Gweithwyr Cymdeithasol ar ddyletswydd yn llawer mwy aml.
- Cafodd y Gweithwyr Cefnogi ac Asesu daliad honorariwm yn hytrach na chynnydd mewn graddfa, felly mae angen adolygu hyn i wneud yn rôl yn fwy apelgar.
- Mae'r Gweithwyr Cefnogi ac Asesu yn teimlo bod eu swyddi yn fregus, wrth i'r peilot barhau i gael ei ymestyn.

Mewn ymateb i'r materion hyn, rydym yn cysylltu yn rheolaidd gydag Adnoddau Dynol, gyda'r golwg o greu sefydlogrwydd a pharhad yn y rôl. Fodd bynnag, mae prosiect ehangach, ar wahân, yn edrych ar rôl Ymarferydd Gofal Cymdeithasol, a fydd yn cynnwys dyletswyddau Gweithiwr Cefnogi ac Asesu. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at oedi o ran creu unrhyw fath o barhad yn y rôl.

Y ogystal â hyn, nid oes penderfyniad terfynol wedi cael ei wneud o ran a fydd newid parhaol yn cael ei wneud o ganlyniad i'r peilot. Yn sicr, mae recriwtio yn parhau i fod yn broblem sylweddol, ac yn gyson nid oes unrhyw ymgeiswyr ar gyfer swyddi gwag Gwaith Cymdeithasol.

Ein cynllun gweithredu

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Tîm Dysgu a Datblygu'r Gweithlu o ran datblygu rôl Ymarferydd Gofal Cymdeithasol, a sut all y Gweithwyr Cefnogi ac Asesu lywio hynny. Bydd angen i'r gwasanaeth wneud penderfyniad o ran cadw rôl y Gweithwyr Cefnogi ac Asesu, neu fynd yn ôl i swyddi Gwaith Cymdeithasol a cheisio recriwtio i rolau cymwys.

Sicrhau bod gweithgareddau yn y gymuned yn hygyrch i bawb

Dwygyfylchi

Cyflawnodd ein Tîm Lles Cymunedol ymarfer mapio a phroffilio cymuned, a daeth i'r amlwg yn Nwygyfylchi, oni bai am grŵp rhandir, grŵp bowlio a grŵp rhedeg, nid oedd llawer o ddarpariaeth ar gael yn yr ardal. I'r gwrthwyneb, ym Mhenmaenmawr, roedd ystod o weithgareddau ar gael, felly fe benderfynom ganolbwyntio ar Ddwygyfylchi fel blaenoriaeth.

Yn dilyn mwy o ymgysylltiad gyda busnesau lleol, pobl allweddol ac aelodau'r gymuned, fe nodom mai ein prif flaenoriaeth oedd helpu i godi ymwybyddiaeth o grŵp rhandir presennol y pentref a oedd angen gwirfoddolwyr newydd.

Roedd 'Wythnos Genedlaethol y Tyfwyr' yn gyfle gwych i wahodd pobl draw i'r grŵp rhandir i weld beth maent yn ei gynnig ac i annog mwy o wirfoddolwyr i ymuno â'r grŵp. Hyd yn hyn rydym wedi bod yn llwyddiannus yn eu helpu i recriwtio chwe gwirfoddolwr newydd, gan ddyblu capasiti gwirfoddoli'r grŵp. Mae'r grŵp hefyd wedi adrodd fod nifer yr ymwelwyr hefyd wedi cynyddu dros draean, felly mae'r neges yn lledaenu.

Fe wnaethom gynnig cefnogaeth i helpu hyrwyddo'r grŵp trwy greu poster, eu hyrwyddo trwy ein rhaglenni cymunedol lleol a chanllawiau 'beth sydd 'mlaen', ac ariannu baner i fynd ar y rheiliau yng nghanol y pentref.

Sut y gallwn wella

Mae'r ymarfer wedi amlygu diffyg canolfan gymunedol neu leoliadau amgen hyfyw i gynnal gweithgareddau megis dosbarthiadau ymarfer corff yn Nwygyfylchi. Er y gallwn ddewis cynnal sesiynau yn y cymunedau gerllaw, megis Penmaenmawr neu Bensychnant, nid oes gan bawb

y gallu i deithio yno, ac mae'r gwasanaeth bysiau lleol yn afreolaidd. Er ein bod wedi cynnal bore coffi yn Nhafarn y Gladstone, yn anffodus ni chafwyd llawer o fynychwyr, ac roedd prynhawn lles yng Nghanolfan Gadwraeth Pensychnant yn profi'n anodd i bobl heb gludiant i fynychu. Mae Neuadd Gymunedol Capelulo yn parhau i gael ei adnewyddu, fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd ar gael fel lleoliad ar gyfer gweithgareddau lles, nid yw'n hawdd i bobl fynychu os nad ydynt yn gyrru.

Ein cynllun gweithredu

Wrth symud ymlaen, byddwn yn defnyddio'r Neuadd Gymunedol unwaith y bydd ar agor ac ar gael i ni. Yn ystod y digwyddiadau a gynhaliom eleni, mynegodd nifer o bobl ddiddordeb mewn dosbarthiadau ymarfer corff yn y gadair, felly byddwn yn ail-ymweld â hynny yng Ngwanwyn 2024. Wrth ddisgwyl am y neuadd i agor, efallai gallwn ddefnyddio'r mannau gwyrdd tu allan wrth i'r tywydd gynhesu. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi a hyrwyddo grŵp rhandir Dwygyfylchi pan fydd angen.

Bae Cinmel

Penderfynodd y tîm ddynodi Swyddog Lles i gyflawni gwaith ym Mae Cinmel. Roeddem wedi canfod diffyg darpariaeth o weithgareddau yn yr ardal ar gyfer oedolion hŷn, ac mae un ardal ym Mae Cinmel yn un o'r 10-20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Cyflawnodd y tîm ymarfer mapio a phroffilio cymunedol yn yr ardal gan gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau i'n helpu ni ymgysylltu gydag aelodau'r gymuned sy'n byw ym Mae Cinmel. Roedd y rhain yn cynnwys taith gerdded, digwyddiad cymunedol a stondinau codi ymwybyddiaeth yn y feddygfa leol ac archfarchnad Asda.

O ganlyniad i'r daith gerdded, mynegodd tri o'r mynychwyr ddiddordeb mewn cwrdd ar gyfer taith gerdded gymdeithasol yn fwy rheolaidd. Fe wnaethom hyrwyddo'r daith gerdded ymysg y bobl a fynychodd ein digwyddiad lles, a dywedodd chwe unigolyn arall yr hoffent gymryd rhan. Roedd un ddynes yn awyddus i wirfoddoli ei hamser i arwain a threfnu'r teithiau, a gyda chaniatâd eraill, mae hi wedi creu grŵp sgwrsio i drefnu dyddiadau ac amseroedd. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda hi i drefnu'r daith gyntaf a byddwn yn parhau i roi mewnbwn tan fydd y teithiau cerdded yn ddigwyddiad sy'n cynnal ei hun.

Llandrillo-yn-Rhos

Fe sylwom fod cynnydd wedi bod mewn atgyfeiriadau i'r tîm gan bobl yn byw yn Llandrillo-yn-Rhos, ac fe sylwom fod un o'r eglwysi lleol wedi cau. Roedd hyn yn golygu nad oedd rhai darpariaethau yn yr ardal ar gael bellach; a bod rhai wedi dod i ben yn gyfan gwbl, tra bod eraill wedi symud i leoliadau gwahanol ym Mae Penrhyn. Felly fe gyflawnom mwy o waith i ganfod a oedd Llandrillo-yn-Rhos angen bod yn ardal o ganolbwynt ar gyfer y tîm. Wrth edrych ar amrywiaeth o ddata a gwybodaeth, nodom fod y ddarpariaeth yn brin iawn, gyda nifer o weithgareddau yn digwydd unwaith y mis yn unig. Gan fod yr ardal â'r boblogaeth uchaf o bobl hŷn yn y sir, yn ogystal â'r nifer uchaf o bobl dros 65 oed yn byw ar eu pen eu hunain, fe benderfynom ei fod yn ardal ar gyfer blaenoriaeth.

Fe drefnom ystod o ddigwyddiadau ymgysylltu, gan gynnwys stondinau yn yr archfarchnad co-op leol, taith gerdded ar hyd y promenâd a digwyddiad lles. Fe ddefnyddiom y rhain fel cyfle i hyrwyddo'r ddarpariaeth bresennol ar gael yn yr ardal, ac i sgwrsio gydag oedolion hŷn sy'n byw yn lleol i weld a oedd unrhyw beth yr hoffent gymryd rhan ynddynt, nad oedd ar gael ar hyn o

bryd. O ganlyniad, awgrymwyd sesiynau canu am hwyl, felly fe gysylltom â Goldies Cymru i sefydlu prosiect partneriaeth i ddarparu sesiynau canu a gwenu misol yn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig leol.

Mae'r sesiynau misol wedi cael eu harwain gan y tîm ers Ebrill 2023 ac mae presenoldeb yn dda iawn. Yn ddiweddar rydym wedi canfod rhywun a hoffai wirfoddoli fel arweinydd sesiwn ar gyfer y grŵp, a gobeithiwn y byddent yn ei gynnal o fis Mawrth 2024 er mwyn parhau gyda'r sesiynau yn hunangynaliadwy.

Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol (TU) yn daliadau arian parod sy'n cael eu talu i unigolion er mwyn iddynt allu trefnu eu cefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion Gofal Cymdeithasol a aseswyd. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd, dewis a rheolaeth iddynt o ran sut mae eu gofal yn cael ei ddarparu.

Fe grybwyllom yn yr adroddiad y llynedd fod y gwasanaeth yn cael ei ail-strwythuro ychydig, ac mae hyn wedi ei gwblhau bellach. Yn ystod 2022-2023, mae'r tîm wedi cyflawni'r canlynol:

- Yn dilyn ymgynghoriad â derbynwyr presennol TU, rydym wedi datblygu a sefydlu rhaglen hyfforddiant i sicrhau fod staff rheng flaen yn hyderus i godi ymwybyddiaeth a darparu cefnogaeth i unigolion cymwys sy'n dymuno derbyn eu cefnogaeth drwy TU.
- Rydym wedi sefydlu Cynllun Hunan-ariannu ar gyfer unigolion, na fyddai'n gymwys am y cynnig TU yn ôl canlyniad yr Asesiad Ariannol, ac yn teimlo dan anfantais.
- Rydym wedi peilota cynllun ar gyfer unigolion sydd ag asesiad o anghenion sy'n nodi angen i fynd i ofal preswyl, ond yn dymuno aros adref gyda chefnogaeth wedi'i deilwra. Ar ôl ymateb cyhoeddus cadarnhaol, mae'r cynllun wedi cael ei fabwysiadu fel dewis model darpariaeth gwasanaeth.
- Wedi dechrau proses o godi proffil TU yn gyhoeddus a chreu cysylltiadau gweithio agosach gyda'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol trwy gyflwyniadau a digwyddiadau cyhoeddus.
- Wedi dechrau proses o godi proffil cyfleoedd gwaith trwy TU, trwy fynychu ffeiriau swyddi, canolfan waith Bae Colwyn a Llandudno bob yn ail wythnos, digwyddiadau mewn ysgolion a cholegau, gweithio gyda Chanolbwynt Cyflogaeth Conwy a Mentor Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol a chymryd rhan mewn sesiynau Radio Bae Colwyn.
- Wedi cymryd rhan mewn amryw o weithgorau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygiad parhaus TU ar draws Cymru.
- Dyfarnu contract newydd i ddarparwr cefnogi allanol, gyda'r rôl o weithio gydag unigolion sy'n dymuno cyflogi eu staff eu hunain wrth iddynt fynd trwy'r broses recriwtio.

Sut y gallwn wella

Mae'r tîm wedi ymgysylltu gyda nifer o bartneriaid, yn fewnol ac allanol, yn ystod y flwyddyn. Trwy'r gwaith ymgysylltu hwn, rydym yn cydnabod bod meysydd i ganolbwyntio arnynt ar gyfer derbynwyr, staff mewnol, sefydliadau allweddol, a'r cyhoedd.

Roedd rhai derbynyddion yn teimlo bod y broses sefydlu gychwynnol yn gymhleth. Er mwyn gwella hyn, mae adolygiad llawn wedi'i gyflawni ac mae'r broses wedi ei symleiddio. Yn ogystal, mae holl rannau mewnol y broses wedi symud er mwyn bod o dan y tîm TU.

Mae rhai derbynyddion sydd eisiau cyflogi staff yn uniongyrchol, wedi teimlo rhwystredigaeth o ran yr amser y gall gymryd i recriwtio staff. Er mwyn cydnabod hyn, rydym wedi datblygu cylched o hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth, wedi cynnwys dewisiadau cofrestru ar gyfer y rhai sydd â

diddordeb mewn gweithio o dan TU ond lle nad oedd swydd addas ar gael pan oeddent yn edrych.

Mae staff newydd, yn benodol, wedi adrodd nad ydynt bob amser yn hyderus i drafod TU gydag unigolion fel rhan o'r broses asesu. Er mwyn gwella hyder staff mewn perthynas â'r testun, mae rhaglen hyfforddiant hanner diwrnod anffurfiol mewn lle, a ddarperir bob dau fis, i holl staff fynychu. Rydym hefyd wedi cyflawni adolygiad proses llawn er mwyn symleiddio camau o'r broses ac i sicrhau fod staff yn glir ar beth yw eu rôl a'r broses i ddilyn. Mae'r arferion gweithio newydd wedi cael eu sefydlu i'r rhaglen hyfforddiant ac mae llif gwaith staff wedi'i gyhoeddi.

Rydym yn weithgar o ran mynychu digwyddiadau cyhoeddus ac mae'r adborth a dderbyniwyd mewn perthynas â gweithredu TU yng Nghonwy yn gadarnhaol. Mewn rhai achosion, nid yw unigolion yn ymwybodol o TU. Os yw unigolion yn hysbys i Ofal Cymdeithasol a/neu gefnogaeth y Sector Gwirfoddol ai peidio, rydym yn gweithio i gau'r bwlch hwn.

Ar lefel genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld cynnydd yn nefnyddwyr TU ar draws Cymru. Rydym yn sicrhau ein bod yn aelodau gweithredol o weithgorau Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r canlyniad hwn.

Ein cynllun gweithredu

Rôl y tîm yw parhau i ddatblygu Taliadau Uniongyrchol er mwyn sicrhau ei fod yn fodel darpariaeth gwasanaeth hyfyw ar gyfer cynifer o unigolion â phosibl, yn unol â dymuniadau, disgwyliadau a deddfwriaethau newidiol. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, bwriadwn:

Codi proffil

- Parhau i godi proffil TU i unigolion fel dull cefnogi a/neu gyfleoedd cyflogaeth a chreu cysylltiadau/cyfleoedd newydd i ymestyn o fewn cymunedau lleol.

Sicrhau mynediad hawdd i Daliadau Uniongyrchol ar gyfer unigolion

- Os yw unigolyn eisoes yn hysbys i'r adran ac yn derbyn cymorth cymwys, y nod yw galluogi unigolion i gyfeirio eu hunain i'r Tîm TU yn hytrach na gorfod gwneud hyn trwy Weithiwr Cymdeithasol.
- Cwblhau trosglwyddiad staff a gyflogir trwy TU i'r gwasanaeth diweddaru GDG, gan dynnu'r angen am wiriadau adnewyddu a chyflymu'r amserlen recriwtio yn y dyfodol.

Ei gwneud yn haws rheoli Taliad Uniongyrchol

- Cyflwyno taliadau anuniongyrchol, ar gyfer yr unigolion hynny sydd eisiau'r dewis a'r rheolaeth o ran TU, ond nid y cyfrifoldeb o reoli arian.
- Byddwn yn ehangu mynediad i ddogfennau a thempledi electroneg ar gyfer derbynyddion TU er mwyn eu cefnogi i gynnal eu cyfrifoldebau.
- Byddwn yn cynyddu nifer yr ymweliadau cartref gan y Tîm TU ar gyfer yr unigolion hynny sy'n dymuno cael rhyngweithiad wyneb yn wyneb yn ystod sefydlu a gweithredu eu TU.

Monitro diogelwch

- Byddwn yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol yn natblygiad gwasanaeth GDG rhanbarthol, i hwyluso gwiriadau staff gofal a gyflogir trwy TU.

Cysylltu gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol

- Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu'r defnydd o TU ar gyfer anghenion iechyd.

Gwerthfawrogi staff gofal

- Byddwn yn adolygu'r hyfforddiant sydd ar gael i ofalwyr a gyflogir o dan y cynllun, er mwyn cynnwys sut, beth a ble caiff ei ddarparu er mwyn ei wneud yn effeithiol.
- Cydnabod rôl staff gofal TU i gefnogi recriwtio a chadw, gan gynnwys mynediad at wasanaethau iechyd a lles a chynlluniau gwobrwyo allanol.
- Byddwn yn cynyddu gwaith hyrwyddo'r cynllun cyfleoedd cyflogaeth ar draws y sir.

Peilot incwm sylfaenol i'r rhai sy'n gadael gofal

Mae'r Peilot Incwm Sylfaenol yng Nghymru yn darparu pobl ifanc cymwys sydd wedi bod mewn gofal, a'r cyfle i dderbyn £1600 (cyn treth) y mis am gyfnod o ddwy flynedd. Ledled Cymru mae 635 o bobl ifanc yn cymryd rhan yn y cynllun, sy'n gyfradd o 97%. Mae wyth o'r rhain o Gonwy, ac o'r rhain mae pedwar cyfranogwr wedi cael profiad cadarnhaol gyda'r Peilot. Mae tri o'r pedwar yn gweithio llawn amser ac yn gallu cynilo caran mawr o'u taliad Peilot Incwm Sylfaenol. Mae'r pedwerydd person ifanc yn gweithio rhan amser, ond mae bod yn rhan o'r peilot yn golygu y gallent rentu eu fflat eu hun, talu'r holl filiau cyfleustodau a dodrefnu eu tŷ.

Mae'r Peilot Incwm Sylfaenol wedi rhoi cyfle i rai cyfranogwyr gynilo arian ar gyfer unrhyw ddyheadau ar gyfer y dyfodol, megis prynu tŷ eu hunain, a chael heddwch meddwl fod ganddynt arian tu ôl iddynt.

Sut y gallwn wella

Roedd y broses gyfathrebu i ledaenu gwybodaeth hanfodol i'r Awdurdod Lleol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cefnogi pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, angen gwella, gan nad oedd cyfnod o rybudd clir yn arwain at y cynllun ar gael. Byddai arfer da hefyd wedi golygu rhoi cyfle i gyfranogwyr, boed yn weithwyr proffesiynol neu bobl ifanc, ymgynghori ar y cynllun.

Yn ogystal, mae'r cynllun wedi bod yn llai llwyddiannus ar gyfer y pedwar cyfranogwr arall, ac mewn gwirionedd wedi achosi eu sefyllfa i ddirywio yn hytrach na gwella. Mae un o'r cyfranogwyr wedi bod yn defnyddio'r arian i ariannu eu camddefnydd o sylweddau, ac mae un arall wedi cael eu targedu gan ffrindiau sydd wedi camfanteisio arnynt yn sgil eu bregusrwydd a mynediad at arian bob mis. Mae cyfranogwr arall wedi colli pob cymhelliant ers derbyn yr arian Peilot Incwm Sylfaenol ac yn byw ar fwyd cyflym, ac yn amharod i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, sydd bellach yn rhoi eu cytundeb trwydded mewn risg. Felly, dysgeidiaeth allweddol o'r peilot yw bod angen proffilio'r unigolyn ifanc sy'n gymwys, er mwyn sicrhau y gallent ddefnyddio'r cyfle hwn i ffynnu yn hytrach nac amlygu eu gwendidau.

Ein cynllun gweithredu

Mae rhai o'r cyfranogwyr bellach wedi mynd i'w hail flwyddyn yn y cynllun. Mae'r Ymgynghorwyr Personol yno i gefnogi'r wyth, ac yn cysylltu'n rheolaidd â nhw. Maent yn cynnig cyngor ac arweiniad ar ystod o faterion a bob amser yno i gynnig cymorth gyda chyllidebu, atgyfeiriadau i asiantaethau perthnasol os oes angen, ac unrhyw gymorth emosiynol sydd ei angen.

Gwybodaeth Arall

Arolygon ac adolygiadau

Ym Mawrth 2023 cymerodd ein Gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Diogelu ran mewn adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc yn destun cyn-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO). Pan mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn bryderus am les plentyn, gallent gynnal cyfarfod PLO neu gyfarfod cyn-achosion. Os na wneir newidiadau neu welliannau digonol yn dilyn y cyfarfod, yna gall yr Awdurdod Lleol wneud cais i'r llys a gofyn am orchmynion i ddiogelu'r plentyn.

Pwrpas adolygiad AGC oedd darparu craffu allanol, sicrwydd ac i hyrwyddo gwelliant o ran cynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n destun cyn-achosion amlinelliad cyfraith gyhoeddus.

Roedd yr adolygiad yn amlygu ein bod yn elwa o dîm rheoli profiadol a sefydlog o fewn y gwasanaethau plant, sy'n goruchwylio gweithdrefnau mewn perthynas â PLO yn effeithiol. Roedd yr adolygiad yn amlygu dull cyson i arferion gorau mewn perthynas â chanllawiau statudol, a thystiolaeth hefyd o ddull clir gan reolwyr ac aelodau staff ymhob cam o'r broses.

O ran gwelliannau, roedd yr adolygiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer arferion yn y dyfodol i sicrhau:

- Proses asesu amserol sy'n osgoi oedi
- Rhannu gwybodaeth yn gyson gyda rhieni a phlant, a chyfathrebu clir gyda rhieni fel blaenoriaeth
- Dulliau o gael adborth gan rieni a theuluoedd o ran ein gwaith
- Bod llais y plentyn yn cael ei gipio yn y broses

Yn dilyn yr adolygiad rydym wedi cyflwyno system sicrhau ansawdd gwell sy'n olrhain proses asesu PLO o ddiwrnod 1 i ddiwrnod 42. Yn ogystal â'r taflennu gwybodaeth rydym yn ei roi i deuluoedd, rydym hefyd yn defnyddio Mind of My Own, sy'n ein galluogi ni i gipio llais y plentyn yn uniongyrchol trwy'r ap.

Gallwch weld canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad ar wefan AGC.

Cwynion a sylwadau

Mae hawl gan bawb sy'n gwneud cwyn am y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru i gael eu clywed. Rhaid i'w barn, eu dymuniadau a'u teimladau gael eu clywed, a dylai eu pryderon gael eu datrys yn gyflym ac yn effeithiol. Gall gwynion amlygu lle mae angen i wasanaethau newid, felly mae'n bwysig fel Awdurdod Lleol, ein bod yn dysgu ohonynt, er mwyn canfod lle gallwn wneud newidiadau a gwelliannau.

Credwn fod delio'n effeithiol â chwynion yn rhan hollbwysig o'n cyfrifoldebau, ac mae proses gadarn i ddelio â chwynion yn elfen hanfodol o sicrhau bod ein dinasyddion yn derbyn y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae hyn yn ein galluogi i:

- Gydnabod yn gyflym pan fydd camgymeriadau wedi cael eu gwneud
- Eu cywiro yn effeithiol ac ymddiheuro pan fo hynny'n briodol
- Sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion

Mae'r rhesymau mwyaf cyffredin dros wneud cwyn yn cynnwys:

- Eisiau cael eu clywed
- Eisiau sicrhau bod pryderon yn cael eu cydnabod a'u cymryd o ddifrif
- Eisiau sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i ddatrys problemau ac i osgoi digwyddiadau tebyg yn y dyfodol
- I gael ymddiheuriad

Mae'r Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014. Mae cyfeiriad hefyd at Gwynion a phwysigrwydd Eiriolaeth yn Rhan 10 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Hefyd, dosbarthwyd Canllawiau i ymdrin â Chwynion a Sylwadau gan Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol i bob Awdurdod Lleol ym mis Mai 2014 er mwyn cynllunio ar gyfer eu gweithredu'n gyflawn o 1 Awst 2014 ymlaen.

Mae'r Rheoliadau a'r canllawiau hyn yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer:

- Sefydlu gweithdrefn gwynion
- Dynodi Uwch Swyddog Cwynion i fod yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau a wneir gan yr Awdurdod Lleol
- Penodi Swyddog Cwynion i reoli'r drefn
- Hyfforddi staff
- Chynhyrchu Adroddiad Blynyddol

Os yw'n bosibl, bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio ymdrin â'r mater ar unwaith yn hytrach na cheisio datrys y broblem yn nes ymlaen. Os oes gan ddinesydd bryder o ran arferion, byddwn yn ceisio datrys y mater ar unwaith neu o fewn 24 awr o godi'r mater. Os yn llwyddiannus, nid oes angen cofnodi'r digwyddiadau hyn fel 'cwyn ffurfiol', maent yn hytrach yn cael eu cofnodi fel 'pryder' ar ein system gwybodaeth cleientiaid.



Er mwyn deall faint o gwynion a dderbyniom yn ystod 2022-23, roeddent yn cynrychioli 0.38% y nifer o oedolion oedd yn derbyn gofal a chymorth a 1% o blant a phobl ifanc oedd yn derbyn gwasanaethau. Ar y cyfan, fe dderbyniom 22 o gwynion ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Gall y

gostyngiad mewn cwynion a dderbyniwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf ei weld yn y graff uchod.

Daeth yr effaith ariannol ar Gonwy fel Awdurdod Lleol, o ran costau penodi Ymchwilwyr Annibynnol neu Unigolion Annibynnol i gwblhau'r broses Ymchwilio yng Ngham 2 i gyfanswm o £9,162.77. Roedd hyn yn gynnydd o'i gymharu â £5,426.00 yn 2021/22.

Er mai ond dau Ymchwiliad Annibynnol Cam 2 a wnaed yn 2022/23, mae'r gwariant hwn yn cynnwys cost Ymchwiliad Annibynnol a gwblhawyd yn 2021/22, ond a oedd heb ei gyfrif tan y flwyddyn ariannol ddilynol.

Mae cyllideb ddynodedig o £20,000 ar gael er mwyn comisiynu Ymchwilwyr Annibynnol Cam 2; fodd bynnag, mae'n faes anrhagweladwy oherwydd bod gan yr achwynwyr yr hawl i wneud cais am Ymchwiliad Cam 2 o dan y Rheoliadau.

O'r 22 o gwynion a dderbyniom, cafodd 20 eu datrys ar lefel leol, heb yr angen i gomisiynu Ymchwilydd Annibynnol. Aeth y ddau gŵyn arall yn uniongyrchol i gam 2 ar gais yr achwynwyr, yn ôl eu hawl.

Mae nifer y cwynion a dderbynnir gan feysydd gwasanaeth unigol yn ddibynnol ar fath a natur y gwasanaethau a ddarperir. Mae meysydd megis Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth a Phlant sy'n Derbyn Gofal yn benodol emosiynol ac mae ein cyswllt â theuluoedd yn seiliedig ar bryderon am les Plant a Phobl Ifanc.

Nid oes gan feysydd eraill, megis Cymorth a Thrawsnewid Busnes a Safonau Ansawdd a Chomisiynu, yr un faint o swyddogaethau gyda'r cyhoedd, felly, byddech yn disgwyl cael llai o gwynion ffurfiol mewn perthynas â'r meysydd gwasanaeth penodol hyn.



O'r 20 o gwynion Cam 1, cafodd 17 (85%) eu cydnabod gyda llythyr o fewn dau ddiwrnod gwaith a chwblhawyd 16 (80%) erbyn y dyddiad cau o 15 diwrnod gwaith. Yn y pedwar achos lle aethpwyd tu hwnt i'r dyddiad cau, cyfathrebwyd â'r achwynydd gyda chytundeb i dderbyn ymateb mwy manwl yn hwyrach, yn hytrach na brysio i lynu at y dyddiad cau swyddogol.

Am beth yr oedd pobl yn cwyno?

Mae'n anodd adnabod themâu unigol mewn perthynas â chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae llawer ohonynt yn gymhleth eu natur ac yn cynnwys mwy nag un elfen benodol. At ddibenion yr adroddiad, rydym wedi nodi'r hyn rydym yn credu yw'r 'brif' thema ym mhob cwyn unigol. Y thema fwyaf cyffredin a nodwyd oedd rhyw fath o anghytundeb gyda gweithredoedd y Gwasanaethau Cymdeithasol. Wrth archwilio'r thema hon ymhellach, datgelwyd bod pobl yn aml yn cwyno am weithredoedd a wnaed er budd pennaf aelod arall o'r teulu; fodd bynnag, maent yn gwrthwynebu'r hyn sydd wedi cael ei wneud. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud o ran categoreiddio themâu er mwyn dadansoddi tueddiadau dros amser, ac edrych ar dueddiadau sy'n codi dro ar ôl tro wrth edrych tua'r dyfodol.



Sut y gallwn wella

- Er mwyn atal unrhyw oedi o ran cwynion yn cyrraedd ein tîm dynodedig, byddwn yn cynnal sesiynau hyfforddi Ymwybyddiaeth o Gwynion gyda staff er mwyn codi ymwybyddiaeth.
- Byddwn yn darparu mwy o gefnogaeth i staff sy'n delio â chwynion di-baid a blinderus gyda pholisi newydd Rheoli Cyswllt Cwsmeriaid mewn Gofal Cymdeithasol.
- Rydym wedi cydnabod pwysigrwydd olrhain unrhyw gamau gweithredu cytunedig mewn cyfarfodydd amlddisgyblaeth ac iechyd a diogelwch, felly byddwn yn sicrhau bod cyfarfodydd adolygu yn cael eu cynnal nes i'r holl gamau gweithredu cytunedig gael eu cwblhau a'u llofnodi.
- Byddwn yn cyflawni digwyddiadau dysgu a myfyrio ar ôl Ymchwiliadau Annibynnol Cam 2 cymhleth er mwyn rhoi cyfle i'r holl staff ynghlwm ôl-drafod a defnyddio dysgeidiaeth i wella arferion ar gyfer y dyfodol.
- Byddwn yn sicrhau bod ein trefniadau polisi codi tâl yn cael eu rhannu cyn gynted â phosibl gydag unigolion, fel bod unrhyw anfonebau a dderbynnir yn rhai disgwyliedig ac felly ddim yn cael eu herio.
- Rydym angen sefydlu proses glir ar gyfer ymdrin â thaliadau Lwfans Byw i'r Anabl, lle mae'r plentyn neu berson ifanc mewn lleoliad preswyl.
- Gan ei fod yn destun mor gymhleth, rydym angen creu canllawiau ar gyfer teuluoedd a gofalwyr ar lety diogel ar gyfer pobl ifanc.

- Pan dderbynnir pryderon diogelu fel rhan o gŵyn mwy, byddwn yn eu gwahanu er mwyn osgoi dryswch a dyblygu proses.
- Rydym angen creu proses apeliadau ar wahân lle nad yw Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 yn berthnasol.

Yn ogystal, ein prif nodau ar gyfer 2023-24 yw:

- Datrys cwynion o fewn 24 awr o'u derbyn, fel eu bod yn cael eu datrys fel pryderon cwyn yn hytrach na chwynion ffurfiol.
- Annog datrysiad lleol yng Ngham 1 er mwyn osgoi amser a chostau sy'n gysylltiedig ag Ymchwilwyr Annibynnol Cam 2.
- Parhau i hybu cyfathrebu effeithiol rhwng staff a dinasyddion.
- Pwysleisio pwysigrwydd terfynau amser trwy sesiynau hyfforddi cynlluniedig.
- Cyflwyno ffurflenni newydd i gofnodi data cwynion yn gywir ar ein system gwybodaeth cleientiaid.
- Cyflawni ymgyrch recriwtio er mwyn cynyddu nifer yr Ymchwilwyr Annibynnol Cam 2 sydd ar gael i ymdopi â'r galw ar draws Gogledd Cymru.
- Hwyluso Ymchwiliadau Annibynnol o bell mwy esmwyth, trwy dechnoleg gwybodaeth fwy dibynadwy.
- Diweddaru ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Ymchwilwyr Annibynnol, er mwyn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth diogelu data diweddaraf.

Gwaith Cefnogi Partneriaeth / Monitro Gwasanaethau a Gomisiynir

Mae'r Tîm Sicrhau Ansawdd yn cynnwys pedwar Swyddog Cefnogi Partneriaeth, un Swyddog Cefnogi Partneriaeth Cynorthwyol, Rheolwr Tîm a Rheolwr Adain.

Ers Ebrill 2023, mae'r tîm wedi cynnal 107 o ymweliadau monitro i Gartrefi Gofal, 45 ymweliad i gynlluniau byw â chymorth cymunedol a 14 o ymweliadau i asiantaethau gofal cartref yng Nghonwy.

Yn 2023, cefnogodd y tîm waith Ymarferwyr Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, trwy gyflawni ymweliadau dilynol i leoliadau er mwyn monitro ac archwilio sampl o awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfreithiol ac ystyrlon ac i helpu cynnal ansawdd o ran cymhwyso egwyddorion y Ddeddf Galluoedd Meddyliol.

Mae saith o ymweliadau wedi cael eu cwblhau i Gynlluniau Byw â Chymorth Cymunedol er mwyn monitro cadw cofnodion ariannol.

Mae Gweithdrefn Uwchgyfeirio Pryderon Gogledd Cymru yn bodoli er mwyn sicrhau gwasanaethau o ansawdd ac ymateb i'r cynnydd mewn risgiau neu bryderon mewn perthynas â darparwyr gwasanaeth. Y llynedd, cyflawnwyd gwaith gyda phump cartref gofal yng Nghonwy o dan y Weithdrefn Uwchgyfeirio Pryderon. Cynhelir ymweliadau monitro manwl mewn lleoliadau er mwyn cefnogi'r cartref i reoli'r broses cynllun gweithredu cytunedig. Cwblheir ymweliadau dilynol mis, tri mis a chwe mis, ar ôl i'r broses Uwchgyfeirio Pryderon ddod i ben.

Yn y flwyddyn nesaf bwriadwn gyflwyno ffurflen adborth ar gyfer darparwyr i wneud sylwadau ar ein hymweliadau monitro. Byddwn hefyd yn datblygu ein gwaith monitro ymhellach er mwyn gallu cefnogi cyfleusterau preswyl i blant sy'n cael eu creu o fewn Conwy ar hyn o bryd.

Ffynonellau eraill o wybodaeth

Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr (blynyddoedd blaenorol)

https://conwysocialservicesannualreport.org.uk/cy/

Cynllun Corfforaethol 2022-2027

https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Corporate-Plan/Corporate-Plan-2022-2027.aspx

Sut rydym yn comisiynu gwasanaethau

http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Policies-Plans-and-Reports/How-we-Commission-Services.aspx

Arolygiaeth Gofal Cymru

https://www.arolygiaethgofal.cymru/

Gofal Cymdeithasol Cymru

https://gofalcymdeithasol.cymru/

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

Canolfannau i Deuluoedd Conwy

https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Children-and-families/Conwy-Family-Centres/Conwy-Family-Centres.aspx

Polisi Diogelu Corfforaethol

http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Im-worried-about-somebody/Corporate-Safeguarding-Policy.aspx

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/

Gweithdrefnau Diogelu Cymru

https://www.diogelu.cymru/

Cymru Iachach

https://www.llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

Maethu Cymru
https://conwy.maethucymru.llyw.cymru/

Fframwaith Rheoli Perfformiad

Gweithredwyd Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020, sy'n cynnwys set newydd o dargedau a mesurau perfformiad. Mae'r mesurau hyn yn tanategu pob agwedd o'r gwaith rydym yn ei wneud, drwy hysbysu ein timau rheoli o gynnydd, arferion da a thueddiadau newydd. Nid yn unig yw'r mesurau a'r targedau hyn, ar lefel leol a chenedlaethol, yn monitro perfformiad, maent hefyd yn caniatáu i ni gynllunio darpariaeth ein gwasanaethau yn y dyfodol. O ganlyniad, gallwn reoli unrhyw faterion posibl yn rhagweithiol, lliniaru yn erbyn risgiau a defnyddio'r wybodaeth i gymell ein gwasanaethau yn y dyfodol.

Safon Ansawdd 1 - Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw		
Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad	**2022-2023**	**2023-2024**
Cyfanswm nifer y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn *(AD/010)*	609	748
Nifer y cysylltiadau newydd i oedolion a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn *(AD/001)*	5,275	4,986
Safon Ansawdd 2 – Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys ac sy'n derbyn cefnogaeth yn gweithio tuag at weledigaeth a rennir.		
Nifer y swyddi gwag a hysbyswyd yn ystod y flwyddyn	215	220
Nifer y swyddi gwag a gafodd eu llenwi'n llwyddiannus	144	161
Safon Ansawdd 3 – Mae'r angen am ofal a chefnogaeth yn cael ei leihau a'r cynnydd o ran anghenion yn cael ei atal, tra'n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu sicrhau i bobl.		
Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn *(CH/045)*	17	18
Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi bod mewn tri lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn *(CH/043)*	23	20
Cyfanswm y Cynlluniau Llwybr cychwynnol sydd i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn *(CH/049)*	30	17
Safon Ansawdd 4 - Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas		
Cyfanswm nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn (ac eithrio trefniadau pontio, symud sy'n gysylltiedig â mabwysiadu neu symud tŷ) *(CH/044)*	17	13
Safon Ansawdd 5 – Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu deilliannau cwbl integredig, o ansawdd uchel, cynaliadwy i bobl.		
Cyfanswm nifer y plant gyda chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth *(CH/015)*	737	796
Cyfanswm nifer y plant gyda chynllun gofal a chymorth ble fo anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth *(CH/016)*	56	59
Cyfanswm nifer y plant gyda chynllun gofal a chymorth ble fo anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth *(AD/013)*	212	215
Safon Ansawdd 6 – Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a'u cefnogaeth fel partneriaid cyfartal.		
Cyfanswm nifer y bobl sy'n gadael gofal, o 31 Mawrth, sydd wedi bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant am o leiaf 3 mis yn olynol. *(CH/054a)*	Amherthnasol Mesur newydd ar gyfer 2023-2024	57
Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn *(AD/004)*	1,741	1,841
Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn *(CH/006)*	179	191
Safon Ansawdd 7 – Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed.		

Cyfanswm nifer yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod o gael gwybod am yr honiad o gamdriniaeth *(AD/024)*	701	1,115
Cyfanswm y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth *(CH/026a)*	43	59
Cyfnod cyfartalog o amser yr holl blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn *(PMC28)*	247.22 diwrnod	212.27 diwrnod
Safon Ansawdd 8 – Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau hysbys eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol am gymaint â phosibl.		
Nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n symud i leoliad 'Pan fydda i'n Barod' *(CH/055)*	1	10
Cyfanswm nifer y bobl ifanc y cafodd ymgynghorydd personol ei neilltuo ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn - o fewn 3 mis os oedden nhw yng nghategori 1 neu 4, gweler y canllawiau *(CH/051)*	10	5

Pryderon am unigolyn

Os ydych chi'n gwybod am oedolyn sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu'n cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Cyngor neu'r Heddlu.

Os bydd yr unigolyn mewn perygl ar unwaith, ffoniwch yr Heddlu'n syth ar 999. Os nad yw mewn perygl ar unwaith, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted â phosibl i rannu eich pryderon.

Rhoi gwybod am oedolyn mewn perygl

Rhif Ffôn: 0300 456 1111

Rhif ffôn y tu allan i oriau arferol: 0300 123 3079

E-bost: lles@conwy.gov.uk

Ewch i'n gwefan: Rhoi gwybod am oedolyn mewn perygl

Rhoi gwybod am blentyn mewn perygl

Os hoffech chi wneud ymholiad, neu os ydych chi'n bryderus am ddiogelwch plentyn, cysylltwch â ni:

Rhif Ffôn: 01492 575 111

Rhif ffôn y tu allan i oriau arferol: 0300 123 3079

Ewch i'n gwefan: Rhoi gwybod am blentyn mewn perygl